# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH<br>27 IONAWR 2026<br>10.00 o'r gloch** | | **TUESDAY<br>27 JANUARY 2026<br>10.00 am** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM** | | **COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Neville Evans, Carwyn E Jones, Dyfed Wyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Roberts, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**3 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

**4 COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol: -

- 16 Rhagfyr 2025
- 6 Ionawr 2026 (Arbennig)

**5 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 11 - 18)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**6 CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2026/27** (Tudalennau 19 - 40)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7 STRATEGAETH GYFALAF 2026 – 2031** (Tudalennau 41 - 82)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8 PREMIWM Y DRETH GYNGOR** (Tudalennau 83 - 96)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9 GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL DI-BRESWYL YN Y GYMUNED – FFIOEDD A THALIADAU 2026/27** (Tudalennau 97 - 102)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

10 **CARTREFI'R AWDURDOD LLEOL I BOBL HYN - PENNU'R FFI SAFONOL 2026/27** (Tudalennau 103 - 108)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

11 **CYNLLUN TUAG AT SERO NET 2026-2031** (Tudalennau 109 - 132)

Cyflwyno adroddiad y Prif Weithredwr.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom ar 16 Rhagfyr, 2025

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Ieuan Williams, Robin Williams |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (ar gyfer eitem 8)<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 9 ac 11)<br>Pennaeth Democratiaeth<br>Arweinydd Strategol Addysg (Cynradd) (RW) (ar gyfer eitem 7)<br>Prif Swyddog Digidol (MH) (ar gyfer eitem 7)<br>Prif Swyddog Rheoli Gwastraff (ME) (ar gyfer eitem 8)<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH)<br>Cynorthwyydd Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd - Gweddarlledu (CH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Neville Evans |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes a Dylan Rees (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio) (ar gyfer eitem 7 ac 8), Elin Allsopp (Swyddog Sgriwtini) (ar gyfer eitem 7 ac 8) |

---

### 1. YMDDIHEURIADAU

Nodwyd yr ymddiheuriad.

### 2. DATGAN BUDDIANT

Fe wnaeth y Cynghorwyr Dafydd Roberts a Robin Williams ddatgan buddiant rhagfarnus yn gysylltiedig ag eitem 11 ar y rhaglen gan eu bod yn aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. Gadawodd y ddau aelod y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y mater hwn.

### 3. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG

Dim i'w adrodd.

## 4. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2025 i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2025, fel rhai cywir.**

## 5. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd, i'w gadarnhau, adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr ac Awst 2026.

Rhoddodd y Pennaeth Democratiaeth ddiweddariad i'r Pwyllgor Gwaith ar y newidiadau canlynol i'r Blaen Raglen Waith -

- 6 Ionawr 2026 - cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Gwaith i ystyried yr adroddiad ar y gwrthwynebiadau a'r penderfyniad terfynol yn gysylltiedig ag Ysgol Uwchradd Caergybi yn amodol ar dderbyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r amserlen.
- Y cyfarfod ar 27 Ionawr 2026 – mae'r eitem ar Bremiwm y Dreth Gyngor a'r Ardoll Ymwelwyr wedi cael eu haildrefnu.
- Y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2026 - eitem newydd, sef Cyfrifon Terfynol Drafft 2025/26 a Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau.
- Penderfyniad wedi'i ddirprwyo i'r Aelod Portffolio - Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Bioamrywiaeth a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Chwefror.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Ionawr i Awst 2026 gyda'r newidiadau y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod.**

## 6. RHEOLI TRYSORLYS - ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad y Cyngor ar ganol y flwyddyn yn gysylltiedig â strategaeth rheoli trysorlys 2025/26 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer yr adroddiad fel sy'n ofynnol yn unol â Chòd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys 2021 a Chòd Darbodus CIPFA 2021. Mae'r adroddiad yn darparu diweddariad economaidd, nodi'r sefyllfa bresennol o ran benthyca a pherfformiad buddsoddiadau a mesur sefyllfa bresennol y Cyngor yn erbyn y dangosyddion perfformiad a nodir yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) bod gwariant cyfalaf yn unol â'r targed fwy neu lai ar ddiwedd y chwe mis cyntaf. Mae'r Cyngor wedi parhau â'i strategaeth i ddefnyddio ei falansau arian parod i ariannu prosiectau cyfalaf ac mae wedi osgoi benthyca yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r balansau hyn wedi lleihau gan eu bod wedi cael eu defnyddio i gefnogi gwariant cyfalaf a'r gyllideb refeniw.

Mae buddsoddiadau'r Cyngor yn cael eu cadw mewn cyfrifon tymor penodol, byr gyda phrif fanciau ac awdurdodau lleol eraill. Mae'r rhain ar fin aeddfedu ac mae'n annhebygol y bydd unrhyw fuddsoddiadau pellach yn cael eu gwneud yn ystod chwarter pedwar. Fodd bynnag, mae Tabl 4 yn yr adroddiad yn dangos bod y llog ar fuddsoddiadau'n uwch na'r hyn a gyllidwyd ar ei gyfer gan fod cyfraddau llog yn uwch na'r hyn a ragwelwyd pan osodwyd y gyllideb.



DRAFFT

Wrth gadarnhau bod perfformiad rheoli trysorlys y Cyngor yn dal i fod yn unol â'r dangosyddion darbodus a gymeradwywyd ganddo, nododd y Swyddog Adran 151 fân achos technegol o fynd yn groes i arferion rheoli trysorlys fel yr amlinellir ym mharagraff 8 yn yr adroddiad. Roedd hyn oherwydd bod cyfrif galw yn uwch na'r terfynau sydd wedi eu nodi yn y strategaeth rheoli trysorlys am gyfnod byr wedi i log wedi cael ei ychwanegu i'r cyfrif.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a oedd peidio â gwneud unrhyw fuddsoddiadau yn ystod chwarter pedwar yn arferol aeth y swyddog Adran 151 ymlaen i egluro bod balansau'r Cyngor wedi bod yn iach ers y pandemig oherwydd y grantiau a dderbyniodd yn gysylltiedig â Covid, ac yr oedd modd iddo eu buddsoddi. Mae'r balansau hyn wedi cael eu defnyddio yn y blynyddoedd ers hynny, ac mae'r £5m olaf y mae'r Cyngor wedi'i fuddsoddi wrthi'n aeddfedu. Mae'n debyg y bydd yn rhaid i'r Cyngor fenthyca yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn newydd. Bydd y benthyciadau hyn am gyfnod byr o oddeutu blwyddyn gan fod disgwyl i gyfraddau llog ostwng, a fyddai'n galluogi'r Cyngor i ail-fuddsoddi am gyfnod hwy ar gyfradd is.

**Penderfynwyd nodi cynnwys yr Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/26.**

## 7. CYNLLUN STRATEGOL DIGIDOL ADDYSG 2026-2031

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a oedd yn cynnwys y Cynllun Strategol Digidol Addysg i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Dafydd Roberts, yr Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg, a ddywedodd bod y strategaeth yn gam pwysig ymlaen i sicrhau bod gan ysgolion yr ynys yr offer digidol angenrheidiol ar gyfer y dyfodol.

Adroddodd yr Arweinydd Strategol Addysg (Sector Cynradd) bod y Cynllun Strategol Digidol Addysg yn cefnogi datblygu system addysg fodern a'i fod yn canolbwyntio ar bum maes allweddol - cynaliadwyedd, cysylltedd, cydweithio, dysgu proffesiynol, a diogelu data a gwydnwch digidol. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu gwerthoedd y Cyngor ac mae'n gyson â Chynllun y Cyngor a Chynllun Strategol Digidol y Cyngor. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r Cynllun yn pwysleisio sicrhau bod pob disgybl, waeth beth fo'i gefndir neu leoliad, yn cael mynediad at yr un adnoddau digidol. Y nod yw lleihau'r bwlch digidol rhwng dysgwyr a chefnogi pob dysgwr i gael mynediad at adnoddau addysgol ar-lein, drwy roi'r un cyfle i bob dysgwr lwyddo yn yr ysgol.

Adroddodd y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio bod y pwyllgor wedi adolygu'r Cynllun Strategol Digidol Addysg yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr 2025. Roedd y pwyllgor wedi nodi pwysigrwydd y cynllun o ran datblygu system addysg fodern sy'n cwrdd ag anghenion dysgwyr nawr ac yn y dyfodol. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r risgiau posib yn gysylltiedig â diogelwch seiber a rheoli data yn ogystal â'r heriau'n gysylltiedig â'r gyllideb ar gyfer gweithredu'r cynllun. Gofynnodd y pwyllgor am sicrwydd ynglŷn â'r materion hyn ac ar ddarparu cymorth a hyfforddiant digonol i staff ar ôl cyflwyno'r cynllun. Ar ôl adolygu'r cynllun, fe wnaeth y pwyllgor argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn ei dderbyn.

Cadarnhaodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor Gwaith wedi ymrwymo i glustnodi cronfa flynyddol ar gyfer offer digidol mewn ysgolion, er mwyn sicrhau na fydd y Cyngor yn wynebu baich ariannol sylweddol pan fydd angen adnewyddu dyfeisiadau.

Amlygodd y Cynghorydd Ieuan Williams, yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd yr elfennau yr hoffai eu gweld yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Strategol Digidol

Addysg, megis y gymhareb dyfeisiadau a dysgwyr i adlewyrchu dyheadau'r Cyngor, a'r disgwyliadau o ran cyfran y staff sydd â chymwysterau Microsoft a Google. Cynigodd hefyd y dylid cael cynllun gweithredu manwl i gyd-fynd â'r strategaeth lefel uchel sy'n amlinellu sut y bydd yr amcanion yn cael eu cyflawni, ar gyfer y flwyddyn gyntaf o leiaf. Hefyd, awgrymodd y dylid darparu gwybodaeth, yn ystod y chwe mis nesaf, ar y dyraniad ar gyfer pob ysgol - boed yn ariannol neu o ran dyfeisiadau - ynghyd â chytundeb lefel gwasanaeth sy'n nodi'r gwasanaeth y gall ysgolion ddisgwyl ei dderbyn. Gan nodi bod yr ystâd caledwedd digidol addysg yn fwy na'r ystâd gorfforaethol, argymhellodd y Cynghorydd Ieuan Williams y dylid creu swydd ddynodedig i sicrhau bod y cynllun strategol yn cael ei gyflawni'n effeithiol a gofynnodd i'r Tîm Arweinyddiaeth ystyried creu rôl o'r fath.

Eglurodd y swyddogion bod y Cynllun Strategol Digidol Addysg yn ddogfen lefel uchel ac y bydd cynlluniau gweithredol i gefnogi'r cynllun a fydd yn amlinellu'r camau cyflawni. Bydd y cynllun yn cael ei gyflawni mewn partneriaeth â'r gwasanaeth TG a bydd yn cael ei oruchwylio gan grŵp llywio a fydd yn creu adroddiad cynnydd blynyddol ac adroddiad adolygu. Nododd y swyddogion bod angen ystyried y cynllun ymhellach ac ymgysylltu ag ysgolion er mwyn adolygu'r ddarpariaeth bresennol, asesu ei effeithlonrwydd, yn cynnwys y gymhareb dyfeisiadau a dysgwyr, a chadarnhau'r buddsoddiad sydd ei angen yn y dyfodol a'r blaenoriaethau. Bydd unrhyw newidiadau o ran defnydd neu ddull yn cael eu cynnwys yn y rhagolygon ariannol. Fe wnaeth y swyddogion hefyd amlygu'r cymorth sydd ar gael i ysgolion ar hyn o bryd yn gysylltiedig â dysgu proffesiynol, cyngor arbenigol a'r rhwydwaith ehangach o hwyluswyr a thechnegwyr. Pwysleisiwyd bod gan y gwasanaeth sylfaen gref o ran sgiliau a chyfarwyddyd clir ar gyfer datblygu.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bod cytundeb lefel gwasanaeth drafft wedi cael ei rannu â'r ysgolion a bod cyfeiriad ato yn y cynllun strategol.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr bod y Cyngor wedi ymrwymo i'r cynllun strategol digidol addysg, er gwaetha'r pwysau ariannol parhaus, a dywedodd ei fod wedi profi hyn drwy fuddsoddi er mwyn dal i fyny â'r newidiadau cyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd yn cydnabod bod y sefyllfa ariannol yn heriol o hyd a bod rhaid trafod a deall y gofynion digidol yn llawn a datblygu cynlluniau ar gyfer y ddwy neu dair blynedd nesaf. Eglurodd bod y dull cynllunio strategol yn fwriadol, a'i fod yn cyfuno strategaeth a chynllun cyflawni, i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, arweiniad clir drwy swyddog arweiniol ac adroddiadau cynnydd blynyddol. Mae'r gwasanaeth a'r aelod portffolio yn ystyried a thrafod yr heriau'n fanwl ac mae canlyniadau'r broses hon yn llywio penderfyniadau strategol ac ariannol.

Fe wnaeth y Pwyllgor Gwaith gydnabod y pwyntiau a godwyd. Nodwyd y bydd yr ystyriaethau ariannol a phryderon yn cael eu cyfarch wrth bennu'r gyllideb. Roedd yr Aelodau hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cael systemau TG cadarn a chapasiti digonol mewn ysgolion wrth i ddulliau asesu digidol gael eu cyflwyno'n fwy eang.

**Penderfynwyd mabwysiadu'r Cynllun Strategol Digidol Addysg newydd (2025-2031).**

## 8. YMGYNGHORIAD CASGLU GWASTRAFF AC AILGYLCHU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith fel y gellir cynnal proses ymgynghori ar y newidiadau posib i'r gwasanaeth casglu gwastraff ac ailgylchu fel rhan o'r strategaeth i gwrdd â'r targedau statudol.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Ieuan Williams, yr Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd a nododd bod gan y Cyngor rwymedigaeth statudol i gyflawni cyfradd ailgylchu o 70% erbyn 2024/25. Gall methu â chyrraedd targedau ailgylchu arwain at ddirwy gan Lywodraeth Cymru. Yn seiliedig ar y gyfradd ailgylchu bresennol o tua 65%,



DRAFT

amcangyfrifir y bydd y Cyngor yn wynebu dirwy flynyddol o £361k.  Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu Glasbrint Casgliadau 2025. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r hyn maen nhw'n ei argymell ar gyfer casglu gwastraff ac mae'r Cyngor eisoes yn bodloni'r rhan fwyaf ohonynt. Derbyniwyd cefnogaeth ar sut i gynyddu cyfraddau ailgylchu gan WRAP Cymru. Eu prif argymhelliad oedd lleihau'r capasiti gwastraff gweddilliol wythnosol i 60l, yn unol â'r hyn a argymhellir yn y Glasbrint. Gellid cyflawni hyn drwy gasglu gwastraff gweddilliol yn llai aml a/neu leihau maint y bin. Byddai hyn yn cynyddu cyfradd ailgylchu'r Cyngor 5%, ond byddai cost sylweddol ynghlwm â newid y biniau.

Rhaid ymgynghori cyn cyflwyno unrhyw newid i'r gwasanaeth yn enwedig pan fo'r newid hwnnw'n golygu casglu gwastraff yn llai aml, a chan bod casgliadau gwastraff yn effeithio ar bob preswylydd, rhaid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn.  Mae'r cwestiynau arfaethedig a gafodd eu datblygu gan y tîm cyfreithiol a chyfathrebu ar gael yn Atodiad 1 yn yr adroddiad.  Os bydd newid yn cael ei gyflwyno yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd angen buddsoddiad ariannol sylweddol. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid dim ond os gall y Cyngor ddangos fod ganddo gynllun credadwy i gyflawni 70% neu fwy.  Heb gynllun o'r fath gall y risg o ddirwy gynyddu a gall hefyd effeithio ar gostau busnes arferol.

Cynghorodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo bod y dystiolaeth genedlaethol yn awgrymu na ellir cyrraedd y targed ailgylchu o 70% drwy addysg a gorfodaeth yn unig a bod rhaid newid dull yn sylweddol. Byddai'r cynllun hirdymor, os caiff ei gymeradwyo, yn diogelu gweithrediadau busnes fel arfer gan fod angen buddsoddi'n sylweddol yn y ddwy ganolfan ailgylchu er mwyn moderneiddio offer a chynnal y gwasanaeth presennol.  Nododd hefyd bod mân addasiadau wedi cael eu gwneud i'r holiadur fel ei fod yn haws i'w gwblhau'n ddigidol a bydd cwestiwn yn cael ei gynnwys ar yr effaith ar y Gymraeg yn ogystal yn unol â'r ddyletswydd statudol.

Adroddodd y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio bod y pwyllgor wedi adolygu'r ymgynghoriad arfaethedig yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr 2025.  Pwysleisiodd y pwyllgor bwysigrwydd ymgynghori â chymaint o drigolion â phosib a defnyddio amrywiaeth o ddulliau. Nododd yr aelodau'r prif heriau yn gysylltiedig â chyfraddau ymateb isel a diffyg dealltwriaeth ymysg y cyhoedd o'r angen i newid y trefniadau ar gyfer casglu gwastraff ac ailgylchu i gwrdd â thargedau statudol.  Fe wnaethant ofyn am sicrwydd y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â phwysigrwydd ailgylchu ac fe wnaethant awgrymu y dylid ymestyn y cyfnod ymgynghori. Ar ôl adolygu'r dogfennau, roedd y pwyllgor yn argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn bwrw 'mlaen â'r ymgynghoriad gan ddefnyddio'r cwestiynau yn Atodiad 1 a'r amserlen arfaethedig, a bod yn ystyriol o bryderon y pwyllgor.

Nododd y Pwyllgor Gwaith nad y Cyngor hwn yw'r unig gyngor sy'n cael trafferth cwrdd â'r targed ailgylchu statudol o 70% ac nad yw ymysg yr isaf o ran perfformiad. Roedd yr Aelodau'n cydnabod bod cyfraddau ailgylchu'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a'i bod yn gallu dirwyo awdurdodau lleol sydd methu â chwrdd â'r targed.  Fe wnaethant bwysleisio bod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn hanfodol er mwyn datblygu cynllun credadwy i ddangos ymrwymiad y Cyngor i gwrdd â'r targed statudol, er mwyn osgoi dirwyon a derbyn cyllid i fuddsoddi yng nghyfleusterau ailgylchu'r Cyngor.   Fe wnaeth yr aelodau hefyd amlygu'r angen i addysgu trigolion ynglŷn â phwrpas ailgylchu a'r broses a phwysleisio bod ailgylchu'n gyfrifoldeb i bawb.  Fe wnaethant gydnabod bod rhaid i'r Cyngor arwain y gwaith o hyrwyddo a hwyluso ailgylchu a bod rhaid cydweithio i gwrdd â'r targed.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo cynnal proses ymgynghori ar sut y gall y gwasanaeth ailgylchu/casglu gwastraff newid yn y dyfodol i helpu gyrraedd targedau ailgylchu statudol o 70%.**

DRAFT

- **Cymeradwyo'r cwestiynau i'w gofyn fel rhan o'r broses ymgynghori fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.**
- **Cymeradwyo'r amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus i gychwyn ar 7 Ionawr 2026 a phara am chwe wythnos.**

**9. RHENTI A THALIADAU GWASANAETHAU TAI 2026/27**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai a oedd yn nodi'r rhenti a thaliadau gwasanaethau tai arfaethedig ar gyfer 2026/27 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, yr Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol a ddywedodd mai blwyddyn rhent 2026/27 fydd y flwyddyn gyntaf fel rhan o fframwaith Rhenti a Thâl Gwasanaeth newydd Llywodraeth Cymru a fydd yn weithredol rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2036. Ar 24 Hydref, 2025, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi cytuno ar y polisi ar gyfer rhenti tai cymdeithasol ar gyfer 2026/27, a'i bod yn cynghori pob awdurdod lleol i ddefnyddio'r fformiwla Mynegai Prisiau Defnyddwyr + 0.5%, (roedd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 3.8% ym mis Medi 2025), a fydd yn golygu cynnydd o ddim mwy na 4.3% ar draws yr holl stoc.

Mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio'r cynnydd uchaf posib er mwyn -

- Cwrdd â Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 erbyn 2033 a fydd yn golygu buddsoddiad sylweddol a fydd yn cael ei ariannu drwy'r CRT.
- Sicrhau lwfans o £2.7m ar gyfer gwaith atgyweirio mawr sydd heb gynyddu i gwrdd â'r safonau newydd.
- Cefnogi'r gwaith o ddarparu cartrefi cymdeithasol fforddiadwy a chyfrannu at darged Llywodraeth Cymru i greu 20,000 o gartrefi newydd.

Er mwyn asesu'r fforddiadwyedd rhent cyfartalog presennol ar gyfer tenantiaid y Cyngor, defnyddiwyd methodoleg Rhentu Byw Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) sy'n cadarnhau y bydd y rhent a'r tâl gwasanaeth cyfartalog ar gyfer pob math a maint o eiddo yn dal i fod yn fforddiadwy i denantiaid ar Ynys Môn ar ôl cymhwyso'r cynnydd o 4.3%. Hefyd, ni fydd 77% o denantiaid y Cyngor yn wynebu caledi ychwanegol gan eu bod yn derbyn Budd-dal Tai llawn neu ran ohono neu'n derbyn Credyd Cynhwysol. Mae'r Tîm Cynhwysiant Ariannol hefyd ar gael i ddarparu cyngor a chymorth i unrhyw denantiaid sy'n wynebu caledi ariannol o ganlyniad i'r cynnydd.

Bydd taliadau am wasanaethau yn ystod 2026/27 yn seiliedig ar gostau gwirioneddol a gafwyd yn ystod 2024/25, a byddant yn cael eu rhannu'n gyfartal ymhlith tenantiaid a lesddeiliaid sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Mae mwyafrif y costau hyn yn gymwys am Fudd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol. Bydd yr incwm ychwanegol a gynhyrchir yn sgil cynyddu'r rhent ar gyfer garejis yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu cynllun strategol ar gyfer y garejis.

Pwysleisiodd y Pwyllgor Gwaith bod gallu'r Cyngor i fuddsoddi yn ei stoc dai i gwrdd â SATC yn ddibynnol ar gyllideb y CRT, a gefnogir gan yr incwm rhenti. Nododd yr aelodau bod rhenti'n dal i fod yn fforddiadwy o dan fethodoleg y JRF, ond roeddent yn annog tenantiaid i droi at Dîm Cynhwysiant Ariannol y Gwasanaethau Tai, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth neu Canolfan J. E. O'Toole, i gael cyngor ar fudd-daliadau os ydynt yn wynebu caled ariannol.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –**

- **Cynnydd o 4.3% ar draws yr holl unedau rhent cyffredinol sy'n unol â pholisi rhent Llywodraeth Cymru wrth gasglu dros 51 wythnos.**

- **Cynnydd o £1.10 yr wythnos ar gyfer rhenti pob garej.**
- **Bod y taliadau gwasanaeth a nodir yn adran 6.3 yr adroddiad yn cael eu codi ar bob tenant sy'n derbyn y gwasanaethau perthnasol.**
- **Gweinyddu'r Cynllun Cymorth Rhent sy'n gynllun lleol i gefnogi tenantiaid sy'n hunan dalu rhent ac mewn anhawster ariannol.**

**10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 i gau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y golygai ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12, 13 a 14 o Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.

**11. YMATEB I'R HER TAI LLEOL - DATBLYGIAD TAI YM MHLAS PENLAN, LLANGEFNI**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn gysylltiedig â'r cynllun tai cyngor newydd arfaethedig ym Mhlas Penlan, Llangefni i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Carwyn Jones, yr Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol a ddywedodd mai'r safle dan ystyriaeth yw safle hen gartref gofal Plas Penlan sydd wedi cau ers bron i ddegawd.  Mae'r bwriad yn gyfle i ddymchwel y cartref a chlirio ac ailddatblygu'r safle i greu 12 cartref fforddiadwy ar gyfer trigolion lleol yn cynnwys byngalos un, dwy a thair ystafell wely ynghyd ag uned bwrpasol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi trigolion gydag anableddau dysgu a all leihau costau refeniw yn y dyfodol drwy ddarparu darpariaeth fewnol i'r grŵp yma o gleientiaid.  Bydd y datblygiad yn cael ei ariannu'n rhannol gan y Grant Tai Cymdeithasol a'r CRT.  Mae'r model dichonolrwydd cychwynnol yn awgrymu y byddai'r datblygiad yn hyfyw ac y byddai'n cydymffurfio a gweithdrefnau datblygu'r Cyngor.

Mae cais cynllunio llawn wedi cael ei gyflwyno a disgwylir penderfyniad yng Ngwanwyn 2026.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai bod rhestr aros y Cyngor yn dangos bod galw mawr am fyngalos un a dwy ystafell wely yn Llangefni, ac y byddai'r datblygiad yn helpu i gwrdd â'r galw hwn gan mai'r bwriad yw gosod y byngalos ar rent cymdeithasol i bobl hŷn.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn croesawu'r bwriad gan y byddai'n gwneud defnydd cadarnhaol o hen gartref gofal gwag, a pe byddai caniatâd cynllunio'n cael ei roi, byddai'n mynd i'r afael â'r galw am fyngalos yn Llangefni a chefnogi gwaith ar y cyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Penderfynwyd cymeradwyo symud ymlaen i ddatblygu cynllun o 12 tai newydd ym Mhlas Penlan, Llangefni* fydd ar gael i drigolion lleol fel cartrefi fforddiadwy i'w rhentu mewn ymateb i'r her tai lleol.**

***Mae gwireddu'r cynllun yn amodol ar dderbyn caniatâd cynllunio iddo.***

**Y Cynghorydd Gary Pritchard**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH
## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithwir ar Zoom ar 6 Ionawr 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Ieuan Williams, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Democratiaeth<br>Rheolwr Strategol Perfformiad a Phrosiectau (GP)<br>Arweinydd Strategol (Ysgolion Uwchradd) (ED)<br>Rheolwr Rhaglen (EB)<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH)<br>Swyddog Gweddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts, Lynn Ball (Cyfarwyddwr Swyddogaeth - Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro), Fôn Roberts (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Douglas Fowlie, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Dafydd Rhys Thomas |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, chan mai hwn oedd cyfarfod ffurfiol cyntaf y Pwyllgor Gwaith yn y flwyddyn newydd, manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i holl staff y Cyngor am eu hymdrechion i gynnal gwasanaethau yn ystod y tywydd anodd a brofwyd yn ddiweddar. Diolchodd yn arbennig i staff yr Adran Briffyrdd a fu'n gweithio'n ddiflino er mwyn sicrhau fod trigolion yr ynys yn gallu teithio'n ddiogel.

### 1. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd a nodwyd yr ymddiheuriadau a dderbyniwyd gan yr aelodau a'r swyddogion oedd yn absennol.

### 2. DATGAN DIDDORDEBAU

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

### 3. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG

Dim i'w adrodd.

### 4. ADRODDIAD GWRTHWYNEBU AR GANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD STATUDOL AR Y CYNNIG I ADLEOLI DYSGWYR YSGOL UWCHRADD CAERGYBI I ADEILAD YSGOL NEWYDD AR GYFER DISGYBLION 11-18 OED

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried, adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ynghyd â'r adroddiad gwrthwynebu ar ganlyniad yr ymgynghoriad statudol ar y

cynnig i adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg, yr adroddiad ac amlinellodd y cefndir. Mabwysiadodd y Cyngor ei Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a'r Gymraeg ym mis Gorffennaf 2023 ac, ym mis Mawrth 2024, paratowyd Cynllun Strategol Amlinellol oedd yn blaenoriaethu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi oherwydd bod problemau yn gysylltiedig â choncrid RAAC yn yr ysgol. Ar 22 Mai 2025, cytunodd y Pwyllgor Gwaith i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 5 Mehefin ac 17 Gorffennaf 2025 a chyflwynwyd adroddiad ar y canlyniad i'r Pwyllgor Gwaith ar 21 Hydref 2025. Cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith y cynnig, yn ogystal ag awdurdodi swyddogion i gyhoeddi hysbysiad statudol. Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar 6 Tachwedd 2025 ac, yn dilyn hynny, roedd cyfnod statudol o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebu'r cynnig. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Esboniodd yr Arweinydd Strategol (Sector Uwchradd) bod rhaid i'r Cyngor, sef y cynigydd, gyhoeddi crynodeb o'r holl wrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd, ynghyd â'i ymateb iddynt, a hynny er mwyn cydymffurfio ag adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Derbyniwyd dau wrthwynebiad dilys i'r cynnig, gyda'r ddau'n codi mwy nag un mater, a barnwyd bod y gwrthwynebiad arall a dderbyniwyd yn annilys. Mae'r gwrthwynebiadau hyn, ynghyd ag ymateb y Cyngor, wedi'u crynhoi yn adrannau 3 a 4 yn yr adroddiad. Yn unol ag adran 5.2 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, gan fod y cynnig yn effeithio ar addysg chweched dosbarth, bydd angen i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r cynnig ac mae'n rhaid eu hysbysu cyn pen 35 diwrnod i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu, sef 23:59 ar 7 Ionawr 2026. Mae disgwyl penderfyniad gan y gweinidogion erbyn diwedd Mawrth 2026.

Roedd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cytuno fod ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ddilys a thrylwyr ac roeddent yn fodlon â chasgliadau'r swyddogion. Roeddent yn pwysleisio mai'r prif reswm dros y cynnig oedd cyflwr gwael adeilad presennol Ysgol Uwchradd Caergybi, a'r concrid RAAC sydd yn bresennol yn yr adeilad yn arbennig, ac oherwydd hynny adeilad newydd ar y safle arfaethedig yw'r ateb mwyaf ymarferol. Nododd yr aelodau hefyd y gwelwyd ymgysylltu cryf yn ystod yr ymgynghoriad statudol, yn enwedig gan ddysgwyr a disgyblion, ac roeddent o'r farn fod hynny'n galonogol.

**Penderfynwyd –**

- **Ar ôl ystyried yr Adroddiad Gwrthwynebu, i barhau gyda'r cynnig i "adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed."**
- **Cymeradwyo cyflwyno'r Adroddiad Gwrthwynebu i Weinidogion Cymru am y penderfyniad terfynol ar y cynnig i "adleoli dysgwyr Ysgol Uwchradd Caergybi i adeilad newydd ar gyfer disgyblion 11-18 oed."**
- **Awdurdodi swyddogion i roi rhybudd o'r penderfyniad terfynol ar ffurf llythyr penderfyniad (yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn dilyn cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru.**
- **Ymrwymo i ariannu cyfraniad y Cyngor tuag at gostau'r prosiect, fel yr amlinellir yn rhan 7 o'r Papur Cynnig gan gynnwys costau trosiannol (rhan 7.6 o'r Papur Cynnig) fydd yn weithredol o 2025/26 ymlaen.**

**Y Cynghorydd Gary Pritchard**
**Cadeirydd**

DRAFT

F2. 2025/07

# Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 27 Ionawr 2026 |
| Pwnc: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Aelod(au) portffolio: | Y Cynghorydd Gary Pritchard |
| Pennaeth gwasanaeth / cyfarwyddwr: | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr adroddiad: | Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Aelodau lleol: | Amherthnasol |

A – Argymhellion a rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

- gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Chwefror – Medi 2026**
- adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda phwyllgorau sgriwtini'r Cyngor
- nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol)

1. Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

| |
|---|
| Amherthnasol |

2. A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar y Cyngor i’r dyfodol? Os felly, sut?

| |
|---|
| Amherthnasol |

3. A ydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.

| |
|---|
| Amherthnasol |

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

| |
|---|
| Amherthnasol |

5. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

| |
|---|
| Amherthnasol |

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

| |
|---|
| Amherthnasol |

7. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

| |
|---|
| Amherthnasol |

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch a beth oedd eu sylwadau?

| | |
|---|---|
| 1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth |
| 2. Cyllid / Swyddog 151 | Gweler uchod |
| 3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Gweler uchod |
| 4. Adnoddau Dynol | Amherthnasol |
| 5. Eiddo | Amherthnasol |
| 6. Technoleg Gwybodaeth | Amherthnasol |

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

| | |
|---|---|
| 7. Caffael | Amherthnasol |
| 8. Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau bwyllgor sgriwtini, er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9. Aelodau lleol | Amherthnasol |

F – Atodiadau

| |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Chwefror – Medi 2026 |

Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

| |
|---|
| |

Cyngor Sir Ynys Môn

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Chwefror - Medi 2026

Mae’r flaen raglen waith hon yn rhestru’r holl benderfyniadau y mae’r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgriwtini yn ei ystyried ynghyd â phryd y bydd y materion hynny’n cael eu trafod. Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae’r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae’n rhaid eu gwneud gan y Cyngor llawn.



Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o’r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.

Mae’r flaen raglen waith yn cael ei hadolygu’n rheolaidd ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol. Nid yw’r ffaith nad yw penderfyniad wedi’i gynnwys yn y flaen raglen waith yn atal materion brys neu rai na ragwelwyd rhag cael eu hystyried.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 16 Ionawr 2026

Chwefror 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Penderfyniad dirprwyiedig | Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Bioamrywiaeth | Cyng Nicola Roberts | |
| Cyfarfod 24.02.26 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 3, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 12.02.26 |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 3, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 12.02.26 |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 3, 2025/26 | Cyng Robin Williams<br>Cyng Carwyn Jones | Panel Sgriwtini Adnoddau 12.02.26 |
| | Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2026/27 | Cyng Robin Williams | Cyngor llawn 05.03.26 |
| | Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol ar gyfer 2026/27 | Cyng Neville Evans | |
| | Ffioedd a thaliadau 2026/27 | Cyng Robin Williams | |
| | Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2026/27 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 12.02.26<br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.02.26<br>Cyngor llawn 5.3.26 |
| | Cyllideb Gyfalaf 2026/27 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau 12.02.26<br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.02.26<br>Cyngor llawn 05.03.26 |
| | Datganiad polisi trwyddedu alcohol ac adloniant rheoledig | Cyng Nicola Roberts | Cyngor llawn 05.03.26 |

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| | Newid i'r Cyfansoddiad – Cymeradwyaeth terfynol i Ddatganiad Llywodraethiant Blynyddol y Cyngor | Cyng Robin Williams | Cyngor llawn 05.03.26 |
| | Ardoll Ymwelwyr | Cyng Alun Roberts | Cyngor llawn 05.03.26 |
| | Maes Parcio Biwmares | Cyng Ieuan Williams | |

## Mawrth 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Penderfyniad dirprwyiedig | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2024/25 | Cyng Alun Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 17.03.26 |
| Cyfarfod 24.03.26 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 3, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.03.26 |
| | Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2026-2056 | Cyng Carwyn Jones | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 18.03.26 |



## Ebrill 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod 28.04.26 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |

## Mai 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod Mai 2026 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |

## Mehefin 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Penderfyniad dirprwyiedig | Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2025/26 | Cyng Dafydd Roberts | |
| Cyfarfod Mehefin 2026 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 4, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| | Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 4, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau |
| | Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 4, 2025/26 | Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Adnoddau |
| | Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 4, 2025/26 | Cyng Robin Williams<br>Cyng Carwyn Jones | Panel Sgriwtini Adnoddau |

## Gorffennaf 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod Gorffennaf 2026 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |
| | Cyfrifon terfynol drafft 2025/26 a defnydd o arian wrth gefn a balansau | Cyng Robin Williams | |
| | Cynllun Datblygu Lleol – Ymgynghoriad ar y strategaeth a ffefrir | Cyng Nicola Roberts | |

Tudalen 18

## Medi 2026

| Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig | Y mater i'w ystyried | Aelod Portffolio | Dyddiad i sgriwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod Medi 2026 | Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith | Cyng Gary Pritchard | |

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **27 IONAWR 2026** |
| **PWNC:** | **CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2026/27** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **CYNG ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.llyw.cymru |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:

Ni fydd y gyllideb derfynol yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn tan 5 Mawrth 2026, fodd bynnag, argymhellir ar hyn o bryd bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r canlynol:-

**(i)** Y gyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2026/27 o £207.023m;

**(ii)** Cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor o 4.8%, ynghyd â 0.3% ar gyfer Ardoll y Gwasanaeth Tân, sef Cyfanswm o 5.1%, gan olygu fod y gost i eiddo Band D yn £1,792.98;

**(iii)** Cynnig yn ffurfiol i gadw'r premiwm ar gartrefi gwag ac ail gartrefi ar 100%;

**(iv)** Bod £1.685m yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol y Cyngor a'r arian wrth gefn clustnodedig er mwyn cyd-bwyso cyllideb refeniw 2026/27.

Mae'r adroddiad manwl ar baratoi cyllideb ddisymud 2026/27, y setliad dros dro a chyllido'r bwlch yn y gyllideb ynghlwm fel Atodiadau 1 a 2.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd nifer o opsiynau wrth lunio'r gyllideb arfaethedig y mae'r adroddiad hwn yn manylu arni. Roedd yr opsiynau'n ystyried lefel y gwariant net yn seiliedig ar y setliad drafft gan Lywodraeth Cymru ac opsiynau'n ymwneud â lefel y Dreth Gyngor. Nod y gyllideb arfaethedig yw sicrhau cydbwysedd rhwng cynnal gwasanaethau craidd, rhoi sylw i bwysau ar wasanaethau a sicrhau parhad gwasanaeth.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae gosod y gyllideb arfaethedig gychwynnol yn fater sydd wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyllideb refeniw 2026/27 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2026.

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyllideb refeniw 2026/27 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2026.

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys? | Er bod y sefyllfa ariannol yn gwella ac er bod y setliad drafft yn well na'r disgwyl, mae'r sefyllfa ariannol yn heriol, ac nid yw'r cyllid a ddarperir gan y llywodraeth yn ddigon i gwrdd â'r cynnydd mewn costau sy'n wynebu'r Cyngor. Bydd y diffyg hwn mewn cyllid yn effeithio ar allu'r Cyngor i ymateb i heriau a chyfleoedd tymor hir a wynebir gan yr Ynys. Cyllideb arfaethedig cychwynnol yw hwn, a bydd yn cael ei adolygu cyn gosod a chymeradwyo'r gyllideb derfynol ar gyfer 2026/27. Wrth lunio'r gyllideb arfaethedig, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried ei ddyletswyddau statudol a'r amcanion a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol. |
| **2** | A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Mae manylion unrhyw arbedion arfaethedig yn cael eu nodi yn yr adroddiad. |
| **3** | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy | Bu'r Cyngor yn gweithio gyda Chynghorau eraill, partneriaid rhanbarthol a lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i bwyso am y setliad ariannol gorau posib gan Lywodraeth Cymru. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Byddwn yn ymgynghori trwy gyfrwng Fforymau amrywiol sy'n cynrychioli chydranddeiliaid a phoblogaeth ehangach Ynys Môn. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Bydd unrhyw gynigion a gynhwysir yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2026/27 yn ystyried yr effaith ar unrhyw grwpiau a warchodir. |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Bydd y gyllideb yn golygu bod trethdalwyr Ynys Môn yn talu mwy o Dreth Gyngor. Mae'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gymwys am gymorth trwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a dylai hynny olygu na fydd unrhyw effaith ariannol ar y rhai hynny sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, neu bydd yr effaith ariannol yn fychan iawn. |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Ni nodwyd unrhyw effaith. |
| **E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth** (TA) (gorfodol) | Mae sylwadau'r TA wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad ac mae'r TA yn cefnogi'r adroddiad drafft. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)** | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA ac mae unrhyw sylwadau wedi cael eu hystyried wrth drafod yr adroddiad hwn yn y TA. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Mae unrhyw gynigion fyddai'n effeithio ar staff wedi cael eu nodi a'u trafod gyda'r Tîm AD. |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | **Eiddo** | Mae unrhyw gynigion fyddai'n effeithio ar eiddo'r Cyngor a chyllidebau cysylltiedig wedi cael eu trafod gyda'r Tîm Eiddo. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Mae unrhyw gynigion fyddai'n effeithio ar systemau technoleg gwybodaeth y Cyngor a chyllidebau cysylltiedig wedi cael eu trafod gyda'r Tîm TGCh. |
| 7 | **Sgriwtini** | Fe wnaeth y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried y gyllideb arfaethedig gychwynnol yn ei gyfarfod ar 21 Ionawr 2026. Bydd diweddariad ar drafodaethau'r Pwyllgor yn cael ei roi ar lafar i'r Pwyllgor Gwaith. |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Mae'r cynigion yn berthnasol i bob Aelod. |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |

**F - Atodiadau**

- Atodiad 1 - Adroddiad ar y Gyllideb Refeniw Ddrafft 2026/27
- Atodiad 2 - Cyllideb Arfaethedig 2026/27 fesul Gwasanaeth

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2026/27-2028/29 - Gweler Rhaglen cyfarfod y Pwyllgor Gwaith, 23 Medi 2025 - Eitem 12.

**CYLLIDEB REFENIW DDRAFFT 2026/27**

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae'r adroddiad a ganlyn yn nodi cyllideb refeniw arfaethedig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2026/27. Paratoir y gyllideb ar sail y tybiaethau a nodir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2025, a'r setliad dros dro i lywodraeth leol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) ar 24 Tachwedd 2025, a'r ffigwr diwygiedig ar gyfer y setliad a dderbyniwyd ar 9 Rhagfyr 2025. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r arbedion refeniw arfaethedig sydd wedi'u hadnabod gan y gwasanaethau unigol ac mae'r Tîm Arweinyddiaeth, Deiliaid Portffolio unigol a'r Pwyllgor Gwaith wedi eu trafod.

**1.2.** Ni ddisgwyli'r i ffigyrau'r setliad terfynol ddod i law tan ddiwedd Chwefror 2026. Bydd y Pwyllgor Sgriwtini yn adolygu'r gyllideb arfaethedig terfynol ar 18 Chwefror 2026, a bydd yn cael ei argymell i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 24 Chwefror 2026. Bydd cyllideb derfynol 2026/27 yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2026. Ni ddisgwylir unrhyw newid sylweddol rhwng y setliad dros dro a'r un terfynol ond, os bydd unrhyw newid sylweddol yn cael ei wneud, bydd y gyllideb arfaethedig a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith yn cael ei newid cyn ei chyflwyno i'r Cyngor llawn.

**1.3.** Mae cyllideb 2026/27 yn cael ei gosod mewn cyfnod heriol iawn o safbwynt economi'r DU, o ran cyllido gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r heriau y mae holl awdurdodau lleol y DU yn eu hwynebu, gyda mwy o alw am wasanaethau, yr effaith ar lefel uchel chwyddiant ers dechrau 2022 a gostyngiad mewn termau real yn y cyllid gan lywodraeth ganolog. Cyhoeddodd Canghellor y DU y gyllideb ar 21 Tachwedd 2025 ac roedd y gyllideb honno'n codi trethi er mwyn cyllido gwariant uwch ar les a chreu mwy o hyblygrwydd cyllidol. Nid oedd y gyllideb yn rhyddhau unrhyw symiau sylweddol o arian ar gyfer LlC.

**1.4.** Mae'r sefyllfa bresennol yn y Senedd, a'r ffaith nad oes gan y blaid Lafur fwyafrif mwyach, yn cymhlethu'r sefyllfa ar gyfer 2026/27. Roedd y setliad dros dro yn seiliedig ar gynnydd cyffredinol o 2% yn y gyllideb gyffredinol, ac roedd swm o £380m yn cael ei gadw'n ôl er mwyn i'r Llywodraeth newydd ei ddosbarthu yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2026. Fodd bynnag, daethpwyd i gytundeb rhwng LlC a Phlaid Cymru sy'n golygu fod y cyllid hwn yn cael ei ddosbarthu fel rhan o'r gyllideb derfynol ar gyfer 2026/27, gydag £112m o gyllid ychwanegol yn cael ei ddyrannu ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru. Cyfran Ynys Môn o'r cyllid ychwanegol fydd £2.58m.

**1.5.** Er bod cynghorau yng Nghymru'n wynebu sefyllfa well na chynghorau yn Lloegr, mae sefyllfa ariannol pob cyngor yn ansicr.

**1.6.** Cynhaliodd CLlLC arolwg o bob un o'r 22 cyngor, a daeth i'r casgliad bod cynghorau Cymru yn wynebu pwysau cyllidebol o £560m yn 2026/27, £486m yn 2027/28 a £512m yn 2028/29. Er mwyn cwrdd â'r pwysau ariannol hwn yn 2026/27, heb gyllid ychwanegol gan LlC, byddai angen cynnydd ar gyfartaledd o 28% yn y Dreth Gyngor.

## 2. Y PRIF RAGDYBIAETHAU SY'N CODI O'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

**2.1.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) (a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 23 Medi 2025 – Eitem 12) yn cynnwys nifer o ragdybiaethau (sydd wedi'u nodi yn Atodiad 2 yn yr adroddiad hwnnw). Ers paratoi'r CATC, mae'r sefyllfa o ran nifer o ragdybiaethau wedi'i hegluro, gan roi mwy o sicrwydd i'r rhagdybiaethau. Mae'r rhagdybiaethau hyn wedi'u hystyried a'u diweddaru wrth gyfrifo'r gyllideb ddisymud ar gyfer 2026/27. Mae'r gyllideb ddisymud yn gyllideb sy'n darparu adnoddau i redeg gwasanaethau ar yr un lefel â 2025/26, ond wedi'i diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau hysbys sydd y tu hwnt i reolaeth y gwasanaethau (newidiadau wedi'u hymrwymo) ac i adlewyrchu amcangyfrif o gostau yn 2026/27.

**2.2.** Mae'r rhagdybiaethau hyn wedi'u cynnwys yn y gyllideb ddisymud, ynghyd â newidiadau mwy manwl (newidiadau wedi'u hymrwymo) er mwyn darparu ar gyfer unrhyw gynnydd mewn costau sy'n hysbys, e.e. ymrwymiadau cytundebol. Mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn caniatáu ar gyfer cyllid ychwanegol, newidiadau mewn cyllid grant sy'n hysbys a mân gywiriadau i'r gyllideb y bernir eu bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau fod cyllideb y Cyngor yn adlewyrchu'r costau sy'n ei wynebu yn 2026/27 yn gywir.

**2.3.** Wrth i'r flwyddyn ariannol fynd rhagddi, mae'r pwysau a wynebir gan y gwasanaethau statudol sy'n cael eu harwain gan y galw (Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant, Digartrefedd, Addysg All-sirol a Chludiant Ysgol) wedi dod yn fwy eglur ac maent wedi'u cynnwys yn y broses gosod cyllideb (gweler paragraff 4.12).

## 3. Y SETLIAD DROS DRO

**3.1.** Roedd y setliad dros dro ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar 24 Tachwedd 2025, yn dangos cynnydd o £303.7m yn lefel gyffredinol y cyllid ar gyfer Cymru, ac mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 4.9% mewn termau arian parod. Fodd bynnag, gwnaethpwyd cyhoeddiad pellach ar 9 Rhagfyr 2025 oedd yn dyrannu swm ychwanegol o £112.8m ar gyfer y setliad llywodraeth leol. Mae Tabl 1 isod yn dangos y manylion:-

**Tabl 1**
**Setliad Dros Dro 2025/26**

| | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|
| | £'m | £'m |
| Cyllid Allanol Cyfun (CAC) 2025/26 | 135.881 | 6,139.078 |
| | | |
| Addasiad ar gyfer newid yn Sail y Dreth | (0.134) | 0.000 |
| | | |
| Grantiau Blynyddoedd Blaenorol a Drosglwyddir i Mewn / (Allan) paragraff 3.2 isod | 3.055 | 134.263 |
| | | |
| **CAC 2025/26 wedi'i Addasu** | **138.802** | **6,273.341** |
| **CAC Dros Dro 2026/27 - Tachwedd 2025** | **141.994** | **6,442.817** |
| Cyllid Ychwanegol Cyhoeddwyd Rhagfyr 2025 | 2.585 | 112.824 |
| **CAC Dros Dro 2026/27 wedi'i Addasu** | **144.579** | **6,555.641** |
| **Cynnydd o gymharu â CAC 2025/26** | **8.698** | **416.563** |
| **% Cynnydd o gymharu â CAC 2025/26** | **6.40%** | **6.79%** |
| **Cynnydd o gymharu â CAC 2025/26 wedi'i Addasu** | **5.777** | **282.300** |
| **% Cynnydd o gymharu â CAC 2025/26 wedi'i Addasu** | **4.16%** | **4.50%** |

**3.2.** Yn ystod 2025/26, darparodd LIC cyllid ychwanegol er mwyn cwrdd â chostau ychwanegol yn sgil codi cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr (£97.223m ar draws Cymru, £2.223m ar gyfer Ynys Môn) a chynorthwyo cynghorau gyda chostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r dyfarniadau cyflog ar gyfer athrawon a staff heblaw athrawon (£37.040m ar draws Cymru, a £0.831m ar gyfer Ynys Môn).

**3.3.** Mae nifer o setiau data amrywiol yn cael eu haddasu yn y fformiwla dyrannu, gan gynnwys poblogaeth, nifer y bobl sy'n derbyn budd-daliadau, plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, disgyblion ysgol ac ati, ac mae effaith y rhain yn wahanol ar y dyraniad i bob awdurdod. Mae rhai awdurdodau yn gwneud gryn dipyn yn well o'r addasiadau hyn, tra eu bod yn cael effaith negyddol ar eraill ac, o ganlyniad, mae'n golygu nad yw lefel y cynnydd yr un fath i bob awdurdod. Yn y setliad dros dro ar gyfer 2026/27, mae'r cynnydd yn amrywio o 6.1% (Casnewydd) i lawr i 4.1% (Gwynedd, Conwy, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin). Mae cynnydd Ynys Môn 0.3% yn is na chyfartaledd Cymru, a dyma'r 13eg cynnydd uchaf (ar y cyd ag awdurdodau eraill) o blith y 22 awdurdod.

**3.4.** Yn ogystal â'r cyllid heb ei neilltuo y mae'r Cyngor yn ei dderbyn ar ffurf y CAC, mae holl gynghorau Cymru yn derbyn cyllid refeniw ychwanegol ar ffurf grantiau penodol, sy'n cyllido gwasanaethau penodol yn unol ag amodau'r grant a bennwyd gan LIC. Bydd manylion y dyraniadau unigol i bob cyngor yn cael eu cyhoeddi maes o law, ond mae lefel gyffredinol y cyllid grant ar gyfer Cymru yn cael ei nodi yn y setliad dros dro. Mae Tabl 2, isod, yn nodi'r prif grantiau y bydd y Cyngor yn eu derbyn:-

**Tabl 2**
**Prif Grantiau Refeniw - Dyraniadau Cymru Gyfan 2025/26 a 2026/27**

| Grant | Dyraniad 2025/26 £'000 | Dyraniad 2026/27 £'000 | % Newid |
|---|---|---|---|
| Grant Addysg Awdurdodau Lleol | 407,227 | 418,322 | + 2.72% |
| Prydau am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd | 93,058 | 92,607 | - 0.48% |
| Grant Cymorth Ieuenctid | 11,483 | 11,557 | + 0.64% |
| Grant Cymorth Tai | 204,341 | 208,427 | + 2.00% |
| Grant Rhwydweithiau Bysiau | 42,000 | 42,000 | 0.00% |
| Cefnogaeth i Wasanaethau Bysiau | 25,500 | 25,500 | 0.00% |
| Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy | 16,400 | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |
| Grant Plant a Chymunedau | 222,278 | 222,278 | 0.00% |
| Grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol | 45,000 | 45,000 | 0.00% |
| Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau | 41,063 | 41,063 | 0.00% |
| Grant Trawsnewid Llwybrau Gofal | 30,000 | 30,000 | 0.00% |
| Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | 3,654 | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |

## 4. Y PRIF NEWIDIADAU YN Y GYLLIDEB AR GYFER 2026/27

**4.1.** Manylir isod ar y prif wahaniaethau rhwng cyllideb derfynol 2025/26 a chyllideb gychwynnol 2026/27.

### 4.2. Chwyddiant yng Nghyflogau Staff nad ydynt yn Athrawon

**4.2.1.** Bydd costau cyflogau'n newid yn flynyddol i adlewyrchu'r newidiadau staffio yn ystod y flwyddyn (staff newydd yn cael eu penodi i bwynt gwahanol ar y raddfa gyflog), staff yn symud i fyny ar y raddfa gyflog a'r dyfarniad cyflog. Ni chytunwyd ar ddyfarniad cyflog 2025/26, a oedd yn weithredol o fis Ebrill 2025, tan fis Gorffennaf 2025. Cytunwyd ar gynnydd terfynol o 3.2% ar gyfer y dyfarniad cyflog. Yn wreiddiol, roedd cynnydd o 4.1% wedi'i gynnwys yn y cyllidebau cyflogau ar gyfer staff nad ydynt yn athrawon yn 2025/26, a bydd yr orddarpariaeth yn cael ei gywiro yn y gyllideb ar gyfer 2026/27.

**4.2.2.** Wrth bennu lefel dyfarniad cyflog 2026/27, rhaid ystyried bod chwyddiant yn parhau i ostwng a disgwylir iddo ddechrau blwyddyn ariannol 2026/27 ar 3.1%, cyn gostwng i 2.2% erbyn mis Mawrth 2027. Fodd bynnag, mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol hefyd yn effeithio ar lefel y dyfarniad cyflog. Y Cyflog Byw Cenedlaethol, o fis Ebrill 2025, oedd £12.21 yr awr, sef £0.44 yn is na chyfradd fesul awr y pwynt isaf ar y raddfa gyflog genedlaethol. Bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol yn codi i £12.71 (+4.1%) o fis Ebrill 2026, sef dim ond £0.06 yn uwch na chyfradd fesul awr y pwynt isaf ar y raddfa gyflog yn 2025/26. Fodd bynnag, bydd y pwynt isaf ar y raddfa gyflog genedlaethol yn cael ei ddileu o fis Ebrill 2026 ac, felly'r pwynt isaf fydd £12.85 yr awr, sef £0.14 yn uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol o fis Ebrill 2026.

**4.2.3.** Byddai cynnydd o 3% yn codi'r gyfradd isaf fesul awr i £13.24, sef £0.53 yn uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol, a byddai cynnydd o 4% yn codi'r gyfradd i £13.37, sef £0.66 yn uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

**4.2.4.** Mae'r Undebau wedi cyflwyno hawliad cyflog o 10% neu £3,000 ar gyfer pob pwynt ar y raddfa gyflog , pa un bynnag yw'r uchaf,. Os cytunir ar hyn, byddai cyfradd fesul awr y pwynt isaf ar y raddfa yn codi i £14.41, sef £1.70 yn uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

**4.2.5.** Gan nad yw'r dyfarniad cyflog wedi'i gytuno, mae rhagdybiaeth o 4% wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2026/27.

### 4.3. Chwyddiant yng Nghyflogau Athrawon

**4.3.1.** Mae cyflogau athrawon yn newid bob mis Medi. Wrth osod cyllideb 2025/26, defnyddiwyd rhagdybiaeth o 2% ar gyfer y dyfarniad cyflog fyddai'n weithredol o fis Medi 2025. Er hynny, roedd y dyfarniad cyflog gwirioneddol yn 4%. Mae LIC wedi cadarnhau y bydd yn cyllido'r costau sy'n uwch na'r rhagdybiaeth oedd wedi'i gynnwys yn y setliad ar gyfer 2025/26. Mae hyn gyfystyr â £10.411m o gyllid ychwanegol ar gyfer Cymru, a £231k ar gyfer Ynys Môn. Ar gyfer 2026/27, mae swm ychwanegol o £17.85m wedi'i gynnwys yn y setliad i gwrdd â chost y dyfarniad cyflog am flwyddyn gyfan.

**4.3.2.** Ni dderbyniwyd gwybodaeth am y dyfarniad cyflog i athrawon fydd yn weithredol o fis Medi 2026. Bydd y dyfarniad cyflog hwn yn weithredol rhwng Medi 2026 ac Awst 2027, ac mae disgwyl i chwyddiant ostwng o 2.7% i 2.0% yn ystod y cyfnod hwn. Mae amcangyfrif o 3.3% wedi'i gynnwys ar gyfer y dyfarniad cyflog o fis Medi 2026, sef chwyddiant cyfartalog yn ystod y cyfnod, ynghyd ag 1%.

**4.3.3.** Bydd cywiro'r tan ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer 2025/26 yn golygu cynnydd o £0.95m yn y gyllideb, a bydd y cynnydd oherwydd chwyddiant hyd at fis Mawrth 2027 yn ychwanegu swm ychwanegol o £0.65m at gyllideb gyflogau'r Cyngor, gyda staff yn symud i fyny'r raddfa gyflog a newidiadau staffio yn ychwanegu £0.16m arall.

### 4.4. Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

**4.4.1.** Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei brisio bob tair blynedd, ac mae hyn yn ail-bennu cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr. Mae'r prisiad yn ystyried gwerth presennol y gronfa, ynghyd â gwerth asedau a rhwymedigaethau yn y dyfodol.

**4.4.2.** Mae sefyllfa'r gronfa yn iach ar hyn o bryd, ac mae'r asedau werth £1.286bn yn fwy na'r rhwymedigaethau, o gymharu â £468m yn y prisiad diwethaf. Mae hyn gyfystyr â lefel cyllido o 166%, o gymharu â 120% yn y prisiad diwethaf. Mae cyfran Ynys Môn o'r gronfa yn dangos gwarged o £154m a lefel cyllido o 152%.

**4.4.3.** Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn cael ei rannu'n ddwy gyfradd:-

- Y Brif Gyfradd - sydd yn cyllido costau buddion yn y dyfodol ar gyfer aelodau gweithredol. Codir y gost hon ar gyllidebau'r gwasanaeth.
- Cyfradd Eilaidd - sydd yn addasu'r gost o gyllido costau'n gysylltiedig â chyllido buddion ar gyfer aelodau gweithredol ac anweithredol a oedd wedi cronni hyd at y dyddiad prisio. Codir y gost hon ar y gyllideb Corfforaethol a Democrataidd.

**4.4.4.** Ar gyfer Ynys Môn, mae'r brif gyfradd yn disgyn o 21.1% i 16.0%, ac mae'r gyfradd eilaidd yn codi o -1.0% i 1.1%. Gyda'i gilydd, mae'r gyfradd gyfrannu'n gostwng o 20.1% i 17.1%. Golygai hyn fod costau cyfraniadau'r cyflogwr yn gostwng tua £2.3m y flwyddyn (cyn darparu ar gyfer y dyfarniad cyflog) ar gyfer y brif gyfradd, ond mae'n cynyddu costau gan £1.1m mewn perthynas â'r gyfradd eilradd.

### 4.5. Chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â Chyflogau

**4.5.1.** Disgynnodd chwyddiant i 1.7% ym mis Medi 2024, sef ei lefel isaf ers canol 2021, ond dechreuodd godi wedyn yn ystod rhan olaf 2024 a'r mwyafrif o 2025, pan oedd y lefel yn 3.8% ar ei uchaf. Yn dilyn hynny, dechreuodd chwyddiant ostwng, a rhagwelir y bydd yn parhau i ostwng yn ystod 2026, ond ni fydd yn cyrraedd lefel targed Banc Lloegr o 2% tan ganol 2027.

**4.5.2.** Pan osodwyd cyllideb 2025/26, roedd disgwyl i chwyddiant ostwng yn gyflym yn ystod 2025 ac, oherwydd hynny, roedd y gyllideb yn cynnwys 2% ar gyfer chwyddiant. Fodd bynnag, ni wnaeth chwyddiant ostwng ac amcangyfrifir bod chwyddiant yn 3.5% ar gyfartaledd yn ystod 2025/26. O ganlyniad, mae angen addasiad ar gyfer y dan-ddarpariaeth ar gyfer chwyddiant wrth osod y gyllideb ar gyfer 2026/27

**4.5.3.** Mae costau'r Cyngor nad ydynt yn ymwneud â chyflogau'n cynnwys nifer o wahanol gontractau a dulliau caffael, ac mae chwyddiant yn effeithio'n wahanol ar bob un ohonynt:-

- Contractau tymor hir lle mae'r cyfrifiad chwyddiant wedi'i ymgorffori yn y contract gan ddefnyddio mynegeion chwyddiant a benderfynwyd ymlaen llaw, ac mae'r ffigwr ar gyfer pwynt penodol mewn amser yn cael ei ddefnyddio. Mae'r math hwn o gontract yn tueddu i ffafrio'r Cyngor pan fydd chwyddiant yn codi, ond maent yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd gyda mathau arbennig o nwyddau sy'n cael effaith ar gostau'r contractwr, e.e. bydd cysylltiad cryf iawn rhwng y ffactor chwyddiant a chost tanwydd ar gyfer y contract casglu gwastraff, gan fod hwn yn gost sylweddol i'r contractwr.
- Contractau lle mae'r cynnydd blynyddol yn cael ei gytuno trwy drafodaeth. Maent yn cynnwys, yn bennaf, ffioedd cartrefi gofal preswyl a nyrsio a chontractau gofal eraill. Nid y mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) yw'r prif ffactor o ran y cynnydd yn y prisiau hyn gan mai staffio yw'r brif gost. Mae lefel y chwyddiant yn gysylltiedig â chyflogau, a'r cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn arbennig.
- Cytundebau fframwaith tymor hir lle mae'r pris blynyddol yn cael ei osod gan y fframwaith ac nid fel rhan o gytundeb unigol rhwng y Cyngor a'r cyflenwr / contractwr. Maent yn cynnwys ein prif gontractau ynni. Unwaith eto, bydd cynnydd yn y pris yn gysylltiedig â ffactorau penodol sy'n ymwneud â'r nwyddau a gyflenwir, yn hytrach na defnyddio'r CPI fel sail i'r cynnydd.
- Nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu prynu pryd a phan fydd eu hangen, naill ai trwy broses dendro unwaith ac am byth, derbyn dyfynbrisiau neu godi archeb. Mae'r costau hyn yn ddarostyngedig i bwysau chwyddiant gan fod y pris y mae'r Cyngor yn ei dalu'n ddibynnol ar y pris pan gyflenwir yr archeb neu pan dderbynnir y tendr.

**4.5.4.** Wrth lunio'r gyllideb ddisymud, mae lefel y chwyddiant a benderfynwyd gan gontract penodol wedi'i ganiatáu. Mae'r ffaith fod y cynnydd ar gyfer chwyddiant ym mhrif gontractau'r Cyngor yn seiliedig ar lefelau chwyddiant yn yr Hydref yn ystod y flwyddyn flaenorol (defnyddir chwyddiant yn Hydref 2025 i gynyddu prisiau contractau o fis Ebrill 2026), wedi gweithio yn erbyn y Cyngor i raddau gan fod y gyfradd yn uwch na'r rhagolwg ar gyfer 2026.

**4.5.5. Costau Ynni**

- Fe wnaeth y Cyngor ail-dendro ei gontractau nwy a thrydan yn ystod 2024 ac roedd y contractau newydd yn weithredol o fis Hydref 2024. Mae'r contractau'n rhedeg am gyfnod o 3 blynedd, ac mae cyfraddau'n sefydlog trwy gydol cyfnod y contract. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor yn y tymor canolig y bydd yn cael ei warchod rhag unrhyw gynnydd mewn prisiau.
- Bydd costau ynni'n parhau i amrywio yn ôl y defnydd. Mae'r Cyngor yn buddsoddi er mwyn gosod pympiau gwres o'r aer mewn nifer o'i adeiladau. Grantiau gan LIC sy'n cyllido'r gwaith hwn yn bennaf. Dylai hyn olygu fod y Cyngor yn defnyddio llai o ynni a bod ei gostau'n gostwng, er bod yr effaith yn anodd ei fesur ar hyn o bryd ac, felly, nid yw'r newid hwn wedi cael ei ystyried yn y gyllideb.

**4.5.6 Chwyddiant Contractau Gofal Gwasanaethau Cymdeithasol**

- Mae'r Cyngor yn gosod ffi flynyddol ar gyfer cartrefi preswyl a nyrsio bob blwyddyn, ac mae'r ffigwr yn seiliedig ar y pecyn cymorth a ddefnyddiwyd yn hanesyddol gan gynghorau Gogledd Cymru ers nifer o flynyddoedd. Mae darparwyr cartrefi gofal wedi mynegi sawl tro ar lefel leol a chenedlaethol nad yw'r ffioedd presennol yn ddigonol ac, oni bai eu bod yn cynyddu'n sylweddol, ni fydd eu busnesau'n gynaliadwy yn y dyfodol. Nid yw nifer o ddarparwyr yn fodlon derbyn lleoliadau am y ffi a osodwyd gan y Cyngor ac mae'r tâl gwirioneddol yn uwch.
- Mae methodoleg Gogledd Cymru wedi chwalu'n araf, gyda chynghorau ar draws Gogledd Cymru yn symud oddi wrth y ffigwr a gynhyrchwyd gan y pecyn cymorth i wahanol raddau. Wrth geisio mynd i'r afael â phryderon y darparwyr, mae'r Cyngor wedi cynyddu ffioedd ar gyfartaledd o 67% ers Ebrill 2017, o gymharu â chynnydd o 54% yng nghyllideb y Cyngor a 46.7% o gynnydd yn y CAC gan LIC.

- Mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn ffactor sylweddol yng nghost y sector gofal preswyl a nyrsio a'r sector gofal cartref, gan fod darparwyr yn defnyddio'r ffigwr hwn fel man cychwyn i bennu cyflogau eu gweithwyr. O fis Ebrill 2026, bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol yn codi o £12.21 i £12.71, sef cynnydd o 4.1%. Mae hon yn gost na all y darparwyr eu hosgoi ac mae'n debygol o gael ei throsglwyddo i'r Cyngor trwy ffioedd uwch.
- Fel man cychwyn ar gyfer paratoi'r gyllideb ddisymud, mae cynnydd o 5% wedi'i gynnwys yn y gyllideb i gwrdd â chynnydd oherwydd chwyddiant ar gyfer yr holl ofal preswyl ym mhob sector, a chynnydd o 4.5% ar gyfer gofal cartref a thaliadau uniongyrchol. Amcangyfrifir y bydd hyn yn arwain at gynnydd o £1.7m yn y costau yn 2026/27.
- Mae costau lleoliadau all-sirol ar gyfer plant yn cynyddu'n sylweddol wrth i nifer y darparwyr ostwng, er bod y galw ledled Cymru'n parhau i fod yn uchel. Mae dibyniaeth y Cyngor ar leoliadau all-sirol yn lleihau wrth i'r ddarpariaeth leol gynyddu (Cartrefi Clyd, Gofalwyr Maeth). Fodd bynnag, mae'r angen am leoliadau arbenigol yn parhau, ac mae costau'r lleoliadau hyn yn tueddu i fod yn sylweddol. Caniatawyd swm ychwanegol o £540k i gwrdd â'r cynnydd mewn costau.

#### 4.5.7 Ffioedd a Thaliadau

- Mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys nifer o ffioedd a thaliadau, mae rhai yn cael eu gosod gan LlC, deddfwriaeth benodol neu gyrff allanol eraill, a rhai yn cael eu gosod gan y Cyngor. Cyfanswm y gyllideb ffioedd a thaliadau ar gyfer 2025/26 oedd £14.5m, ac roedd £6.7m o fewn rheolaeth y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi pennu cynnydd o 3% yn y ffioedd a thaliadau a reolir gan y Cyngor, ond mater i bob gwasanaeth yw pennu'r ffioedd a'r taliadau unigol. Amcangyfrifir y bydd y cynnydd o 3% yn cynhyrchu £200k o incwm ychwanegol.
- Mae ffioedd a thaliadau statudol a Grantiau eraill y Llywodraeth yn cyfrif am tua £34m o gyllideb refeniw net 2025/26. Byddai cynnydd o 2% yn cynhyrchu £680k o incwm ychwanegol, er bod y setliad dros dro yn dangos y bydd rhai grantiau'n cael eu rhewi, tra bydd eraill yn gostwng.

### 4.6 Niferoedd Disgyblion

Bob blwyddyn, mae effaith y newid mewn niferoedd disgyblion yn y sectorau cynradd ac uwchradd yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses gosod cyllideb, ac mae niferoedd disgyblion Medi 2025 yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer cyllideb 2026/27. Ar gyfer 2026/27, mae nifer y disgyblion cynradd wedi parhau i ostwng, gyda gostyngiad pellach o 156 o ddisgyblion, tra bod 9 yn fwy o ddisgyblion uwchradd (blynyddoedd 7 i 11). Effaith net y newidiadau hyn yw gostyngiad o £572k yn y gyllideb ysgolion cynradd a chynnydd o £67k yn y gyllideb ysgolion uwchradd.

Yn ystod 2025, mae capasiti Canolfan Addysg y Bont wedi cynyddu, ac mae 11 o ddisgyblion ychwanegol yn cael eu haddysgu yn yr ysgol. Mae'r fformiwla'n cael ei haddasu i adlewyrchu unrhyw newid o ran difrifoldeb anghenion ychwanegol y disgyblion, gan fod hyn yn effeithio ar y cymarebau staffio. Ar gyfer 2026/27, ychwanegwyd £178k i'r cyllid er mwyn adlewyrchu'r newid hwn.

### 4.7 Integreiddio mewn Ysgolion Cynradd

Mae ysgolion cynradd yn derbyn cyllid ychwanegol trwy'r gyllideb ddatganoledig ysgolion er mwyn cwrdd â chostau addysgu plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r fformiwla ar gyfer dosbarthu'r cyllid yn ystyried yr asesiad o anghenion pob plentyn ac mae'n dyrannu cyllid ar sail y gofynion er mwyn diwallu'r anghenion hyn. Dengys y fformiwla ar gyfer 2026/27 fod gan fwy o ddisgyblion a aseswyd anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac mae'r anghenion yn fwy difrifol hefyd. Oherwydd hyn, mae angen cynnwys cyfanswm o £423k o gyllid ychwanegol yn y gyllideb er mwyn cwrdd â'r newidiadau demograffig hyn.

**4.8 Newidiadau Addysgol Eraill**

Mae newidiadau'n digwydd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd bob blwyddyn sy'n effeithio ar y gyllideb addysg, a hynny ar ben chwyddiant. Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud yn bennaf â chludiant ysgol a lleoliadau addysgol all-sirol. Y newid net yn gysylltiedig â'r cyllidebau hyn yw gostyngiad o £168k.

Gall nifer y diwrnodau ysgol mewn blwyddyn ariannol newid hefyd, gan ddibynnu ar ddyddiadau'r Pasg. Bydd y Pasg ar ddiwedd mis Mawrth yn 2027 ac felly mae llai o ddiwrnodau ysgol yn 2026/27. Mae hyn yn effeithio ar gostau cludiant ysgol a chostau prydau ysgol ac mae'r gyllideb yn cael ei haddasu er mwyn adlewyrchu'r ffaith fod llai o ddiwrnodau ysgol. Yn 2026/27, mae'r addasiad hwn yn golygu gostyngiad o £107k yn y gyllideb. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd rhaid cywiro hyn yn y gyllideb ar gyfer 2027/28.

**4.9 Demograffeg yn y Gwasanaethau Oedolion**

Mae poblogaeth Ynys Môn yn heneiddio a phobl sy'n symud i Ynys Môn i ymddeol, ac nad oes ganddynt fawr o gefnogaeth deuluol oherwydd hynny, sy'n tueddu i fod yn gyfrifol am y cynnydd. O ganlyniad, mae nifer y bobl hŷn sydd angen gofal gan y Cyngor yn codi. Rhagwelir twf o 28% yn y boblogaeth dros 85 oed erbyn 2032, ffigwr sydd gyfystyr â chyfradd twf blynyddol o 3.6% y flwyddyn. Ar sail y niferoedd presennol, byddai hyn yn golygu fod 26 o gleientiaid ychwanegol angen gofal yn 2026/27. Yn seiliedig ar sut mae cleientiaid presennol yn cael eu dyrannu rhwng y gwahanol sectorau gofal, bydd angen ychwanegu £0.87m at y gyllideb.

**4.10 Demograffeg yn y Gwasanaethau Plant**

Mae nifer y plant yng ngofal y Cyngor yn parhau i godi, ac mae rhagolygon yn awgrymu cynnydd pellach o 5% yn nifer y plant mewn gofal. Mae hyn gyfystyr â chynnydd o thua £430k mewn costau, yn ychwanegol at chwyddiant, ac mae'r swm wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddisymud.

**4.11 Ardoll y Gwasanaeth Tân**

Mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys ardollau a godir ar y Cyngor gan gyrff eraill sydd â phŵer statudol i bennu ardoll. Y brif ardoll a godir yw ardoll Awdurdod Tân Gogledd Cymru, sydd yn gosod ardoll gyffredinol ar gyfer y chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru, cyn iddi gael ei dyrannu rhwng y chwe awdurdod ar sail y boblogaeth. Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru'n bwriadu cyflwyno cynnydd o 4.47% yn yr ardoll ar gyfer y chwe awdurdod, a bydd hyn yn golygu cynnydd o £2.32m yn y gyllideb. Oherwydd newid yn y boblogaeth, cyfran Ynys Môn o'r cynnydd yw 3.41%, sef cynnydd o £177k yn yr ardoll, ac mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 0.30% yn y Dreth Gyngor. Yn sgil hyn, bydd yr ardoll sy'n cael ei gyllido gan y Cyngor yn codi i £5.362m.

**4.12 Ardoll y Cyd-bwyllgor Corfforedig**

Mae'n ofynnol bellach i'r 6 Awdurdod yng Ngogledd Cymru sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig i fod yn gyfrifol am bolisi strategol ym maes cludiant a chynllunio, a datblygu economaidd ar lefel ranbarthol. £80k oedd cyfran y Cyngor o'r ardoll a osodwyd ar gyfer 2025/26. Er nad yw'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi gwneud penderfyniad terfynol, ni ragwelir cynnydd sylweddol yn yr ardoll yn 2026/27, ac mae cynnydd o £1.5k ar gyfer chwyddiant wedi'i gynnwys yn y gyllideb.

**4.13 Costau Cyllido Cyfalaf**

Mae Costau Cyllido Cyfalaf yn cynnwys y Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI), taliadau llog blynyddol ar fenthyciadau sy'n ddyledus, a llog sy'n cael ei dderbyn ar fuddsoddiadau. Newidiodd y Cyngor y polisi DRI i'r dull blwydd-dal yn 2022, ac arweiniodd hyn at ostyngiad sylweddol yn y gyllideb ar gyfer 2023/24. Fodd bynnag, mae'r dull blwydd-dal yn golygu bod y tâl DRI yn cynyddu bob blwyddyn, a hynny heb ystyried unrhyw fenthyca newydd a allai fod wedi'i wneud.

Mae lefel balansau arian parod y Cyngor wedi bod yn uchel ers 2020, a'r strategaeth fu defnyddio'r balansau arian parod hyn, yn hytrach na benthyca'n allanol. Fodd bynnag, wrth i gronfeydd wrth gefn y Cyngor a balansau ysgolion fynd yn llai, mae balansau arian parod y Cyngor yn agosau at yr isafswm a osodwyd, a bydd yn rhaid benthyca o'r newydd yn 2025/26 (hyd at £10m yn ôl yr amcangyfrif), a bydd angen benthyca rhwng £10m a £15m eto yn 2026/27. Mae'r costau DRI a llog ychwanegol yn cael eu rhannu rhwng y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai. Yn ôl yr amcangyfrif, bydd y benthyca ychwanegol yn golygu costau ychwanegol o £238k yn 2026/27.

Pan osodwyd cyllideb 2025/26, penderfynwyd defnyddio'r orddarpariaeth a gynhyrchwyd yn sgil newid y polisi DRI yn 2018, a darparu ar gyfer yr isafswm yn unig yn 2025/26. Roedd hyn yn barhad o'r agwedd ddarbodus o ran cyllido dyledion allanol. Yn 2026/27, bydd y ddarpariaeth lawn yn cael ei wneud ar gyfer yr DRI, gan ychwanegu £1.5m at gyllideb y Cyngor.

Bu cyfraddau llog yn uchel ers 2022, ac roeddent dros 5% ar eu huchaf. Mae cyfraddau llog uchel, ynghyd â balansau arian parod uchel, wedi creu incwm ychwanegol sylweddol i'r Cyngor, trwy'r llog sy'n cael ei dalu ar fuddsoddiadau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi dechrau defnyddio ei arian wrth gefn ac mae o wedi cyllido gwariant cyfalaf o'i arian wrth gefn ei hun, yn hytrach na benthyca'n allanol. Felly, mae lefel yr arian parod sydd ar gael i'w fuddsoddi wedi gostwng yn sylweddol ac mae wedi gostwng o dan £10m ym mis Ionawr 2026.

Rhagwelir y bydd cyfraddau llog yn gostwng yn ystod 2026/27, o'u lefel bresennol o 4.0% i tua 3.5% erbyn Mawrth 2027. Fodd bynnag, dylai'r benthyciadau ychwanegol a gynlluniwyd hybu balansau arian parod a bydd modd i'r gyllideb ar gyfer llog sy'n cael ei dalu i'r Cyngor aros ar tua £450k.

Bydd cynnydd o £0.970m yn y gyllideb cyllido cyfalaf yn sgil effaith y DRI a thaliadau llog.

**4.14 Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Ers 2011, mae cost darparu cymorth ariannol i'r rhai hynny sydd angen cymorth i dalu'r Dreth Gyngor wedi ffurfio rhan o gyllideb y Cyngor, ond mae'r swm sy'n cael ei gynnwys yn Asesiad Gwariant Safonol (AGS) y Cyngor wedi aros fwy neu lai'r un fath. Gan fod y Dreth Gyngor wedi cynyddu a nifer y bobl sy'n hawlio wedi newid, mae trethdalwyr y Cyngor wedi gorfod ysgwyddo costau ychwanegol y cynllun. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y cynnydd yn y gyllideb hon a'r cynnydd terfynol yn y Dreth Gyngor.

Yn 2025/26, roedd y gyllideb gyffredinol i gyllido Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn £7.35m, ond rhagwelir tanwariant o thua 1% yn y gyllideb ar hyn o bryd, ac nid yw'n ymddangos, felly, bod angen addasu'r gyllideb gan fod nifer yr achosion yn newid. Ni chytunwyd ar lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor eto ond, gan ddefnyddio rhagdybiaeth ar gyfer y cynnydd yn y Dreth Gyngor, effaith net hyn ar y gyllideb yw cynnydd o £367k.

**4.15 Defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor**

Mae premiwm y Dreth Gyngor ar eiddo gwag ac ail gartrefi yn creu incwm ychwanegol i'r Cyngor, ac mae rhan o'r incwm ychwanegol yma'n cyllido cynlluniau i helpu pobl ifanc lleol i brynu eu tŷ eu hunain ar yr Ynys. Yn 2025/26, dyrannwyd £1.0m o'r cyllid ychwanegol i'r perwyl hwn. Dylai'r galw presennol am gymorth trwy'r cynlluniau hyn ddefnyddio'r holl gyllid, ac mae disgwyl i'r galw barhau yn 2026/27. Mae'r gyllideb ddisymud, felly, yn cynnwys y gyllideb o £1m fydd yn cael ei chynyddu yn unol â'r cynnydd yn y Dreth Gyngor (beth bynnag fo'r cynnydd terfynol).

**4.16 Cyllidebau Wrth Gefn**

Fel rhan o'r broses gosod cyllideb, mae nifer o gyllidebau wrth gefn yn cael eu hymgorffori yn y gyllideb i gwrdd â chostau tymor penodol, risgiau posib a all fod angen eu cyllido yn ystod y flwyddyn, neu fel cyllideb wrth gefn gyffredinol a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn wrth i'r gyllideb wynebu pwysau ychwanegol, neu yn sgil digwyddiadau annisgwyl. Mae'n bwysig iawn cael cyllidebau wrth gefn ac mae'n lleihau'r risg fod gwariant annisgwyl yn cael effaith andwyol ar gynaliadwyedd ariannol y Cyngor. Mae oed a chyflwr presennol stoc asedau'r Cyngor yn golygu fod mwy o risg y gallai'r Cyngor wynebu mwy o wariant annisgwyl er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau mewn adeiladau lle gallai problemau mawr godi.

Cyfanswm y gyllideb yn 2025/26 oedd £2.586m ac amcangyfrifir y bydd angen cyllideb o £2.441m ar gyfer 2026/27. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys cynnydd yn unol â chwyddiant ar gyfer rhai cyllidebau wrth gefn.

**4.17 Newidiadau eraill y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddynt**

Wrth lunio'r cyllidebau disymud, mae nifer o fân gywiriadau'n cael eu gwneud er mwyn adlewyrchu newidiadau angenrheidiol neu benderfyniadau blaenorol i gynyddu cyllidebau unigol. Effaith net yr addasiadau hyn yw gostyngiad o £450k yn y gyllideb ddisymud. Mae'r prif newidiadau'n ymwneud â'r gostyngiad yn y grant mae'r Oriel yn ei dderbyn gan Y Gymdeithas (£57k), gostyngiad i adlewyrchu'r ffaith fod llai o ddiwrnodau ysgol yn ystod y flwyddyn ariannol (£81k), newidiadau mewn trethi busnes yn sgil ailbrisio (£79k), incwm rhent ychwanegol ar gyfer unedau busnes newydd (£119k) a chynnydd mewn costau meddalwedd (£102k). Effaith net yr holl newidiadau yr ymrwymwyd iddynt yw cynnydd o £24k yn y gyllideb.

## 5. Y SEFYLLFA GYLLIDO

**5.1** Ar ôl ystyried y setliad dros dro gan LIC (fel y nodir ym mharagraff 3) a'r prif newidiadau yn y gyllideb (fel y nodir ym mharagraff 4), mae'r sefyllfa gyllido cyn cynyddu'r Dreth Gyngor yn cael ei nodi yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**
**Bwlch Cyllido'r Gyllideb 2026/27**

| | Cyfeirnod: | £'m | £'m |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol 2025/26** | | | **195.443** |
| **Y Prif Addasiadau i'r Gyllideb (fel y cânt eu nodi ym Mharagraff 4)** | | | |
| Chwyddiant Cyflogau a Chostau Staffio Eraill | 4.2 - 4.4 | 1.210 | |
| Chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â Chyflogau | 4.5 | 5.751 | |
| Niferoedd Disgyblion | 4.6 | (0.353) | |
| Integreiddio mewn Ysgolion Cynradd | 4.7 | 0.423 | |
| Addasiadau Eraill i'r Gyllideb Addysg | 4.8 | (0.275) | |
| Demograffeg yn y Gwasanaethau Oedolion | 4.9 | 0.868 | |
| Demograffeg yn y Gwasanaethau Plant | 4.10 | 0.429 | |
| Ardollau | 4.11 - 4.12 | 0.176 | |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 4.13 | 0.759 | |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 4.14 | 0.367 | |
| Defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor | 4.15 | 0.050 | |
| Grant YG a Drosglwyddwyd i'r Setliad | 3.2 | 2.000 | |
| Cyllidebau Wrth Gefn a newidiadau eraill yr ymrwymwyd iddynt | 4.16 - 4.17 | (0.075) | |
| | | | 11.330 |
| **Cyllideb Refeniw Net Ddisymud 2026/27** | | | **206.773** |
| **Cyllidir Gan** | | | |
| Grant Cynnal Refeniw | | 117.875 | |
| Cyfran o'r Gronfa Trethi Annomestig | | 26.704 | |
| **Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun** | | | 144.579 |
| Cyllideb y Dreth Gyngor 2025/26 (wedi'i haddasu ar gyfer newid yn sylfaen y dreth a chynnydd yn y premiwm ar ail gartrefi) | | | 57.810 |
| **Cyfanswm Cyllid cyn Cynyddu'r Dreth Gyngor** | | | **202.389** |
| **(Gwarged) / Diffyg Cyllido (cyn unrhyw newid yn y Dreth Gyngor)** | | | **4.384** |

**5.2** Er mwyn cyllido'r bwlch cyllido o £4.384m, byddai angen cynnydd o 7.59% yn y Dreth Gyngor. Byddai hyn yn golygu fod y gost ar gyfer eiddo Band D yn £1,835.47, sef cynnydd blynyddol o £129.42 a chynnydd o £2.48 yr wythnos. Er mwyn lleihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor, byddai'n rhaid defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor neu wneud arbedion yn y gyllideb refeniw. Mae pob £1m o gronfeydd wrth gefn a ddefnyddir, neu arbedion a weithredir, yn golygu gostyngiad o 1.73% yn y cynnydd yn y Dreth Gyngor.

## 6. RISGIAU'N GYSYLLTIEDIG Â'R GYLLIDEB

**6.1** Wrth osod y gyllideb, mae angen asesu nifer o risgiau ariannol a allai effeithio ar gywirdeb y gyllideb derfynol. Mae'r gyllideb arfaethedig yn darparu ar gyfer rhai o'r risgiau hyn, ond nid yw risgiau eraill wedi eu cynnwys a, phe bai'r risg yn cael ei wireddu, gan greu cost ariannol yn 2026/27, byddai balansau a chronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor yn cwrdd â'r gost. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'n amlwg fod nifer o'r risgiau hynny tu hwnt i reolaeth y Cyngor, e.e. y galw am wasanaethau statudol, ardollau a bennir gan gyrff eraill, gofynion gwasanaeth newydd neu wahanol a bennir gan Lywodraeth Cymru a / neu Lywodraeth y DU.

**6.2** Rhagwelir y bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol heb eu dyrannu gwerth £17.2m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ond mae hyn yn seiliedig ar ragdybiaeth fod tanwariant o £1.5m yn y gyllideb ar gyfer 2025/26.

**6.3** Fel canllaw cyffredinol, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gosod isafswm ar gyfer y balans gyffredinol o 5% o'r gyllideb refeniw net. Ar sail y gyllideb refeniw net ddisymud ar gyfer 2026/27 o thua £208m, byddai angen isafswm o £10.4m. Mae hyn yn gadael swm posib o £6.8m a fyddai ar gael i gyllido'r gyllideb refeniw yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf, ond mae'n rhaid nodi fod sefyllfa ariannol y Cyngor yn cael ei wanhau wrth ostwng lefel y balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig, a gallai arwain at broblemau ariannol yn y dyfodol pe byddai'n rhaid cyllido gwariant annisgwyl sylweddol, e.e. cyllido gorwariant yn y gyllideb refeniw yn y dyfodol.

**6.4** Bu'n rhaid gwneud nifer o ragdybiaethau wrth lunio'r gyllideb refeniw ddrafft. Mae'r rhagdybiaethau'n seiliedig ar farn broffesiynol y Tîm Cyllid a staff eraill y Cyngor, rhagolygon allanol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, neu gyrff proffesiynol eraill, a gwybodaeth hanesyddol ac ystadegol arall. Mae effaith bosib camgymeriadau yn y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth lunio'r gyllideb refeniw wedi'u nodi isod:-

- **Dyfarniad Cyflog NJC -** fel y nodwyd ym mharagraff 4.2 uchod, mae'r gyllideb wedi cynyddu er mwyn adlewyrchu amcangyfrif o'r dyfarniadau cyflog ar gyfer 2026/27, ond mae cryn ansicrwydd yn parhau ynghylch y dyfarniadau cyflog. Mae'r Undebau wedi cyflwyno hawliad cyflog o 10% neu £3,000, pa un bynnag yw'r uchaf, ar bob pwynt ar y raddfa gyflog. Byddai cytuno i'r hawliad hwn yn ychwanegu £4.2m at y gyllideb gyflogau, yn ychwanegol i'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddisymud.

- **Dyfarniad Cyflog Athrawon -** mae LIC yn cyllido elfen o'r cynnydd yn y setliad ac, os nad yw'r swm yn ddigon, mae LIC wedi darparu cyllid ychwanegol yn y gorffennol er mwyn cwrdd â'r gost. Mae hyn yn lleihau'r risg ariannol a wynebir y Cyngor yn sylweddol. Cymhlethir y mater ymhellach gan y ffaith bod y codiad cyflog i athrawon yn weithredol o fis Medi bob blwyddyn ac, o ganlyniad, nid oes arwydd o beth fydd y dyfarniad cyflog posib o fis Medi 2026.

- **Y Cyflog Byw Cenedlaethol -** cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r Cyflog Byw Cenedlaethol (a elwid gynt yn isafswm cyflog) yn cynyddu 4.1% ym mis Ebrill 2026, i £12.71 yr awr. Mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn rhoi pwysau ar gyllideb y Cyngor mewn dwy ffordd, h.y. yr hyn y mae'n ei dalu i'w staff ei hun (gweler uchod), ond hefyd yr hyn mae ei brif gontractwyr yn ei dalu i'w staff.

  Mae nifer fawr o staff a gyflogir gan brif gontractwyr a darparwyr gwasanaeth y Cyngor yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w staff, neu gyflog o gwmpas y lefel honno. Mae hyn yn arbennig o wir yn y sector gofal (gofal mewn cartrefi preswyl a nyrsio, gofal cartref ac ati). Bydd cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol yn arwain at gynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol (mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol £1.24 yr awr yn uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol ar hyn o bryd). Cyhoeddwyd y cynnydd diweddaraf yn y Cyflog Byw Cenedlaethol ym mis Hydref 2025, sef cynnydd o 6.7%.

Mae LIC yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ddarparu digon o gyllid er mwyn caniatáu i ddarparwyr dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, a bydd cynnydd yn y ffigwr hwn yn cael ei adlewyrchu yn y cynnydd mewn ffioedd y mae'n rhaid i'r Cyngor eu talu i'r contractwyr a'r darparwyr gwasanaeth. Er bod y gyllideb yn caniatáu ar gyfer cynnydd mewn costau cyllido, efallai na fydd y cynnydd yn ddigon i gwrdd â galwadau gan ddarparwyr oherwydd mae'n bosib y byddant hwythau hefyd yn wynebu pwysau o ganlyniad i chwyddiant cyffredinol, yn enwedig costau bwyd, ynni a thanwydd.

- **Chwyddiant Cyffredinol -** Mae'r risg cyllidebol yn gysylltiedig â chwyddiant cyffredinol yn sylweddol is na phan oedd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr dros 10%. Er bod risg y gallai chwyddiant godi'n uwch na'r rhagdybiaeth a ddefnyddiwyd yn y gyllideb, byddai unrhyw gynnydd posib yn fychan iawn (rhwng 0.5% a 1%) a bychan iawn fyddai'r effaith ar gostau gwirioneddol y Cyngor hefyd.
- **Y Galw am Wasanaethau -** Mae'r gyllideb ddisymud yn gwneud darpariaeth ar gyfer darparu gwasanaethau yn unol â lefel bresennol y galw mewn rhai gwasanaethau lle gall y galw amrywio (Gwasanaethau Plant, Gofal Cymdeithasol Oedolion, Digartrefedd, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor). Bydd unrhyw gynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau'n creu costau ariannol ychwanegol i'r Cyngor nad oes darpariaeth ar eu cyfer yn y cyllidebau presennol.
- **Incwm Grantiau -** Fel y nodir yn Nhabl 2 uchod, yn ogystal â'r CAC, mae'r Cyngor yn derbyn lefelau sylweddol o gyllid ychwanegol ar ffurf grantiau penodol gan LIC ac eraill. Pan fydd lefel cyllid grant penodol yn gostwng, neu nid yw'n cynyddu i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau, nid yw bob amser yn bosib ymateb yn gyflym i'r newid gan fod y gwasanaeth a gyllidir gan y grant wedi'i ymgorffori yn y gwasanaeth a gyllidir gan gyllideb graidd y Cyngor. Mae oedi, felly, rhwng gostwng y cyllid a gallu'r Cyngor i leihau'r costau cysylltiedig drwy aildrefnu'r gwasanaeth.
- **Targedau Incwm o Ffioedd a Thaliadau –** Wrth i'r argyfwng costau byw lacio, mae'n bosib y bydd gan breswylwyr fwy o arian i'w wario, a gallai hyn gynhyrchu incwm i'r Cyngor, yn bennaf drwy incwm y gwasanaethau hamdden a meysydd parcio ac, i raddau llai, ffioedd cynllunio a rheoliadau adeiladu. Gwelwyd lefelau incwm da yn 2025/26 ac, yn gyffredinol, maent yn rhagori ar dargedau'r gyllideb a, hyd yn oed pe byddai lefelau incwm yn dechrau gostwng yn 2026/27, maent yn debygol o fod ar darged, neu'n agos iawn at dargedau'r gyllideb.
- **Cyllid Grant Arall –** Yn ogystal â chyllideb graidd y Cyngor sy'n cael ei gyllido o'r CAC, y Dreth Gyngor a Chronfeydd wrth Gefn, mae'r Cyngor yn derbyn rhwng £25m a £30m o gyllid grant ychwanegol, yn unol â Thabl 2 uchod. Mae'r cyllid hwn yn darparu gwasanaethau ychwanegol, neu caiff ei ddefnyddio ar y cyd â chyllid refeniw craidd. Nid yw'n dilyn bob amser bod y grantiau hyn yn cynyddu yn unol â'r cynnydd yn y CAC na lefel gyffredinol chwyddiant. Gall rhai grantiau gael eu rhewi ar lefel y flwyddyn flaenorol. Gall hyn gynyddu'r galw ar y gyllideb graidd gan nad yw'n bosib bob amser lleihau gwasanaethau sy'n cael eu cyllido gan grantiau yn gyflym. Er mwyn lliniaru'r risg, mae gan y Cyngor gronfa wrth gefn glustnodedig gwerth £250k y gellir ei defnyddio i ychwanegu at y gyllideb graidd pe byddai angen.

## 7. ARBEDION CYLLIDEBOL A BUDDSODDIADAU

**7.1** Wrth lunio'r gyllideb ar gyfer 2026/27, adolygwyd yr holl gyllidebau er mwyn nodi:-

- Cyllidebau nad oes galw amdanynt bellach;
- Cyllidebau sydd yn rhy uchel;
- Cyllidebau incwm y gellir eu cynyddu.

**7.2** Mae crynodeb o ganfyddiadau'r arolwg wedi'i gynnwys yn Nhabl 4 isod:-

**Tabl 4**
**Crynodeb o Arbedion Cyllidebol a Nodwyd**

| Gwasanaeth | Cyllidebau nad oes eu hangen<br>£ | Cyllidebau sy'n rhy uchel<br>£ | Cyllidebau incwm sy'n rhy isel<br>£ | Cyfanswm<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | 0 | 40,533 | 0 | **40,533** |
| Gwasanaethau Oedolion | 175,000 | 0 | 0 | **175,000** |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 0 | 64,456 | 265,000 | **329,456** |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 60,000 | 61,997 | 100,000 | **221,997** |
| Cyllidebau Corfforaethol | 209,209 | 0 | 0 | **209,209** |
| **CYFANSWM** | **444,209** | **166,986** | **365,000** | **976,195** |

7.3 Gofynnwyd hefyd i wasanaethau gyflwyno ceisiadau am gyllid ychwanegol er mwyn cwrdd â phwysau gwasanaeth presennol neu bwysau newydd. Cynigir bod y ceisiadau canlynol yn cael eu cynnwys yn y gyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2026/27.

**7.4 Cyllid Ychwanegol ar gyfer y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol - £200,000**

Bydd y gwasanaeth ar y cyd â Gwynedd yn dod i ben ym mis Medi 2026. Mae gwaith yn mynd rhagddo i benderfynu ar strwythur staffio a chyllidebau cysylltiedig ar gyfer y gwasanaeth mewnol newydd. Mae amcangyfrif o £200k wedi'i gynnwys ar gyfer y gost dros flwyddyn lawn ond, gan na fydd y gwasanaeth yn cychwyn tan fis Medi 2026, bydd angen swm llai yn 2026/27 a'r swm yn llawn yn 2027/28.

**7.5 Toiledau Cyhoeddus - £50,000**

Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi nodi bod agor y toiledau cyhoeddus ym Menllech a Bae Trearddur trwy'r flwyddyn yn flaenoriaeth. Gwnaethpwyd hyn yn 2025/26 trwy ddefnyddio tanwariant mewn cyllidebau gwasanaethau eraill ond, os yw'r trefniant hwn am fod yn un parhaol, bydd angen £25,000 o gyllid ychwanegol er mwyn talu costau glanhau'r toiledau am nifer fwy o wythnosau yn ystod y flwyddyn.

Mae gwaith yn cael ei wneud hefyd er mwyn dod â thoiledau cyhoeddus eraill yn ôl dan reolaeth y Cyngor ac efallai ymestyn eu horiau agor. Bydd angen cyllid ychwanegol i gyflawni hyn, er mwyn cwrdd â chost agor a glanhau'r toiledau cyhoeddus.

**7.6 Cydymffurfiaeth yn y Gwasanaethau Eiddo - £40,200**

Un o amcanion y Strategaeth Rheoli Asedau yw sicrhau fod gan y Cyngor bortffolio asedau sydd mewn cyflwr gwell, yn fwy diogel ac yn fwy hygyrch.

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae angen cyflogi staff ychwanegol i gynnal yr archwiliadau a'r asesiadau angenrheidiol ac adrodd ar gydymffurfiaeth.

**7.7 Gorfodaeth Cynllunio - £51,800**

Gwelwyd cynnydd o 30% yn y cwynion am ddatblygiadau anawdurdodedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae'r Tîm Gorfodaeth Cynllunio yn dîm bychan iawn sy'n delio â materion technegol a all gymryd amser hir i'w datrys. Mae pryderon hefyd am wytnwch y tîm, pe byddai staff yn symud i swyddi eraill, neu'n absennol am gyfnod estynedig oherwydd salwch. Bydd y swydd ychwanegol yn darparu capasiti ychwanegol ac yn gwella gwytnwch.

**7.8 Archwiliadau Diogelwch Bwyd - £146,100 (2026/27 a 2027/28), £64,600 (2028/29 ymlaen)**

Yn ddiweddar, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cynnal archwiliad o wasanaeth archwilio safonau bwyd y Cyngor a rhoddwyd gradd "anfoddhaol" i'r gwasanaeth. Ar hyn o bryd, mae tua 700 o fusnesau nad ydynt yn fusnesau risg uchel yn disgwyl am archwiliad gan y Gwasanaeth. Byddai'r swydd ychwanegol yn creu mwy o gapasiti archwilio ac yn caniatáu i'r Cyngor fynd i'r afael â'r ôl-groniad.

Gofynnir hefyd am £81,500 yn 2026/27 a 2027/28 er mwyn darparu capasiti ychwanegol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o archwiliadau. Pan fydd yr ôl-groniad wedi'i glirio, a chyda capasiti ychwanegol, dylai'r Gwasanaeth fod â digon o adnoddau i gynnal y nifer angenrheidiol o archwiliadau bob blwyddyn.

**7.9 Iechyd Galwedigaethol - £20,000**

Mae'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol presennol yn cael ei ddarparu gan ddarparwr allanol, ac ni all y Cyngor reoli amseroedd ymateb i atgyfeiriadau. Mae oedi cyn cynnal asesiadau iechyd galwedigaethol yn ymestyn cyfnod absenoldebau salwch, gan greu cost ychwanegol i'r Cyngor.

Y bwriad yw cyflogi arbenigwr mewnol, ynghyd â darparu cyllideb ar gyfer yr offer angenrheidiol a chwrdd â chost asesiadau arbenigol allanol.

**7.10 Seiberddiogelwch - £364,200**

Mae'r risg o ymosodiad seiberddiogelwch yn cynyddu trwy'r amser a gwelwyd enghreifftiau o gwmnïau mawr ac awdurdodau lleol a ddioddefodd ymosodiadau seiber llwyddiannus. Roedd yr effaith ar y sefydliadau hyn, o ran colli data ac amharu ar wasanaethau, yn sylweddol. Mae seiberddiogelwch yn cael ei ystyried yn risg gorfforaethol sylweddol gan y Cyngor, ond nid yw'r adnoddau presennol yn ddigonol i ymdrin â'r nifer cynyddol o ymosodiadau mwyfwy soffistigedig.

Y bwriad yw cynyddu niferoedd staffio trwy gyflogi 4 aelod ychwanegol o staff. Byddai hyn yn cynyddu capasiti i fonitro ac atal ymosodiadau, delio gydag unrhyw ymosodiadau llwyddiannus a gwella gwytnwch y tîm pe byddai unrhyw absenoldebau'n codi. Byddai'r buddsoddiad hefyd yn caniatáu i'r Cyngor brynu meddalwedd monitro a darganfod mwy soffistigedig.

**7.11 Rheoli a Dadansoddi Data - £81,900**

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gwella'r ffordd y mae'n defnyddio data wrth wneud penderfyniadau, a hynny er mwyn cael ei lywio fwy gan ddata fel sefydliad. Mae gwasanaethau o fewn y Cyngor yn defnyddio gwahanol ddulliau a systemau ar hyn o bryd ar gyfer cofnodi, rheoli a dadansoddi data. Mae trefniadau llywodraethu gwybodaeth, diogelu data a safoni yn amrywio. Datblygwyd dangosfyrddau data, ond mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn cyflwyno setiau data ychwanegol a allai fod yn fuddiol i'r Cyngor.

Y bwriad yw cyflogi Rheolwr Data ynghyd â buddsoddi mewn meddalwedd dadansoddi data. Byddai hyn yn caniatáu i'r Cyngor greu cynllun strategol data hirdymor, fyddai'n cynnwys safoni'r defnydd o ddata, gweithredu safonau data, sicrhau trefniadau llywodraethu data priodol a datblygu diwylliant o weithio gyda data.

**7.12 Caffael - £79,400**

Mae deddfwriaeth caffael newydd y DU a Chymru wedi gosod cyfrifoldebau newydd ar y Cyngor mewn perthynas â gweithgareddau chaffael a'r angen i gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol cyn, yn ystod ac ar ddiwedd pob proses gaffael. Mae angen mesur, arfarnu ac adrodd hefyd ar werth cymdeithasol a gyflawnir drwy gontractau'r Cyngor, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012.

Mae angen capasiti ychwanegol o fewn y Tîm Caffael Corfforaethol er mwyn cyflawni'r gofynion newydd, ac mae angen buddsoddi hefyd mewn systemau caffael er mwyn casglu, dadansoddi ac adrodd ar weithgareddau caffael o fewn y Cyngor.

**7.13 Gwasanaethau Cyfreithiol - £92,000**

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor, ynghyd â chynghorau eraill, yn wynebu anawsterau sylweddol wrth geisio recriwtio cyfreithwyr sy'n meddu ar gymwysterau a phrofiad addas i weithio mewn nifer o feysydd gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn gorfod cyflogi nifer o gyfreithwyr locwm ar hyn o bryd, ond maent yn gostus iawn.

Y bwriad yw cyflogi 2 swyddog Paragyfreithiol ychwanegol, fyddai'n haws eu recriwtio. Byddai hyn yn cynyddu capasiti, rhyddhau staff mwy profiadol i gyflawni agweddau uwch yn gysylltiedig â'u rolau a chaniatáu i'r staff sy'n cael eu recriwtio hyfforddi i fod yn gyfreithwyr cymwys.

**7.14 Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) - £100,000 y flwyddyn am 3 blynedd**

Yr amcangyfrif presennol yw y bydd drafftio, ymgynghori a chwblhau'r CDLl newydd yn costio tua £800k. Mae gan y Cyngor gronfa wrth gefn glustnodedig gwerth £500k, ond nid oes cyllid wedi'i neilltuo ar hyn o bryd ar gyfer y swm ychwanegol o £300k. Byddai'n bosib cwblhau'r cynllun, a chyllido'r holl gostau, trwy gynnwys £100k yn y gyllideb refeniw hyd at 2028/29.

**7.15** Byddai cyfanswm cost y cynigion hyn yn £1,225,600 yn 2026/27, gyda £1,044,100 o'r swm yn gynnydd parhaol yn y gyllideb.

**7.16** Mae'r gyllideb arfaethedig diwygiedig ar gyfer 2026/27 i'w weld yn Nhabl 5, isod, ac mae'n dangos y sefyllfa pe byddai'r arbedion yn cael eu gweithredu a'r cynigion yn cael eu derbyn:-

**Tabl 5**
**Cyllideb Arfaethedig Diwygiedig ar gyfer 2026/27**

| | £'m | £'m |
|---|---|---|
| Cyllideb Ddisymud, yn unol â Thabl 4 | | 206.773 |
| Arbedion Cyllidebol, yn unol â Thabl 5 | (0.976) | |
| Cynigion i Fuddsoddi mewn Gwasanaethau - para 7.4 - 7.14 | 1.226 | |
| | | 0.250 |
| **Y Gofyniad Cyllidebol Diwygiedig ar gyfer 2026/27** | | **207.023** |
| **Cyfanswm Cyllid cyn Cynyddu'r Dreth Gyngor** | | **(202.389)** |
| **(Gwarged) / Diffyg Cyllido (cyn unrhyw newid yn y Dreth Gyngor)** | | **4.634** |

## 8. PONTIO'R BWLCH CYLLIDO

**8.1** Ar hyn o bryd, amcangyfrifir y bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol gwerth £17.2m ar 31 Mawrth 2026. Strategaeth ariannol y Cyngor yw cynnal balansau cyffredinol sy'n cyfateb i 5% o'r gyllideb refeniw net, a byddai angen £10.4m mewn balansau cyffredinol ar gyfer 2026/27. Mae hyn £6.8m yn is na'r balans a ragwelir ar 31 Mawrth 2026, a gellid ei ddefnyddio i gyfrannu at gyllido cyllideb 2026/27.

**8.2** Mae Archwilio Cymru wedi nodi nad yw defnyddio arian wrth gefn fel hyn yn gwneud y defnydd gorau o'r arian wrth gefn, a byddai defnyddio'r arian wrth gefn i gyllido rhaglenni trawsnewid fyddai'n gallu darparu gwell gwasanaethau yn rhatach yn cael mwy o effaith. Mae'n rhaid cadw hyn mewn cof wrth benderfynu defnyddio arian wrth gefn i gyllido gwariant yn y flwyddyn. Er hynny, mae defnyddio arian wrth gefn yn rhoi mwy o amser i'r Cyngor gynllunio newidiadau o ran darparu gwasanaethau er mwyn lleihau'r gyllideb refeniw net gyffredinol yn 2026/27.

**8.3** Mae pob 1% o gynnydd yn y Dreth Gyngor yn cynhyrchu £533k o dreth gyngor safonol a £45k o bremiwm ar dai gwag ac ail gartrefi, sef cyfanswm o £578k mewn incwm gros. Ar sail y gost i eiddo Band D yn 2025/26, sef £1,572.30, mae pob 1% o gynnydd yn golygu cynnydd o £15.72 yn y gost i eiddo Band D, neu £0.30 yr wythnos. Mae'r dreth gyngor y Cyngor yr 7fed isaf yng Nghymru ar hyn o bryd ac mae'n £93 yn is na chyfartaledd Cymru.

**8.4** Mae'r ffaith fod y cyllid gan LIC yn is na chwyddiant a'r cynnydd yn y galw am wasanaethau a wynebir gan y Cyngor yn golygu bod angen cynnydd yn y Dreth Gyngor sy'n uwch na chwyddiant er mwyn galluogi'r Cyngor i osod cyllideb sy'n cael ei chyllido'n llawn. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn argymell cynnydd o 4.8% yn y Dreth Gyngor, ynghyd â chynnydd ychwanegol o 0.3% i gyllido'r cynnydd yn ardoll y Gwasanaeth Tân. Mae hyn yn gynnydd o 5.1%, ac mae'n golygu fod y gost ar gyfer eiddo Band D (heb gynnwys praeseptau'r Heddlu a Chynghorau Tref / Cymuned) yn codi i £1,792.98, sef cynnydd o £87.03 y flwyddyn, neu £1.67 yr wythnos. Bydd y cynnydd hwn yn cynhyrchu tua £2.949m o gyllid ychwanegol.

**8.5** Ar sail yr uchod, mae cyllideb refeniw arfaethedig cychwynnol 2026/27 wedi'i nodi yn Nhabl 6 isod:-

| Tabl 6<br>Cyllideb Arfaethedig Gychwynnol 2026/27 | | |
|---|---|---|
| | **£'m** | **£'m** |
| **Cyllideb Arfaethedig Gychwynnol (yn unol â Thabl 5)** | | **207.023** |
| **Cyllidir Gan** | | |
| Grant Cynnal Refeniw | 117.875 | |
| Cyfran o'r Gronfa Trethi Annomestig | 26.704 | |
| **Cyfanswm Cyllid Allanol Cyfun (CAC)** | | 144.579 |
| Y Dreth Gyngor (gan gynnwys premiwm a chynnydd o 5.1%) | | 60.759 |
| Balansau Cyffredinol y Cyngor | | 1.685 |
| **Cyfanswm Cyllid** | | **207.023** |

## 9. SEFYLLFA'R GYLLIDEB AR GYFER 2027/28

**9.1** Y tu hwnt i 2026/27, mae'r rhagolygon economaidd yn awgrymu y bydd yr economi'n parhau i wella, gyda chyfraddau chwyddiant a llog yn parhau i ddisgyn, ond bydd twf yn aros yn gymharol isel, gan effeithio ar incwm o drethi a gallu'r Llywodraeth i fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus. Gan fod dyledion wedi bod yn hanesyddol o uchel, ac o ystyried ymrwymiad y Llywodraeth i leihau dyledion fel canran o gynnyrch domestig gros erbyn diwedd y Senedd hon, nid yw'r llywodraeth yn debygol iawn o fenthyca er mwyn cyllido cynnydd yng nghyllidebau'r sector cyhoeddus.

**9.2** Mae'r adolygiad gwariant cynhwysfawr a chyllideb ddilynol Llywodraeth y DU wedi amlinellu'r cyllid ar gyfer Cymru. Mae dadansoddiad gan Dadansoddi Cyllid Cymru yn amcangyfrif cynnydd o 0.6% mewn termau ariannol yn y setliad i lywodraeth leol yn 2027/28, ac mae hyn yn ostyngiad o 1.4% mewn termau real.

**9.3** Cymhlethir y sefyllfa ymhellach gan fod etholiadau'r senedd yn cael eu cynnal ym mis Mai ac mae posibilrwydd cryf y bydd Llywodraeth newydd yn cael ei hethol, fydd â blaenoriaethau gwahanol efallai, a gallai hynny effeithio ar gyllido llywodraeth leol yng Nghymru.

**9.4** Mewn perthynas â gwariant, mae'r risg o bwysau oherwydd chwyddiant yn llawer llai nag y bu ond, wrth gwrs, gall ffactorau allanol effeithio ar lefel chwyddiant. Mae disgwyl i ddyfarniadau cyflog ostwng hefyd, a dylent fod yn agosach at lefel chwyddiant yn 2026/27 a thu hwnt.

**9.5** Y risg mwyaf yw bod y galw'n cynyddu am y gwasanaethau hynny lle gall y galw gan gleientiaid newid yn sylweddol (Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant a Digartrefedd). Mae'n anodd penderfynu ar lefel gwasanaethau, hyd yn oed yn y tymor byr, ac mae'n anodd darogan lefelau gwasanaeth am gyfnod o rhwng 18 mis a 2 flynedd yn y dyfodol.

**9.6** Wrth osod y gyllideb, defnyddiwyd lefel sylweddol o gyllid unwaith ac am byth (balansau cyffredinol) unwaith eto i osod cyllideb sy'n cydbwyso ar gyfer 2026/27. Er y bydd lefelau balansau cyffredinol y Cyngor yn parhau'n iach, ni ellir parhau i ddefnyddio arian wrth gefn yn y tymor hir a bydd angen gwneud newidiadau parhaol i'r gyllideb er mwyn caniatáu i'r Cyngor gyflawni'r gofyniad statudol sydd arno i osod cyllideb wedi'i gyllido'n llawn, heb orfod gostwng yr arian wrth gefn ymhellach ac, o bosib, gwanhau cynaliadwyedd ariannol y Cyngor yn y tymor hir.

**9.7** Mae'r gwaith modelu ariannol presennol yn awgrymu cynnydd o thua £6.2m (3%) yn y gyllideb net ar gyfer 2027/28, a chynnydd o 0.6% yn y CAC, sef swm o £0.9m. Byddai angen cynnydd o 8.7% yn y Dreth Gyngor er mwyn cyllido'r bwlch cyllido hwn, gan dybio na fydd yr arian wrth gefn ar gael mwyach i gyllido'r gyllideb.

**9.8** Gallai ffynonellau cyllido eraill fod ar gael yn 2027/28 a thu hwnt, a gallai hynny gyfrannu at yr adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor. Maent yn cynnwys unrhyw drethi busnes a gedwir o ardaloedd dynodedig y porthladd rhydd, cyllid a allai gael ei gynhyrchu trwy gyflwyno'r Ardoll Ymwelwyr ar Ynys Môn ac unrhyw newidiadau i'r premiwm ar dai gwag ac ail gartrefi. Bydd y cyntaf yn dibynnu ar gynnydd wrth ddatblygu'r ardaloedd porthladd rhydd a bydd angen penderfyniadau pellach gan y Cyngor mewn perthynas â'r ail a'r trydydd. Nid yw'r ffynonellau cyllido posib hyn wedi cael eu hystyried, ond bydd y sefyllfa'n cael ei adolygu wrth i ragor o wybodaeth ddod i law.

**9.9** Mae cydbwyso cyllideb 2026/27 wedi bod yn eithriadol o heriol ond, ar sail y rhagdybiaethau presennol, disgwylir i'r sefyllfa ddechrau gwella yn 2027/28. Er hynny, bydd angen i'r Cyngor ganfod atebion parhaol ar gyfer y gyfran o'r gyllideb sy'n cael ei gyllido gan arian wrth gefn yn 2026/27. Bydd hyn yn heriol iawn, heb orfod gostwng ansawdd ac ystod y gwasanaethau a ddarperir yn sylweddol. Yn y dyfodol, bydd rhaid i arbedion cyllidebol gynnwys lleihau neu roi'r gorau i wasanaethau ac, o bosib, peidio â chyflawni'r safonau statudol disgwyliedig. Mae'r gwaith o nodi arbedion cyllidebol posib ar gyfer 2027/28 wedi dechrau'n barod, a bydd y cynigion hyn i wneud arbedion yn cael ei hystyried ymhellach yn ystod 2026/27.

## 10. CASGLIAD

**10.1** Gosodwyd y gyllideb ar gyfer 2026/27 yng nghyd-destun sefyllfa ariannol sy'n gwella a disgwyliad y bydd y cyllid yn parhau i gynyddu, neu'n cynyddu'n unol â chwyddiant o leiaf. Fodd bynnag, gallai'r sefyllfa ar gyfer 2027/28 barhau'n heriol, ac mae angen ateb parhaol i'r diffyg cyllido yn 2026/27 a'r galw sy'n parhau i gynyddu am wasanaethau.

**10.2** Mae yna nifer o ffactorau hefyd nad yw'r Cyngor yn gallu eu rheoli a gallai eu hoblygiadau o ran costau i'r Cyngor fod yn sylweddol. Nid yw sefyllfa heriol y gyllideb sy'n wynebu'r Cyngor yn unigryw i Ynys Môn, mae pob awdurdod lleol yn y DU yn wynebu'r un sefyllfa. Mae rheolaeth ariannol gadarn yn y gorffennol yn golygu fod y Cyngor mewn sefyllfa ariannol gref i ddelio â'r her yn y tymor byr ond, os bydd costau a'r galw am wasanaethau'n parhau i dyfu ac os nad yw'r cyllid yn cynyddu ar yr un lefel â'r twf mewn costau a'r galw, bydd angen ailstrwythuro gwasanaethau'r Cyngor yn sylweddol er mwyn sicrhau na fydd y Cyngor yn fethdalwr.

**10.3** Mae gwasanaethau'r Cyngor yn dibynnu ar ei staff ymroddedig a gweithgar, ac mae angen cydnabod yr effaith ar y staff hefyd. Bydd angen lleihau lefelau staffio oherwydd yr her ariannol ond, os nad yw'r llwyth gwaith yn gostwng hefyd, bydd y pwysau ar staff yn parhau i dyfu, gan greu anawsterau o ran cadw staff presennol, recriwtio staff newydd a sicrhau fod gan y Cyngor weithlu iach. Mae rhywfaint o'r buddsoddiad arfaethedig mewn gwasanaethau yn 2026/27 yn rhoi sylw, i ryw raddau, i'r materion mwyaf tyngedfennol ond, os bydd y sefyllfa mewn gwasanaethau eraill yn gwaethygu, yna bydd hynny'n rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar y Cyngor, a bydd rhaid darparu ar ei gyfer wrth osod cyllidebau yn y dyfodol.

**10.4** Y cynnydd arfaethedig yn y gyllideb ar gyfer 2026/27 yw 5.93% ac mae'n cael ei gyllido gan gynnydd o 6.4% yng ngwerth ariannol y CAC a chynnydd o 5.1% yn y Dreth Gyngor, gyda gweddill y diffyg yn cael ei gyllido o'r arian wrth gefn.

**10.5** Mae'r sefyllfa o ran cyllid grant yn creu her ariannol ychwanegol a bydd rhaid lleihau rhai gwasanaethau a gyllidir gan grantiau o ganlyniad. Bydd y sefyllfa'n fwy eglur pan fydd y dyraniadau unigol ar gyfer pob grant yn hysbys.

**10.6** Mae rheolaeth ariannol ddarbodus yn y gorffennol wedi cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor yn sylweddol ac mae wedi cynyddu lefelau balansau cyffredinol y Cyngor a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig. Oherwydd bod y sefyllfa ariannol wedi gwella, gall y Cyngor gyflwyno cyllideb arfaethedig sy'n cadw'r cynnydd yn y Dreth Gyngor cyn ised â phosib, er bod rhaid iddo fod yn uwch na lefel bresennol chwyddiant.

**10.7** Mae rhywfaint o risg yn gysylltiedig â'r gyllideb, yn enwedig p'un a wnaethpwyd darpariaeth ddigonol ar gyfer codiadau cyflog a'r galw cynyddol am wasanaethau. Mae'r risg yn cael ei liniaru gan fod y Cyngor yn dal balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig y gellir eu hailgyfeirio er mwyn cyllido unrhyw gostau ychwanegol, ac mae hyn yn amlygu pa mor bwysig yw cynnal lefelau iach o arian wrth gefn.

**10.8** Fodd bynnag, nid yw parhau i ddefnyddio arian wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb yn gynaliadwy ac mae'n gwanhau gwytnwch ariannol y Cyngor. Mae defnyddio arian wrth gefn yn caniatáu i'r Cyngor adolygu ei ofynion cyllidebol yn yr hirdymor, lle bydd rhaid ail-drefnu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r cyllid craidd fydd ar gael.

**10.9** Mae'r gyllideb arfaethedig yn dechrau'r broses o ail-fuddsoddi yn y gwasanaethau a ddarperir, ond nid yw'n eglur a fydd modd parhau i wneud hynny yn y dyfodol a bydd llawer yn dibynnu ar faint o gyllid fydd LIC yn ei ddarparu yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2026. Os bydd y cynnydd yn y cyllid yn isel, yna bydd rhaid i'r Cyngor ystyried lleihau gwasanaethau yn 2027/28 ac wedi hynny er mwyn i'r Cyngor fod mewn sefyllfa i barhau i osod cyllideb gytbwys a chadw'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ar lefel resymol a fforddiadwy. Bydd methu â gwneud hynny'n golygu fod mwy o risg fod y Cyngor yn anghynaladwy mewn termau ariannol erbyn 2028/29 neu 2029/30.

## 11. MATERION I'W PENDERFYNU

**11.1** Ni fydd y gyllideb derfynol yn cael ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn tan 5 Mawrth 2026, fodd bynnag, ar hyn o bryd, argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r canlynol:-

- Y gyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2026/27 o £207.023m;
- Cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor o 4.8%, ynghyd â 0.3% ar gyfer Ardoll y Gwasanaeth Tân, sef cyfanswm o 5.1%, gan olygu fod y gost i eiddo Band D yn £1,792.98;
- Cynnig yn ffurfiol i gadw'r premiwm ar gartrefi gwag ac ail gartrefi ar 100%;
- Bod £1.685m yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol y Cyngor a'r arian wrth gefn clustnodedig er mwyn cyd-bwyso cyllideb refeniw 2026/27.

| CYLLIDEB ARFAETHEDIG 2026/27 FESUL GWASANAETH | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb** | **Cyllideb 2025/26** | **Cyllideb Arfaethedig 2026/27** | **Symudiad** | **% Newid** |
| | **£'m** | **£'m** | **£'m** | **%** |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | |
| Ysgolion | 55.538 | 57.407 | + 1.869 | + 3.37% |
| Addysg Ganolog | 13.981 | 14.314 | + 0.333 | + 2.38% |
| Diwylliant | 1.666 | 1.657 | - 0.009 | - 0.54% |
| **Cyfanswm Dysgu Gydol Oes** | **71.185** | **73.378** | **+ 2.193** | **+ 3.08%** |
| | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | |
| Priffyrdd | 8.496 | 8.653 | + 0.157 | + 1.85% |
| Eiddo | 1.875 | 1.978 | + 0.103 | + 5.49% |
| Gwastraff | 10.394 | 10.788 | + 0.394 | + 3.79% |
| **Cyfanswm Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | **20.765** | **21.419** | **+ 0.654** | **+ 3.15%** |
| | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | |
| Datblygu Economaidd, Hamdden a Chyrchfan | 3.019 | 2.768 | - 0.251 | - 8.31% |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 3.102 | 3.404 | + 0.302 | + 9.74% |
| **Cyfanswm Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | **6.121** | **6.172** | **+ 0.051** | **+ 0.83%** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | **43.082** | **45.377** | **+ 2.295** | **+ 5.33%** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | **17.556** | **18.606** | **+ 1.050** | **+ 5.98%** |
| | | | | |
| **Trawsnewid Corfforaethol** | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1.824 | 1.931 | + 0.107 | + 5.87% |
| TGCH | 5.081 | 5.672 | + 0.591 | + 11.63% |
| Trawsnewid | 1.204 | 1.219 | + 0.015 | + 1.25% |
| **Cyfanswm Trawsnewid Corfforaethol** | **8.109** | **8.822** | **+ 0.713** | **+ 8.79%** |
| | | | | |
| **Tai** | **2.036** | **2.098** | **+ 0.062** | **+ 3.05%** |
| | | | | |
| **Adnoddau** | **4.225** | **4.248** | **+ 0.023** | **+ 0.54%** |
| | | | | |
| **Busnes y Cyngor** | **2.213** | **2.380** | **+ 0.167** | **+ 7.55%** |
| | | | | |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **175.292** | **182.500** | **+ 7.208** | **+ 4.11%** |
| | | | | |
| **Cyllidebau Corfforaethol** | | | | |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 0.823 | 0.878 | + 0.055 | + 6.68% |
| Ardollau | 5.277 | 5.452 | + 0.175 | + 3.32% |
| Corfforaethol a Democrataidd | 2.238 | 3.487 | + 1.249 | + 55.81% |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 4.637 | 5.396 | + 0.759 | + 16.37% |
| Budd-daliadau a ganiateir | 0.110 | 0.110 | 0.000 | 0.00% |
| Ail-godi Tâl ar y CRT | (0.840) | (0.865) | - 0.025 | + 2.98% |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 7.349 | 7.716 | + 0.367 | + 4.99% |
| Cronfeydd wrth Gefn | 1.451 | 1.191 | - 0.260 | - 17.92% |
| Grant Yswiriant Gwladol | (2.000) | 0.000 | + 2.000 | + 100.00% |
| Rhyddhad Ardrethi Dewisol | 0.106 | 0.108 | + 0.002 | + 1.89% |
| Benthyciadau a Grantiau Tai | 1.000 | 1.050 | + 0.050 | + 5.00% |
| **Cyfanswm Cyllidebau Corfforaethol** | **20.151** | **24.523** | **+ 4.372** | **+ 21.70%** |
| | | | | |
| **CYFANSWM Y GYLLIDEB** | **195.443** | **207.023** | **+ 11.580** | **+ 5.93%** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **27 IONAWR 2026** |
| **Pwnc:** | **STRATEGAETH GYFALAF 2026 – 2031** |
| **Deilydd Portffolio:** | **CYNG ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID & BUSNES Y CYNGOR A PHROFIAD Y CWSMER** |
| **Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES**<br><br>rmjfi@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

## A – Argymhellion a Rhesymau

Mae Côd Darbodus diwygiedig CIPFA (Medi 2017) yn gofyn i bob awdurdod baratoi strategaeth gyfalaf. Mae'n rhaid iddi osod y cyd-destun tymor hir ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf a buddsoddi. Bwriad y gofyniad hwn yw sicrhau bod awdurdodau'n gwneud penderfyniadau ynghylch cyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion y gwasanaeth, ac yn rhoi ystyriaeth lawn i stiwardiaeth, gwerth am arian, pwyll, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd. Mae'r strategaeth gyfalaf wedi'i chysylltu â nifer o gynlluniau a strategaethau eraill. Maent yn cynnwys:-

- Cynllun y Cyngor;
- Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol;
- Y Strategaeth TG, gan gynnwys Strategaeth Digidoleiddio Ysgolion;
- Strategaeth Sero Net Lleihau Carbon;
- Strategaeth Gwelliannau Hamdden;
- Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg;
- Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu;
- Cynllun Strategol Rheoli Asedau Tai;
- Cynllun Busnes 30 Mlynedd y Cyfrif Refeniw Tai;
- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell y Strategaeth Gyfalaf i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo'n ffurfiol.

## B – Pa opsiynau eraill y gwnaethoch chi eu ystyried a pham y gwnaethoch eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ni ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill gan fod mabwysiadu'r strategaeth gyfalaf yn ofyniad yng Nghôd Darbodus CIPFA.

## C – Pam bod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Yn unol â gofynion y Côd a Chyfansoddiad y Cyngor, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y strategaeth ac argymell ei gymeradwyo i'r Cyngor llawn.

| CH – A yw'r penderfyniad hwn cyd-fynd â'r polisi sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn? | | |
|---|---|---|
| Bydd y Cyngor llawn yn rhoi cymeradwyaeth ar gyfer y strategaeth. | | |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb sydd wedi'i chymeradwyo gan y Cyngor?** | | |
| Bydd y strategaeth gyfalaf yn ffurfio'r sail ar gyfer cyllideb cyfalaf 2026/27, fydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 5 Mawrth 2026. | | |
| **DD – Asesu'r effaith bosibl (os yn berthnasol):** | | |
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r strategaeth gyfalaf yn crynhoi'r buddsoddiad cyfalaf tymor hir sydd ei angen gan y Cyngor er mwyn cyflawni ei amcanion tymor hir fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor. Mae Cynllun y Cyngor yn gynllun 5 mlynedd sy'n nodi amcanion strategol y Cyngor, sydd wedi cael eu dylunio i fynd i'r afael ag anghenion tymor hir yr Ynys. |
| **2** | A rhagwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / dibyniaeth bellach ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Mae'r strategaeth gyfalaf yn nodi gofyniad buddsoddi cyfalaf y Cyngor yn y dyfodol. Mae buddsoddiad cyfalaf yn cael ei ddylunio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n barhaus ac er mwyn osgoi costau sylweddol yn y dyfodol. |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn dod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch bwy os gwelwch yn dda. | Er mwyn darparu'r rhaglen fuddsoddi gyfalaf, mae'n rhaid cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r DU, awdurdodau lleol eraill yng Ngogledd Cymru, cyrff cyllid grant arall a phartneriaid cyflenwi. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi bod yn rhan o ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheiny yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y penderfyniad? Eglurwch os gwelwch yn dda. | Ymgynghorwyd â dinasyddion cyn drafftio'r Cynllun y Cyngor terfynol. Bydd y Strategaeth Gyfalaf yn helpu i gyflawni Cynllun y Cyngor. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau hynny sydd wedi'u diogelu dan Deddf Cydraddoldeb 2010. | Bydd buddsoddiad cyfalaf yn helpu nifer o grwpiau gwarchodedig, drwy fuddsoddi mewn adeiladau, darparu grantiau cyfleusterau'r anabl, buddsoddi mewn cyfleusterau hamdden ac ati. |
| **6** | Os mai penderfyniad strategol yw hwn, nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad ei gael ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Bydd buddsoddiad cyfalaf yn bwydo arian sylweddol i mewn i'r economi leol ac yn helpu i ddarparu swyddi lleol. Bydd y buddsoddiad mewn tai yn darparu cartrefi fforddiadwy ychwanegol ar gyfer pobl leol. |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i drin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg. | Gwneir buddsoddiad cyfalaf o fewn cymunedau lleol drwy fuddsoddi mewn ysgolion, mân-ddaliadau, eiddo masnachol ac ati. Bydd y buddsoddiad yn helpu i gynnal cymunedau lleol, fydd yn cael effaith fuddiol ar yr iaith Gymraeg. |

| E - | Gyda phwy y gwnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (mandadol) | Mae sylwadau gan y TA wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – cafodd y strategaeth ei ddrafftio gan y Swyddog Adran 151. |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (mandadol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA, ac mae unrhyw sylwadau a wnaed wedi'u hystyried wrth drafod yr adroddiad yn y TA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim effaith uniongyrchol ar staff. |
| 5 | **Eiddo** | Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn ystyried Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn ystyried strategaeth TG a Ddigidol y Cyngor. |
| 7 | **Sgriwtini** | I'w gadarnhau. |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Mae cynigion yn berthnasol i'r holl Aelodau. |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol. |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 – Strategaeth Gyfalaf 2026 - 2031

**FF – Papurau Cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Cynllun y Cyngor 2023 – 2028
Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2026/27 – yn cael ei diweddaru ym mis Chwefror 2026
Cynllun Ariannol Tymor Canolig – Pwyllgor Gwaith, 23 Medi 2025
Cyllideb Refeniw 2026/27 – Y Gyllideb Arfaethedig gychwynnol – Pwyllgor Gwaith, 27 Ionawr 2026

Ynys Môn
THE ISLE OF Anglesey





# Strategaeth Gyfalaf 2026-2031

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Saesneg / This document is also available in English.

## Rhagair gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr

Mae buddsoddi Cyfalaf yn angenrheidiol ar gyfer Ynys Môn o safbwynt cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a chymunedol ond, yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n bwysig bod penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau tymor hir yn seiliedig ar wybodaeth ddeallus glir, yn mynd i'r afael â'r risgiau tymor hir mae'r Cyngor yn eu hwynebu a'u bod yn fforddiadwy yn y tymor hir.

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn gosod y gofynion buddsoddi tymor hir sy'n deillio o Gynllun y Cyngor a strategaethau cysylltiedig eraill, mae'n asesu fforddiadwyedd y cynlluniau hynny ac yn adnabod yr adnoddau cyfalaf sydd eu hangen i gyflawni'r cynlluniau hynny.



Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn ddogfen allweddol sy'n sicrhau bod penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau cyfalaf yn cael eu gwneud mewn ffordd drefnus, sy'n galluogi'r Cyngor i gyflawni ei brif amcanion, tra'n sicrhau nad yw hyfywedd tymor hir y Cyngor mewn perygl.



Cynghorydd Gary Pritchard,
Arweinydd y Cyngor



Dylan J. Williams,
Prif Weithredwr

# Pam Rydym Angen Strategaeth Gyfalaf?

- Mae Côd Darbodus CIPFA yn gosod allan gofyniad bod pob awdurdod lleol yn gorfod paratoi strategaeth gyfalaf.
- Yn ddelfrydol, dylai'r Strategaeth gwmpasu 10 i 15 mlynedd, ond nid yw'r ansicrwydd presennol ynglŷn â chyllid yn caniatáu ar gyfer datblygu cynllun mor hir-dymor.
- Mae'n sicrhau bod awdurdodau'n gwneud penderfyniadau ynghylch cyfalaf a buddsoddi sy'n rhoi ystyriaeth lawn i:-
    - Stiwardiaeth;
    - Gwerth am Arian;
    - Pwyll;
    - Cynaliadwyedd;
    - Fforddiadwyedd.
- Cyfrannu at gydymffurfiaeth gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Pwrpas y Strategaeth Gyfalaf?

- Wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddiadau tymor hir, mae'n hanfodol bod y rhai sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniadau hynny'n gallu dibynnu ar wybodaeth glir a chywir. Mae hyn yn cynnwys:-
  - Edrych ar gynlluniau gwariant cyfalaf ac unrhyw risgiau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y tymor hir;
  - Ystyried y goblygiadau cyllido tymor hir o ran fforddiadwyedd a risgiau posib;
  - Bod â throsolwg clir o drefniadau rheoli asedau'r Cyngor ac unrhyw ofynion cynnal a chadw sydd â goblygiadau o ran adnoddau a chynllunio busnes.
- Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn edrych ar yr asedau newydd, neu'r gwelliannau sydd eu hangen i asedau, megis adeiladu'r Cyngor, ysgolion, tai, cyfleusterau gofal cymdeithasol a chyfleusterau hamdden, er mwyn helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol, ynghyd â'i oblygiadau statudol niferus.
- Drwy'r strategaeth hwn, rydym yn bwriadu gwario a buddsoddi lefel briodol o gyfalaf i ddiwallu'r blaenoriaethau ac amcanion hyn, tra'n sicrhau bod ein cynlluniau yn fforddiadwy, darbodus a chynaliadwy.

# Gwariant Cyfalaf 2021/22 – 2025/26

| | 2021/22<br>£'m | 2022/23<br>£'m | 2023/24<br>£'m | 2024/25<br>£'m | 2025/26<br>(Rhagolwg)<br>£'m |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynnal Asedau Presennol | 6.865 | 9.139 | 5.678 | 10.114 | 8.944 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 4.507 | 6.317 | 13.160 | 4.131 | 0.314 |
| Gwella Cyfleusterau Hamdden | 0.211 | 0.336 | 0.249 | 1.611 | 0.835 |
| Rheoli Gwastraff | 2.270 | 0.213 | 0.099 | 0.239 | 0.865 |
| Cyflawni Sero Net | 1.742 | 1.372 | 2.379 | 10.683 | 9.522 |
| Rhaglen Amddiffyn Rhag Llifogydd | 1.194 | 2.491 | 0.567 | 1.207 | 0.848 |
| Prosiectau wedi'u Cyllido gan Grantiau'r UE | 1.361 | 4.511 | 0.248 | 0.562 | 0.330 |
| Prosiectau wedi'u Cyllido gan Grantiau Llywodraeth Cymru (LlC) / y DU | 3.590 | 2.119 | 3.085 | 8.512 | 10.639 |
| Isadeiledd / Offer TG Ysgolion | 0.603 | 0.341 | 0.320 | 0.199 | 0.000 |
| Eiddo Buddsoddi | 0.253 | 0.242 | 2.835 | 0.000 | 0.814 |
| Prosiectau Eraill wedi'u Cyllido gan Grantiau | 1.140 | 2.429 | 2.148 | 0.000 | 0.000 |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 9.723 | 11.180 | 19.806 | 27.468 | 22.056 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT** | **33.457** | **40.690** | **50.574** | **64.726** | **55.167** |

# Cynllun y Cyngor 2023-2028

Cynllun y Cyngor yw'r ddogfen allweddol sydd yn ganolog i benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud ar bob lefel; bydd yn darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; llunio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Yn ei hanfod, mae a wnelo'r cynllun â'n dymuniad i weithio gyda thrigolion Ynys Môn, cymunedau a phartneriaid i sicrhau ein bod ni'n darparu'r gwasanaethau gorau posib, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r meysydd allweddol y dylai'r Cyngor fod yn canolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:-**

Tudalen 49

'Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.'

Ein chwech amcan strategol

### Yr iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

### Gofal cymdeithasol a Lles

Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser iawn.

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Tai

Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref.

### Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Cynllun y Cyngor 2023-2028

# Cynllun y Cyngor 2023-28

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn seiliedig ar werthoedd craidd y sefydliad, sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.

Tudalen 50

[Cynllun y Cyngor 2023-2028]

## Gwerthoedd

### Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill waeth beth yw ein gwahaniaethau.

### Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonnau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

### Cydweithio

Rydym yn gweithio'n well fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn.

### Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder wrth weithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Cyngor i'r Cyngor a'r Ynys.


# Cylch Strategol

Mae’r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd mewn lle er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau ac amcanion.


Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni’r amcanion strategol a’r gweledigaeth.



[Cynllun y Cyngor 2023-2028](Cynllun y Cyngor 2023-2028)



# Y berthynas rhwng Cynlluniau a Strategaethau'r Cyngor




Tudalen 52

# Cynllun y Cyngor a Chynlluniau Gweithredol Allweddol

- **Mae'r strategaethau a chynlluniau allweddol isod yn bwysig ac yn cydberthyn er mwyn helpu i adnabod y lefel fforddiadwy o refeniw ac adnoddau cyfalaf sydd ei angen er mwyn cyflawni prif flaenoriaethau Cynllun y Cyngor a chynlluniau gweithredol allweddol. Yn ogystal, mae'r rhain yn darparu fframwaith ar gyfer rheolaeth ariannol gadarn o adnoddau'r Cyngor.**



## Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC)

Caiff ei adolygu'n rheolaidd er mwyn helpu gosod allan y gofyniad tebygol o ran adnoddau ar gyfer y tair blynedd nesaf, a sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwyso'r gofyniad hwn. Mae hyn yn cynnwys effaith materion refeniw a chyfalaf ar Gronfa'r Cyngor.

## Strategaeth Gyfalaf

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn gosod allan y prif flaenoriaethau ynghylch sut y dylid gwario cyllid cyfalaf er mwyn helpu i gyflawni Cynllun y Cyngor 2023/28. Mae'n cydnabod fod gwariant cyfalaf yn arwain at gostau cyllido cyfalaf refeniw ac mae'n rhaid sicrhau eu bod yn fforddiadwy. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn effeithio ar y CATC, y DSRhT, y Gyllideb Refeniw Flynyddol a'r Rhaglen Gyfalaf Flynyddol, ac mae hefyd yn cael ei dylanwadu ganddynt.

## Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT)

Mae'n gosod y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, y Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf a'r Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn. Maent yn darparu'r fframwaith a'r rheolyddion sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i dalu costau refeniw a chyfalaf cyflenwyr, bod arian dros ben yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, a'i fod ar gael, a sicrhau nad yw benthyca er mwyn cyllido gwariant cyfalaf yn mynd y tu hwnt i lefel fforddiadwy.

Mae'r **Gyllideb Refeniw Flynyddol** yn cael ei chefnogi gan CATC, y Strategaeth Gyfalaf a'r DSRhT - Bob blwyddyn, mae'r costau cyllido cyfalaf refeniw yn cael eu hadolygu a'u diwygio fel rhan o'r gwaith o osod cyllideb refeniw. Ar brydiau, defnyddir cyfraniadau refeniw i gyllido costau cyfalaf.


**Y Rhaglen Gyfalaf Flynyddol** - Mae'r lefel o wariant a benthyca cyfalaf yn effeithio ar y gyllideb refeniw oherwydd costau cyllido cyfalaf ac unrhyw gostau refeniw parhaus, megis cynnal a chadw.

# Prif feysydd blaenoriaeth

Mae cyflawni'r flaenoriaeth strategol, ynghyd â'r meysydd blaenoriaeth allweddol, yn gosod mandad clir ac uchelgeisiol.

Rydym am wneud yn siŵr:-

- Bod gennym ddigon o gyllid i fuddsoddi yn y blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf;
- Ein bod ni'n gallu cynnal ein hasedau cyfalaf a pharhau i ddarparu gwasanaethau;
- Bod strategaeth y Cyngor yn ddigon hyblyg i gwrdd ag unrhyw anghenion sy'n ymgodi a chymryd mantais o unrhyw gyfleoedd cyllido pan fyddant yn codi.



# Egwyddorion ac Amcanion i Gefnogi'r Gwaith o Gyflawni Prif Amcanion

- Rhaid i brosiectau cyfalaf fod yn gysylltiedig ag asedau a fydd yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol, sydd wedi'u hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor, ynghyd â'i strategaethau gweithredol allweddol a chyfrifoldebau statudol.
- Pob blwyddyn wrth adolygu'r strategaeth hwn a datblygu'r Rhaglen Gyfalaf blynyddol, rhaid i'r Cyngor ystyried stiwardiaeth, gwerth am arian, pwyll, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.
- Bydd y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cael ei flaenoriaethu o fewn y Rhaglen Gyfalaf.
- Bydd Derbyniadau Cyfalaf o Werthiant Ysgolion Dros Ben yn cael eu defnyddio fel cyllid ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (fel nodir yn yr Achos Busnes Derfynol) neu fel cyllid cyfalaf cyffredinol.
- Gellir ail-fuddsoddi derbyniadau yn yr ystâd yn dilyn gwerthu mân-ddaliadau'r Cyngor, os ydi'r blaenoriaethau gwario eraill yn caniatáu hynny.
- Bydd swm blynyddol yn cael ei ddyrannu i gynnal a chadw neu ddisodli asedau presennol y Cyngor - Adeiladau'r Cyngor, Offer TG, Cerbydau, Rhwydwaith Ffyrdd.
- Bydd y Cyngor yn anelu i ddefnyddio cyllid cyfalaf i drawsnewid a moderneiddio'r gwasanaethau a ddarperir.
- Bydd unrhyw brosiect newydd sydd angen cyllid cyfatebol i ddenu cyllid grant yn cael ei asesu ar sail achos fesul achos gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151. Bydd yr asesiad yn ystyried y lefel o gyllid grant, a yw'r prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, y goblygiadau ar gyfer y gyllideb refeniw a lefel y cyllid cyfatebol ar gyfer cyllid grant.
- Rhaid i brosiectau cyfalaf roi sylw i'r targedau carbon sero net a rhaid defnyddio dewisiadau amgen glân lle, yn draddodiadol, defnyddiwyd offer / cyfleusterau / asedau oedd yn cynhyrchu carbon.
- Bydd y Cyngor yn parhau i weithio hefo'i bartneriaid strategol ac mae wedi ymrwymo i weithio fel rhan o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gyflwyno prosiectau cyfalaf ar draws Gogledd Cymru.
- Bydd Benthyca Digefnogaeth yn cael ei ystyried os bydd y gofynion cyllido cyfalaf blynyddol yn fforddiadwy ac yn cynnal lefel dderbyniol o gostau cyllido cyfalaf yn erbyn gwariant refeniw net.
- Gweithredir benthyciadau allanol yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor er mwyn cynnal balansau arian parod digonol, ac er mwyn lleihau ffioedd cyllido cyfalaf.

# Ffynonellau Cyllid y Rhaglen Gyfalaf

| Math o Gyllid | Ffynhonnell | Cyfyngiadau Defnydd | Goblygiadau Refeniw | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | Llywodraeth Cymru | Dim | Dim | |
| Benthyca â Chefnogaeth | BBGC | Dim | Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) (seiliedig ar oes ased) a Llog (penodedig am gyfnod y benthyciad) | Costau refeniw wedi'u cyllido gan Lywodraeth Cymru (LIC) drwy'r setliad. |
| Benthyca Digefnogaeth | BBGC | Rhaid bodloni gofynion y Côd Darbodus | DRI (seiliedig ar oes ased) a Llog (penodedig am gyfnod y benthyciad) | Gan fod costau llawn yn disgyn ar y Cyngor, mae'n rhaid i unrhyw brosiect sy'n cael ei cyllido drwy fenthyciad digefnogaeth, fel arfer, greu incwm ychwanegol neu arbedion refeniw i fodloni'r DRI a ffioedd llog. |
| Cymunedau Dysgu (Grantiau a Benthyca) | Llywodraeth Cymru a BBGC | Yn unol â'r achos busnes a gymeradwyir | DRI (seiliedig ar oes ased) a Llog (penodedig am gyfnod y benthyciad) | Mae LIC yn cyllido 65% (67% drwy fenthyca â chefnogaeth a 33% drwy grant). Mae'r Cyngor yn cyllido 35% drwy fenthyca digefnogaeth a derbyniadau cyfalaf. |
| Cymunedau Dysgu (Model Buddsoddi ar y Cyd - MIM) | Llywodraeth Cymru | Yn unol â'r achos busnes a gymeradwyir | Telir ffi refeniw blynyddol i Gwmni MIM am 25 mlynedd | 92% o'r gost refeniw wedi'i cyllido gan LIC, gyda'r 8% sy'n weddill yn disgyn fel cost refeniw'r Cyngor. |
| Cyllid Grant Penodol | Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Cyllidwyr Eraill | Yn unol â'r amodau grant | Dim | Efallai y bydd cyllid grant angen lefel o gyllid cyfatebol. |
| Derbyniadau Cyfalaf | Gwerthiant Asedau'r Cyngor | Dim | Dim | Rhaid defnyddio derbyniadau cyfalaf er mwyn cyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu benthyciadau presennol. |
| Arian Wrth Gefn y Cyngor | Cyngor | Dim | Dim | |
| Cyfraniadau o'r gyllideb refeniw | Cyngor | Dim | Dim | |
| Arian Wrth Gefn y CRT | Cyngor | Gwariant Cyfalaf y CRT yn unig | Dim | |

# Asedau Presennol y Cyngor

| Math o Ased | Nifer | Math o Ased | Nifer | Math o Ased | Nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd | 38 | Clybiau Ieuenctid | 1 | Ffordd Cerbydau | 1,188 km |
| Ysgolion Uwchradd | 5 | Unedau Busnes | 68 | Troedffordd | 661 km |
| Canolfan Addysg y Bont | 1 | Safleoedd Manwerthu | 20 | Llwybr Beicio | 211 km |
| Swyddfeydd | 2 | Canolfannau Cymunedol | 8 | Strwythurau | 539 |
| Amgueddfeydd ac Archifau | 2 | Sefydliadau Addysgol Eraill | 3 | Goleuadau | 20,014 goleuadau |
| Llyfrgelloedd | 7 | Eiddo Amrywiol | 8 | Draeniad | 28,064 |
| Cartrefi Gofal Preswyl | 5 | Porthladdoedd a Phierau | 7 | Arwyddion heb eu goleuo | 7,629 |
| Cartrefi Gofal Plant (Cartrefi Clyd) | 3 | Angorfeydd | 468 | Asedau Priffyrdd Arall | 9,239 |
| Canolfannau Gofal Dydd | 4 | Stoc Dai | 3,979 uned | | |
| Canolfannau Hamdden | 4 | Tir Meddianedig | Amryw | | |
| Cyfleusterau Cyhoeddus | 22 | Parciau a Mannau Agored | 47 | | |
| Mân-ddaliadau | 75 | Cerbydau | 200 | | |

# Cynnal Asedau Presennol

- Sicrhau bod ysgolion yn cyfarfod a gofynion addysgol y dyfodol - £180m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Swyddfeydd y Cyngor - £2.5m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Canolfannau Hamdden - £8m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Adeiladau Gofal Cymdeithasol - £3.5m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Unedau Busnes - £0.5m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Mân-ddaliadau - £2.3m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Llyfrgelloedd, Archifau ac Amgueddfeydd - £0.5m
- Ôl-groniad cynnal a chadw – Cyfleusterau Cyhoeddus - £1.4m
- Gofyniad Cynnal a Chadw Ffyrdd Blynyddol - £2m - £2.5m i gynnal cyflyrau presennol ffyrdd
- Offer TG – Disodli caledwedd presennol bob 3 i 10 mlynedd
- Cerbydau – Disodli cerbydau presennol bob 5 – 7 mlynedd – angen symud at ffynhonnell tanwydd sy’n garbon niwtral
- Grant Cyfleusterau Anabl – Gofyniad cyllidebol gwerth isafswm £900k bob blwyddyn

# Cynnal Asedau Presennol

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae cynnal a chadw asedau presennol mewn cyflwr sy'n sicrhau eu bod yn weithredol yn allweddol i sicrhau y gellir barhau i ddarparu gwasanaethau.
- Byddai buddsoddi / diweddaru a disodli asedau presennol a dechrau cael gwared ar yr ôl groniad cynnal a chadw angen gwariant cyfalaf sy'n fwy na £10m bob blwyddyn. Mae hyn y tu hwnt i'r lefel bresennol o gyllido a bydd angen blaenoriaethu buddsoddi.
- Mae buddsoddi yn asedau TG yn caniatau'r Cyngor gynnal ei galedwedd TG, sy'n cefnogi darpariaeth gwasanaethau rheng flaen.





## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Pob blwyddyn, bydd cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu i sicrhau ein bod ni'n buddsoddi yn ein hasedau presennol er mwyn eu hamddiffyn ar gyfer y dyfodol.
- Bydd asedau sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn cael eu blaenoriaethu wrth ddyrannu cyllid cyfalaf.
- Bydd swm blynyddol yn cael ei ddyrannu ar gyfer cynnal a chadw neu ddisodli asedau'r Cyngor – Adeiladau'r Cyngor, Offer TG , Cerbydau.
- Y strategaeth gyfredol yw i ddefnyddio'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthyca â Chefnogaeth.
- Bydd rhaid cael benthyca digefnogaeth sylweddol i gyllido'r gweddill, a bydd hyn yn ei dro'n arwain at DRI a thaliadau llog gwerth tua £750k y flwyddyn.
- Yn y tymor hwy, byddwn yn asesu ein hasedau a gadwyd yn unol â'n hanghenion gwasanaeth yn y dyfodol.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Anelu i gyllido ar y lefel ganlynol:-
  - Adeiladau Addysg - £1.0m
  - Adeiladau Arall y Cyngor - £0.6m
  - Cynnal a Chadw Priffyrdd - £2.0m
  - Cerbydau - £0.5m
  - Offer TG - £0.5m
  - Grant Cyfleusterau Anabl - £0.9m
- Mae'r lefelau cyllid hyn yn ddibynnol ar y cyllid fydd ar gael a blaenoriaethau cyllido eraill, ond maent yn nodi'r gofyniad isaf.
- Daw hyn i £5.5m, gyda'r cyllideb ychwanegol yn cael ei gyllido drwy fenthyca digefnogaeth, derbyniadau cyfalaf a chyfraniadau o'r cyllidebau refeniw.
- Bydd y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar gyllid cyfalaf allanol lle bynnag y bo modd a phan fo hynny'n fforddiadwy.

# Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae'n raglen sylweddol a fydd yn arwain at  defnyddio'r cyllid cyfalaf Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i wella ysgolion  neu adeiladu adeiladau newydd yn y tymor hir.
- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r Rhaglen o hyd a bydd yn parhau i ddefnyddio cyllid allanol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i'r eithaf.





## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wrthi'n llunio'r rhaglen amlinellol strategaethol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, sy'n nodi blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor am y 9 mlynedd nesaf.
- Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar wella / disodli y 5 ysgol uwchradd y Cyngor.
- Bydd cyllid yn parhau ar ffurf cymysgedd o grantiau gan LlC a benthyca â chefnogaeth (65% o'r gost)  a benthyca digefnogaeth a derbyniadau cyfalaf (35% o'r gost).

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Byddwn yn defnyddio'r Derbyniadau Cyfalaf yn dilyn gwerthu ysgolion nad ydym eu hangen mwyach i  gyllido'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
- Y gost o adeiladu ysgol uwchradd newydd yw oddeutu £70m, ac mae hyn yn debygol o ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r cyllid sydd ar gael gan LlC.
- Bydd y Cyngor yn parhau i edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio Model Buddsoddi ar y Cyd (MIM) LlC i gyllido'r gost o ddisodli un adeilad ysgol.
- Mae unrhyw gynllun newydd yn annhebygol o ddechrau tan 2027/28.

# Gwelliannau i Gyfleusterau Hamdden

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae Canolfannau Hamdden yn darparu gwasanaeth bwysig i drigolion Môn, sy'n cyfrannu tuag at eu iechyd a'u lles.
- Mae 3 allan o 4 Canolfan Hamdden y Cyngor oddeutu 50 oed, ac mae angen buddsoddiad sylweddol i gynnal a chadw'r adeiladau a diweddaru'r cyfleusterau.
- Byddai'r gost amcangyfrifiadol oddeutu £40m i £50m, a ni all y Cyngor ei gyllido ar ei ben ei hun.



MÔN ACTIF

## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Bydd y Cyngor yn parhau i gynnal a chadw'r adeiladau fel y gallant barhau i weithredu dros y tymor byr i ganolig, gyda'r nod o barhau i weithredu'r 4 ganolfan.
- Bydd y Cyngor yn asesu dyfodol tymor hir y 4 canolfan, a bydd y penderfyniad yn gysylltiedig ag anghenion cymunedau, y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a'r cyllid sydd ar gael.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Y strategaeth tymor hir yw gweithio er mwyn cael cyllid grant i wneud gwaith adnewyddu neu ail-adeiladu y canolfannau.
- Mae'r Cyngor eisoes wedi dechrau uwchraddio Canolfan Hamdden Plas Arthur, gan ddefnyddio £1.5m o arian wrth gefn clustnodedig (a gynhyrchwyd o ad-daliad TAW a gwerthu Cwrs Golff Llangefni) i'w defnyddio fel cyllid cyfatebol ar gyfer cyllid grant allanol.



# Rheoli Gwastraff

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Rhaid i'r Cyngor gynnal gwasanaethau 'busnes fel arfer' diogel a chydymffurfio â newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol / cwrdd â thargedau, e.e. y targed i ailgylchu 70% o wastraff cartref.
- Mae'r buddsoddiad cyfalaf dros y 6 mlynedd nesaf oddeutu £45.1m, yn cynnwys:-
  - Adnewyddu asedau busnes fel arfer, gan gynnwys amnewid fflyd - £11.0m;
  - Newidiadau i'r gwasanaeth ailgylchu / casglu gwastraff i gwrdd â thargedau - £21.3m (gyda buddsoddidad pellach mewn fflyd ychwanegol);
  - Newidiadau isadeiledd i gefnogi newidiadau gwasanaeth i gwrdd â thargedau statudol - £4.7m;
  - Datgarboneiddoi'r fflyd ac offer - £8.0m.



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Mae Cynllun Strategol y Cyngor, sydd newydd ei fabwysiadu, ar gyfer Adnoddau ac Ailgylchu yn nodi pedwar blaenoriaeth allweddol i sicrhau bod gwasanaethau 'busnes fel arfer' yn cael eu cynnal a'u gwella i gwrdd â gofynion cyfreithiol / targedau'r dyfodol. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda nifer o chydranddeiliaid i wella ei gyfraddau ailgylchu i gwrdd â thargedau statudol, ond bydd rhaid buddsoddi yn ein canolfannau hailgylchu, offer, peiriannau a cherbydau cyfredol er mwyn cyflawni hyn.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Mae'r Cyngor yn disgwyl derbyn tua £8m gan DEFRA trwy'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am Ddeunydd Pecynnu (pEPR), a bydd hyn yn cael ei ddefnyddio fel cyllid uniongyrchol neu fel cyllid cyfatebol i unrhyw gyllid grant a allai gael ei sicrhau.
- Bydd rhaid cynnal unrhyw gyllid ychwanegol trwy fenthyca digefnogaeth.

# Cyflawni Sero Net

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae LIC wedi gosod targed i'r Cyngor fod yn sero net erbyn 2030.
- Mae'r Cyngor wedi adnabod nad yw'n bosib cyflawni'r targed yma o ystyried yr adnoddau sydd ar gael a'r amser sydd ar ôl.
- Rhaid i brosiectau cyfalaf ystyried targedau carbon sero net.






## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Er mwyn cyflawni'r targed o sero net, bydd angen buddsoddi'n sylweddol yn:-
  - Adeiladau'r Cyngor - er mwyn lleihau'r defnydd o ynni ac i newid i ffynonellau ynni sy'n garbon niwtral;
  - Cerbydau - troi oddi wrth gerbydau petrol a disel;
  - Tai Cyngor – trosi pob eiddo i fod yn garbon niwtral lle bo'n bosibl / hyfyw;
  - Teithio cynaliadwy;
  - Datblygu isadeiledd gwefru cerbydau trydan;
  - Gwella bioamrywiaeth ar dir y Cyngor;
  - Sicrhau bod yr holl adeiladau newydd wedi'u dylunio i fod yn garbon niwtral.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol, ac nid oes gan y Cyngor unrhyw gyllid craidd ar gyfer cyflawni'r amcan hwn.
- Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu prosiectau a gwneud bid am gyllid grant a all ddarparu prosiectau pan dderbynnir y cyllid grant.
- Bydd y Cyfrif Refeniw Tai yn darparu cyllid er mwyn symud tuag at ddarparu stoc dai'r Cyngor sy'n carbon niwtral.

# Rhaglen Amddiffyn Rhag Llifogydd

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae'r Cyngor wedi adnabod nifer o ardaloedd lle mae angen gwella amddiffyn rhag llifogydd.



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Ar hyn o bryd, mae LlC yn cyllido 85% o'r gost cyfalaf ar gyfer gwaith amddiffyn rhag llifogydd drwy grantiau. Darperir y 15% sy'n weddill gan y Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd angen buddsoddi oddeutu £2m bob blwyddyn mewn gwaith amddiffyn rhag llifogydd yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Golyga hyn y bydd yn rhaid i'r Cyngor ddarparu cyllid cyfatebol o £300k bob blwyddyn.
- Oherwydd y cyllid grant sylweddol a ellir ei ddenu drwy ddyrannu cyllid cyfatebol, bydd y strategaeth yn parhau i flaenoriaethu'r broses o ddyrannu cyllid cyfatebol o fewn y rhaglen gyfalaf.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Blaenoriaethu darparu cyllid cyfatebol er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyllid grant a ddarperir gan LlC.
- Blaenoriaethu gwariant ar gynlluniau sy'n amddiffyn y nifer uchaf o eiddo ar gyfer pob punt sy'n cael ei gwario .

# Cyllid Grant gan Lywodraeth y DU

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Sicrhau bod Ynys Môn yn dal i elwa o'r cyllid grant sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sydd wedi cymryd lle cyllid grant yr UE.
- Sicrhau ein bod ni'n parhau i fuddsoddi mewn prosiectau sy'n darparu buddion i drigolion a chymunedau Ynys Môn.





## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Mae Llywodraeth y DU wedi disodli'r cyllid grant blaenorol gan yr UE gyda chyllid grant lleol a rhanbarthol ychwanegol – sef, ar hyn o bryd, y Gronfa Ffyniant Bro, y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Chynllun Twf Gogledd Cymru.
- Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid rhanbarthol a lleol i wneud bid am gyllid er mwyn cwblhau prosiectau sy'n gwella'r isadeiledd leol a'r economi leol.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Asesir y broses o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor fel cyllid cyfatebol ar sail achos fesul achos, gan ystyried pwysigrwydd y prosiect ar gyfer Ynys Môn a Gogledd Cymru, y buddion posibl sy'n deillio o gwblhau'r prosiect a'r cydbwysedd rhwng cyllid cyfatebol a chyllid grant.
- Oni bai am yr ymrwymiadau presennol, nid oes unrhyw ymrwymiadau cyllid cyfatebol newydd wedi'u gwneud ar gyfer y cyfnod rhwng 2026 a 2030.



# Isadeiledd ac Offer TG mewn Ysgolion

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae’r ffordd y mae ysgolion yn darparu addysg wedi newid, ac mae TG yn chwarae mwy o ran yn y ddarpariaeth addysg ac o ran rheoli ysgolion.
- Mae buddsoddi mewn isadeiledd ac offer TG ar gyfer disgyblion yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ysgolion yn parhau i wella a moderneiddio’r ddarpariaeth addysg.





## Beth fyddwn ni’n ei wneud?

- Mae’r Cyngor wedi derbyn cyllid gan LlC drwy gynllun Grant HWB. Mae hyn wedi caniatau diweddaru isadeiledd TG mewn ysgolion a phrynu dyfeisiau ar gyfer disgyblion unigol.
- Mae amod y grant HWB yn gofyn fod y Cyngor yn ymrwymo i ddisodli’r offer a brynwyd drwy’r grant pan ddaw i ddiwedd ei oes defnyddiol. Bydd angen oddeutu £4.6m o wariant erbyn 2030/31 i wneud hyn, a bydd angen buddsoddiad sylweddol pellach yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.
- Mae’r Cyngor hefo £0.9m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig er mwyn cyllido peth o’r gost, a bwriadwyd gwneud cyfraniad blynyddol o £220k o’r gyllideb refeniw bob blwyddyn er mwyn cynyddu lefel y gronfa wrth gefn yma.

## Sut fyddwn ni’n gwneud hyn?

- Datblygu cytundeb lefel gwasanaeth gweithredol rhwng chydranddeiliaid i gyllido’r buddsoddiad angenrheidiol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.
- Edrych ar opsiynau amgen i gyllido’r buddsoddiad angenrheidiol.



# Eiddo Buddsoddi

## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae gan y Cyngor nifer o eiddo sy'n cael eu gosod ar sail fasnachol ac sy'n cynhyrchu incwm blynyddol ar gyfer y Cyngor. Maent yn cynnwys unedau diwydiannol, swyddfeydd, unedau manwerthu a mân-ddaliadau.
- Mae'r eiddo yma'n darparu llety gwerthfawr i gefnogi busnesau lleol ac maent yn ein galluogi i barhau i fuddsoddi yn yr economi leol.

Tudalen 67



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?


- Mae'r Cyngor wedi dilyn strategaeth o ddatblygu unedau newydd drwy gyllid grant, yn bennaf gan yr UE a LlC. Mae enghreifftiau diweddar o ddatblygiadau yn cynnwys unedau newydd ym Mhenrhos, Caergybi, ac unedau yn Ystâd Ddiwydiannol Bryn Cefni.
- Ceisio datblygu unedau newydd yng Ngogledd Ynys Môn a Llangefni, gydag amcangyfrif o fuddsoddiad o £12m, ond nid yw cyllid wedi'i sicrhau eto.
- Rhwng 2010 a 2015, cafwyd gwared ar nifer o fân-ddaliadau, ac fe unwyd tir er mwyn creu unedau mwy o ran maint a hyfywedd. Ail-fuddsoddwyd y derbyniadau cyfalaf o werthiant yr eiddo hyn er mwyn diweddaru'r eiddo a oedd yn weddill. Fodd bynnag, nid yw'r ffynhonnell hon o gyllid ar gael bellach.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Mae Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor yn nodi'n bwriad ar gyfer ein gwahanol ystadau a math o asedau, a bydd hyn yn cael ei fwydo i mewn i'r gyllideb gyfalaf.
- Byddai'n rhaid i'r Cyngor ddefnyddio ei gyllid cyfalaf craidd er mwyn buddsoddi yn yr eiddo hyn, yn ogystal ag unrhyw gyllid grant daw ar gael neu fenthyca digefnogaeth.



# Tai Cymdeithasol a Fforddiadwy



## Pam fod hyn yn bwysig?

- Mae'r Cyngor yn darparu tai ar gyfer oddeutu 4,000 o denantiaid ar hyn o bryd, ac mae'n darparu llety fforddiadwy i drigolion mwyaf bregus Ynys Môn.
- Mae'r galw am lety rhent isel, fforddiadwy o safon ar Ynys Môn yn parhau i gynyddu. Mae'n rhaid i'r Cyngor barhau i fuddsoddi yn ei stoc dai presennol a chynyddu'r stoc hwnnw er mwyn parhau i gwrdd â'r galw cynyddol.

Tudalen 68



## Beth fyddwn ni'n ei wneud?

- Parhau i ddatblygu, neu ail-brynu, 45 uned bob blwyddyn ac, yn ogystal, buddsoddi yn y ddarpariaeth gofal ychwanegol newydd, gydag uned 40 gwely a gynllunir i'w agor yn 2030/31.
- Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i fuddsoddi yn ei stoc bresennol er mwyn sicrhau bod eiddo'n parhau i gynnal safon SATC, a bod unrhyw waith i ddiweddaru eiddo nad ydynt wedi'u diweddaru hyd yma yn digwydd pan fydd yr eiddo ar gael.

## Sut fyddwn ni'n gwneud hyn?

- Defnyddio asedau ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) i gyllido'r buddsoddiad sydd ei angen.
- Mae'r CRT yn gyfrif sydd wedi'i glustnodi. Cyllidir gwariant cyfalaf drwy'r warged blynyddol a gyflawnir drwy'r cyfrif refeniw, y grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr a dderbynnir gan LIC, balansau cronfeydd wrth gefn presennol y CRT a drwy fenthyca digefnogaeth.
- Mae'n rhaid i unrhyw ddatblygiad newydd gwblhau 3 prif brawf ariannol cyn ei roi ar waith. Mae hyn yn sicrhau fod unrhyw fenthyciad yn fforddiadwy a bod modd ei gyllido drwy incwm rhentu yn y dyfodol.
- Mae Cynllun Busnes 30 mlynedd y CRT yn amcanu y bydd £67m yn cael ei fuddsoddi yn y stoc bresennol a bydd £60m yn cael ei fuddsoddi yn natblygiad eiddo newydd yn ystod y 5 mlynedd nesaf.
- Mae'r Cynllun Busnes wedi gosod cap ar fenthyca, sef 6.5 gwaith swm yr incwm rhent.

# Crynodeb o Wariant Cyfalaf 2026/27 hyd at 2030/31

| | Achos Sylfaen £'m | Uchelgeisiol £'m | Delfrydol £'m |
|---|---|---|---|
| Cynnal a Chadw Asedau Presennol | 32.45 | 41.06 | 59.20 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy | 0.00 | 96.70 | 96.70 |
| Gwelliannau i Gyfleusterau Hamdden | 2.15 | 18.15 | 22.15 |
| Rheoli Gwastraff | 8.69 | 15.43 | 44.22 |
| Cyflawni Sero Net | 0.00 | 4.00 | 10.00 |
| Rhaglen Amddiffyn rhag Llifogydd | 0.03 | 4.03 | 8.03 |
| Isadeiledd / Offer TG mewn Ysgolion | 2.08 | 3.02 | 3.63 |
| Eiddo Buddsoddi | 12.65 | 12.65 | 18.65 |
| Cyfrif Refeniw Tai | 101.27 | 159.53 | 164.59 |
| **CYFANSWM Y GWARIANT** | **159.32** | **354.57** | **427.17** |



- Mae'r Achos Sylfaen yn defnyddio'r cyllid sydd wedi'i sicrhau y gwyddys amdano. Mae'r senario Delfrydol yn cyfeirio at y buddsoddiad sydd ei angen er mwyn cyflawni holl amcanion y Cyngor, a dwyn ynghyd yr holl asedau presennol i gyflwr derbyniol.
- Mae'r senario Uchelgeisiol yn defnyddio lefel o fenthyca digefnogaeth a all fod yn fforddiadwy os, a phryd, fydd sefyllfa cyllideb refeniw'r Cyngor yn gwella.
- Gall cyllid grant, pan fydd wedi'i sicrhau, ganiatáu i'r Cyngor ddisodli benthyciadau â grantiau a chaniatáu iddo symud o'r Achos Sylfaen i'r Uchelgeisiol ar gost refeniw is, neu ganiatáu iddo symud o'r senario Uchelgeisiol i'r un Delfrydol.
- Mae'n bosib y bydd cyllid grant arall hefyd ar gael ar gyfer prosiectau eraill, a byddant yn cael eu cynnwys yn y gyllideb gyfalaf pan fydd y cyllid hwnnw wedi cael ei sicrhau ac, felly, maent wedi'u hepgor o'r tabl hwn.

# Crynodeb ar Gyllido Gwariant Cyfalaf 2026/27 hyd at 2030/31

| | Achos Sylfaen £'m | Uchelgeisiol £'m | Delfrydol £'m |
|---|---|---|---|
| Benthyca â Chefnogaeth | 12.21 | 12.21 | 12.21 |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 13.96 | 13.96 | 13.96 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Benthyca â Chefnogaeth | 0.00 | 8.19 | 8.19 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Benthyca Digefnogaeth | 0.00 | 4.03 | 4.03 |
| Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Grant Llywodraeth Cymru | 0.00 | 6.58 | 6.58 |
| Cyllid Model Buddsoddi ar y Cyd (MIM) | 0.00 | 77.90 | 77.90 |
| Grantiau Eraill gan Lywodraeth Cymru | 12.65 | 31.28 | 68.57 |
| Grantiau Ail-gylchu Gwastraff | 7.70 | 7.70 | 7.70 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 0.00 | 0.80 | 0.80 |
| Cronfeydd wrth gefn Clustnodedig | 4.85 | 4.98 | 5.04 |
| Cyfranid Refeniw – Gronfa Cyffredinol | 6.08 | 7.29 | 7.88 |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr y CRT | 13.46 | 13.46 | 13.46 |
| Grantiau Eraill y CRT | 26.07 | 46.70 | 48.16 |
| Cronfeydd Wrth Gefn a Gwarged Blynyddol y CRT | 34.15 | 25.48 | 25.48 |
| Benthyca Digefnogaeth – Cronfa Gyffredinol | 0.60 | 20.12 | 49.71 |
| Benthyca Digefnogaeth – CRT | 27.59 | 73.89 | 77.50 |
| **CYFANSWM Y CYLLID** | **159.32** | **354.57** | **427.17** |

# Effaith Gwariant Cyfalaf ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC) a Benthyca Allanol

| | Achos Sylfaen | | Uchelgeisiol | | Delfrydol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | GCC £'m | Benthyca £'m | GCC £'m | Benthyca £'m | GCC £'m | Benthyca £'m |
| 2026/27 | 161.31 | 124.24 | 161.31 | 124.24 | 161.31 | 124.24 |
| 2027/28 | 180.69 | 144.92 | 182.90 | 147.17 | 184.24 | 148.54 |
| 2028/29 | 200.87 | 165.91 | 206.93 | 172.12 | 216.53 | 181.90 |
| 2029/30 | 210.93 | 175.22 | 225.03 | 194.37 | 241.59 | 211.40 |
| 2030/31 | 222.91 | 182.84 | 248.50 | 220.17 | 273.50 | 246.11 |

- Mae effaith yr uchod ar derfyn awdurdodedig a ffin weithredol y Cyngor wedi'i nodi yn Natganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor.

# Goblygiadau Refeniw o Wariant Cyfalaf – Cronfa Gyffredinol

| | | Achos Sylfaen | | Uchelgeisiol | | Delfrydydol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwariant Refeniw Net (GRN) Amcangyfrifedig £'m | DRI a Llog £'m | DRI a Llog i GRN % | DRI a Llog £'m | DRI a Llog i GRN % | DRI a Llog £'m | DRI a Llog i GRN % |
| 2026/27 | 207.02 | 6.55 | 3.17% | 6.55 | 3.17% | 6.55 | 3.17% |
| 2027/28 | 212.20 | 6.74 | 3.18% | 6.90 | 3.25% | 7.02 | 3.31% |
| 2028/29 | 216.44 | 6.89 | 3.18% | 7.30 | 3.37% | 7.82 | 3.61% |
| 2029/30 | 220.77 | 6.95 | 3.15% | 7.87 | 3.56% | 8.82 | 3.99% |
| 2030/31 | 225.19 | 7.09 | 3.15% | 8.70 | 3.86% | 10.16 | 4.51% |

- Tybir y bydd y gwariant refeniw net yn cynyddu 2.5% bob blwyddyn o 2027/28, gan ddisgyn i 2% erbyn 2028/29.
- Mae'r DRI yn cael ei gyfrifo ar sail Polisi DRI cyfredol y Cyngor – gweler y Datganiad Strategaeth Rheoli 'r Trysorlys
- Ni fyddai'r costau DRI a Llog ychwanegol yn cael eu cyllido drwy CAC a byddai angen cynnydd yn y Dreth Gyngor i'w gyllido.
- Gan ystyried fod y Cyngor wedi mabwysiadu'r dull blwydd-dal i gyfrifo'r ffi DRI, mae'r ffi DRI yn cynyddu'n flynyddol, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar y Dreth Gyngor i gyllido'r costau refeniw blynyddol ychwanegol.

# Goblygiadau Refeniw o Wariant Cyfalaf – Cyfrif Refeniw Tai

| | Achos Sylfaen | | | Uchelgeisiol | | | Delfrydol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amcangyfrif Incwm Rhent Net (IRhN) £'m | DRI & Llog £'m | DRI & Llog i IRhN % | Amcangyfrif IRhN £'m | DRI & Llog £'m | DRI & Llog i IRhN % | Amcangyfrif IRhN £'m | DRI & Llog £'m | DRI & Llog i IRhN % |
| 2026/27 | 24.06 | 2.38 | 9.88% | 24.06 | 2.38 | 9.88% | 24.04 | 2.38 | 9.88% |
| 2027/28 | 25.22 | 3.58 | 14.17% | 25.22 | 3.58 | 14.17% | 25.30 | 3.55 | 14.04% |
| 2028/29 | 26.75 | 4.78 | 17.68% | 27.02 | 4.78 | 17.68% | 27.11 | 4.88 | 18.00% |
| 2029/30 | 27.31 | 5.28 | 19.35% | 27.86 | 5.49 | 19.70% | 27.97 | 5.63 | 20.12% |
| 2030/31 | 28.41 | 5.75 | 20.24% | 29.27 | 6.23 | 21.28% | 29.38 | 6.39 | 21.74% |

- Mae'r incwm rhent net yn unol â'r Cynllun Busnes CRT.
- Mae'r DRI yn cael ei gyfrifo ar sail Polisi DRI cyfredol y Cyngor – gweler y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- Gan ystyried fod y Cyngor wedi mabwysiadu'r dull blwydd-dal i gyfrifo'r ffi DRI, mae'r ffi DRI yn cynyddu'n flynyddol, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar y Dreth Gyngor i gyllido'r costau refeniw blynyddol ychwanegol.

# Blaenoriaethu Gwariant Cyfalaf a Gosod Cyllidebau Cyfalaf Blynyddol

- Bydd cyllidebau blynyddol yn cael eu gosod i gynnal asedau presennol, a bydd y gyllideb yn ddibynnol ar y cyllid sydd ar gael drwy'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthyca â Chefnogaeth.
- Bydd y gwasanaethau'n cael eu gwahodd i gyflwyno bid am gyllid ar gyfer prosiectau un tro. Bydd y bidiau'n cael eu hasesu o ran:-
    - Y modd y maent yn cyfrannu at yr amcanion yng Nghynllun y Cyngor;
    - A ydynt yn cyfrannu at liniaru unrhyw un o risgiau corfforaethol y Cyngor;
    - Effaith y prosiect ar fuddsoddi cyfalaf yn y dyfodol;
    - Effaith y prosiect ar gostau refeniw yn y dyfodol, h.y. fydd costau refeniw'n cynyddu ta'n gostwng;
    - A fydd y prosiect yn cael ei gyllido'n rhannol drwy gyllid grant ac, os felly, faint.
- Mae'r cyllidebau Cyfalaf ar gyfer y rhaglen Cymunedau Dysgu a'r Cyfrif Refeniw Tai yn cael eu llunio y tu allan i'r broses hon.

# Monitro a Rheoli Gwariant a Benthyca Cyfalaf

Mae Gwariant Cyfalaf a'r benthyciadau perthnasol yn cael eu monitro a'u rheoli gan y Cyngor, fel a ganlyn:-

- Y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Benthyca Darbodus - yn cael eu sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn cael eu cynnig gan y Pwyllgor Gwaith a'u cymeradwyo gan y Cyngor llawn;
- Cyflwynir adroddiadau rheoli'r trysorlys blynyddol a bob hanner blwyddyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn;
- Cyflwynir adroddiadau Monitro Gwariant Cyfalaf Chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith a'r Panel Sgriwtini Cyllid;
- Cynigir Cyllideb Cyfalaf Blynyddol gan y Pwyllgor Gwaith ac fe'i cymeradwyir gan y Cyngor llawn.



Mae'r cyfrifoldeb ar gyfer y swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys o fewn y Cyngor yn eistedd gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, a gefnogir gan weithwyr cyllid proffesiynol, cymwys a phrofiadol, gan gynnwys y Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg, Rheolwr Cyllid a Chyfrifydd Cyfalaf.

Mae'r Cyngor hefyd yn cyflogi MUFG Corporate Markets Treasury Limited i ddarparu cyngor arbenigol ar reoli'r trysorlys.

Mae Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ar reoli'r trysorlys sy'n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau.

# Strategaeth Buddsoddi Rheoli'r Trysorlys

- Mae Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor wedi ei nodi yn y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys Blynyddol, ond fe'i crynhoir fel a ganlyn:-
  - Mae arian dros ben yn cael ei fuddsoddi gyda sefydliadau ariannol sydd â'r statws credyd uchaf, fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.
  - Mae buddsoddiadau'n cael eu gwneud drwy sicrhau'r egwyddorion diogelwch, hylifedd ac elw, yn y drefn honno. Nid yw buddsoddiadau'n cael eu gwneud er mwyn sicrhau'r elw mwyaf yn unig. Adroddir ar fuddsoddiadau'n chwarterol drwy'r adroddiadau diweddaru Rheoli'r Trysorlys.
  - Ni fydd buddsoddiadau ariannol yn cael eu cyllido drwy fenthyca ychwanegol.
  - Bydd y Cyngor yn cadw isafswm balansau arian parod sy'n cyfateb i'r lefel gytunedig o falansau cyffredinol, sydd ar hyn o bryd yn 5% o gyllideb gwariant refeniw net y Cyngor, sy'n £10.35m ar gyfer 2026/27.
  - Mae gan y Cyngor nifer o fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai rheoli'r trysorlys ar ffurf eiddo buddsoddi (eiddo manwerthu, swyddfeydd ac unedau masnachol) sy'n cynhyrchu incwm rhent blynyddol, er nad yw'r incwm a gynhyrchir yn sylweddol yn nhermau incwm blynyddol cyffredinol y Cyngor. Nid oes bwriad i werthu'r eiddo hyn yn y dyfodol agos.
  - Bydd y Cyngor yn cymryd mantais o unrhyw gyllid grant sydd ar gael iddo er mwyn datblygu mwy o eiddo buddsoddi, ond ni chymerir unrhyw fenthyca sylweddol ychwanegol er mwyn datblygu rhagor o unedau.

# Risgiau o ran Cyflawni'r Strategaeth Gyfalaf a'r Gyllideb Cyfalaf




Tudalen 77

# Crynodeb o'r Canfyddiadau

- Mae gofyniad cyfalaf y Cyngor i foderneiddio a diweddaru asedau presennol ac i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol yn fwy na £425m dros y 5 mlynedd nesaf, ac mae gallu'r Cyngor i gyflawni wedi'i gyfyngu oherwydd diffyg cyllid sydd heb ei neilltuo gan lywodraeth ganolog.
- Mae gallu'r Cyngor i ymgymryd â benthyca digefnogaeth, yn unol â gofynion y Côd Darbodus, wedi'i gyfyngu ar sail fforddiadwyedd, gan y byddai'n gosod cost annerbyniol ar dreth dalwyr yn y dyfodol.
- Mae'r isafswm cyllid sydd ar gael drwy fenthyca â chefnogaeth a'r grant cyfalaf cyffredinol yn annigonol er mwyn cyllido'r isafswm sydd ei angen i gynnal asedau presennol y Cyngor i lefel sy'n galluogi'r asedau hynny i gael eu gweithredu'n ddiogel ac effeithiol.
- Er mwyn cyflawni ei amcanion corfforaethol, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau cyllid grant ychwanegol, ond efallai na fydd hyn yn ddigonol er mwyn galluogi'r Cyngor i symud ymlaen tuag at gyflawni ei amcanion.
- Er mwyn symud o'r sefyllfa isaf, mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried ymgymryd â benthyca digefnogaeth cyfyngedig, ond mae'n rhaid i hyn fod ar lefel fforddiadwy, gan ystyried yr heriau ariannol presennol sy'n wynebu'r Cyngor.
- Efallai y bydd ffactorau allanol, megis deddfwriaeth newydd neu addasedig, lefelau perfformiad newydd neu'r angen i osgoi methiannau gwasanaeth, yn dwysau'r angen i symud o'r sefyllfa isaf yn gynt na'r hyn a ystyrir yn ddymunol neu fforddiadwy.
- Gellir osgoi buddsoddiad cyfalaf ychwanegol drwy resymoli asedau ac ymestyn bywyd asedau presennol.
- Rhoddir blaenoriaeth i gyllido'r prosiectau hynny sy'n cyflawni prif flaenoriaethau'r Cyngor orau, e.e. y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.
- Darperir cyllid cyfatebol lle mae'r prosiect yn cael ei gyllido'n bennaf gan grantiau allanol ac os yw'r prosiect yn unol ag amcanion corfforaethol y Cyngor.
- Bydd prosiectau'r CRT yn parhau i gael eu hasesu ar wahân i brosiectau Cronfa'r Cyngor.

# Atodiad 1 – Rhagdybiaethau Gwariant

| Categori Cyllideb Cyfalaf | Cyllidir Gan | Achos Sylfaen £'m | Uchelgeisiol £'m | Delfrydol £'m |
|---|---|---|---|---|
| Cynnal Asedau – Ysgolion | Benthyca â Chefnogaeth a Grant Cyfalaf Cyffredinol | Cyllideb Cychwynnol o £900k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £1.0m wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £1.0m wedi cynyddu gan chwyddiant |
| Cynnal Asedau – Adeiladau Eraill y Cyngor | Benthyca â Chefnogaeth a Grant Cyfalaf Cyffredinol | Cyllideb Cychwynnol o £334k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £600k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £900k wedi cynyddu gan chwyddiant |
| Cynnal Asedau - Cerbydau | Benthyca â Chefnogaeth a Grant Cyfalaf Cyffredinol | Cyllideb Cychwynnol o £350k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £550k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £550k wedi cynyddu gan chwyddiant |
| Cynnal Asedau – Offer T.G. | Benthyca â Chefnogaeth a Grant Cyfalaf Cyffredinol | Cyllideb Cychwynnol o £433k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £433k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £500k wedi cynyddu gan chwyddiant |
| Cynnal a Chadw Ffyrdd | Benthyca â Chefnogaeth a Grant Cyfalaf Cyffredinol | Cyllideb Cychwynnol o £1.7m wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £2.0m wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £2.5m wedi cynyddu gan chwyddiant |
| Grantiau a Benthyciadau Tai | Premium y Dreth Gyngor | Cyllideb Cychwynnol o £1.0m wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £1.0m wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £1.0m wedi cynyddu gan chwyddiant |
| Grantiau Cyfleusterau Anabl | Benthyca â Chefnogaeth a Grant Cyfalaf Cyffredinol | Cyllideb Cychwynnol o £900k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £900k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £1.0m wedi cynyddu gan chwyddiant |
| Rhaglen Moderneiddio Ysgolion | Grantiau LlC a Benthyca â Chefnogaeth, Benthyca Digefnogaeth, Cyllid Model Buddsoddi ar y Cyd (MIM) | Dim cynlluniau | Ysgol Uwchradd Newydd yng Nghaergybi, Adnewyddu Ysgolion Cynradd ac Uwchradd (fel mae cyllid gan LlC yn caniatau) | Ysgol Uwchradd Newydd yng Nghaergybi, Adnewyddu Ysgolion Cynradd ac Uwchradd (fel mae arian gan LlC yn caniatau) |
| Amnewid Offer TG Ysgolion | Cyfraniad o'r Gyllideb Refeniw, Balansau Ysgolion a Cronfa Wrth Gefn Clustnodedig | £1.4m yn 2027/28 a £220k ym mhob blwyddyn dilynol | £3.3m erbyn 2030/31 | £4.6m erbyn 2030/31 |

# Atodiad 1 – Rhagdybiaethau Gwariant

| Categori Cyllideb Cyfalaf | Cyllidir Gan | Achos Sylfaen £'m | Uchelgeisiol £'m | Delfrydol £'m |
|---|---|---|---|---|
| Ôl-groniad cynnal a chadw – Swyddfeydd y Cyngor | Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig a Benthyca Digefnogaeth | £230k o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig yn 2026/27 | £230k o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig yn 2026/27, £250k y flwyddyn ar ôl 2026/27 | £230k o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig yn 2026/27, £250k y flwyddyn ar ôl 2026/27 |
| Ôl-groniad cynnal a chadw – Cartrefi a Chanolfanau Dydd Gwasanaethau Cymdeithasol | Benthyca Digefnogaeth | £95k o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig yn 2026/27 | £95k o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig yn 2026/27. £1.2m erbyn 2030/31 | £95k o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig yn 2026/27. £3.5m erbyn 2030/31 |
| Ôl-groniad cynnal a chadw – Llyfrgelloedd, Archifau a'r Oriel | Benthyca Digefnogaeth | £0 | £200k erbyn 2030/31 | £250k erbyn 2030/31 |
| Ôl-groniad cynnal a chadw – Ysgolion | Benthyca Digefnogaeth | £0 | £300k y flwyddyn | £2.6m y flwyddyn |
| Ôl-groniad cynnal a chadw – Unedau Diwydiannol a Busnes | Benthyca Digefnogaeth | £0 | £100k y flwyddyn am 5 mlynedd | £100k y flwyddyn am 5 mlynedd |
| Ôl-groniad cynnal a chadw – Man-ddaliadau | Gwarged Refeniw | £0 | £100k y flwyddyn | £230k y flwyddyn |
| Safle Sipsiwn a Theithwyr | 100% Grant LlC | £0 | £1.2m erbyn 2028/29 | £1.2m erbyn 2028/29 |
| Isadeiledd Trafnidiaeth Cyhoeddus | 100% Grant LlC | Dibynnol ar gyllid grant | Dibynnol ar gyllid grant | Dibynnol ar gyllid grant |
| Toiledau Cyhoeddus | Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig a Grant LlC | £280k o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig | £280k o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig | £280k o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig a £100k y flwyddyn |
| Prosiectau Carbon Net Sero | Grant LlC (90%) a Benthyca Digefnogaeth | £0 | £1.0m y flwyddyn | £2.5m y flwyddyn |

# Atodiad 1 – Rhagdybiaethau Gwariant

| Categori Cyllideb Cyfalaf | Cyllidir Gan | Achos Sylfaen £'m | Uchelgeisiol £'m | Delfrydol £'m |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun Gwella Hamdden | Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig, Cyllid Grant a Benthyca Digefnogaeth | Cwblhau adnewyddu Plas Arthur. £2.15m erbyn 2030/31 | Cwblhau adnewyddu Plas Arthur. Un Canolfan Hamdden newydd. £18.2m erbyn 2030/31 | Cwblhau adnewyddu Plas Arthur. Un Canolfan Hamdden Newydd ac adnewyddu 2 arall £22.0m erbyn 2030/31 |
| Cynllun Buddsoddi Datblygu Economaidd | Grant LlC a Benthyca Digefnogaeth | Buddsoddiad Porthladd Rhydd a prosiect Gogledd Ynys Môn | Buddsoddiad Porthladd Rhydd a prosiect Gogledd Ynys Môn | Buddsoddiad Porthladd Rhydd a prosiect Gogledd Ynys Môn ac £8.0m ar gyfer prosiectau newydd |
| Cynllun Rheoli Gwastraff | Grant DEFRA a Grant LlC (90%) | £8.7m erbyn 2029/30 | £15.4m erbyn 2030/31 | £44.2m erbyn 2030/31 |
| Cynlluniau Amddiffyn rhag Llifogydd | 85% Grant LlC a Benthyca â Chefnogaeth | £30k o gyllid cyfatebol o Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig | £1.0m y flwyddyn | £2.0m y flwyddyn |
| Cynnal a Chadw Cynlluniedig CRT a SATC | Cronfa wrth Gefn CRT, Gwarged Refeniw, Lwfans Atgyweiriadau Mawr a Benthyca Digefnogaeth | £67.0m erbyn 2030/31 | £67.0m erbyn 2030/31 | £67.0m erbyn 2030/31 |
| Datblygiadau Newydd CRT | Grant Tai Cymdeithasol, Grantiau LlC a Benthyca Digefnogaeth | Cynllun Gofal Ychwanegol Seiriol a Datblygiadau Ymrwymedig Eraill. £52.6m erbyn 2030/31 | Cynllun Gofal Ychwanegol Seiriol a Datblygiadau Eraill Cynlluniwyd. £90.0m erbyn 2030/31 | Cynllun Gofal Ychwanegol Seiriol a Datblygiadau Eraill Cynlluniwyd. £95.0m erbyn 2030/31 |
| Cerbydau CRT | Benthyca Digefnogaeth | Cyllideb Cychwynnol o £361k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £361k wedi cynyddu gan chwyddiant | Cyllideb Cychwynnol o £361k wedi cynyddu gan chwyddiant |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **27 IONAWR 2026** |
| **Pwnc:** | **Premiwm y Dreth Gyngor ar eiddo nad yw'n cael ei feddiannu ac sy'n sylweddol ddi-ddodrefn am gyfnod parhaus o 12 mis o leiaf (Eiddo Gwag Hirdymor) - Canlyniadau'r Ymgynghoriad** |
| **Deilydd Portffolio:** | **CYNG ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID & BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Ffôn:<br>E-bost: | **Llinos Mair Roberts**<br><br>01248 752651<br>LlinosRoberts5@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:**

**1.** Bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi canlyniad yr ymgynghoriad ar Bremiwm y Dreth Gyngor;

**1.2** Cymeradwyo Opsiwn 5 i'w weithredu o 1 Ebrill 2027 - Pennu lefel y premiwm yn seiliedig ar y cyfnod y mae'r eiddo wedi bod yn wag o'r dyddiad y daeth yn wag, ond gan ddechrau â phremiwm o 100%; a

**1.3** Bod y Pwyllgor Gwaith yn ystyried sut y dylid dyrannu'r incwm cysylltiedig yn unol â blaenoriaethau strategol y Cyngor.

**I'w drafod a'i gadarnhau yn y Cyfarfod Busnes o'r Pwyllgor Gwaith.**

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae'r opsiynau a ystyriwyd yn cael eu trafod yn Atodiad 1 yn yr adroddiad. Gan ystyried adborth yr ymgynghoriad, fforddiadwyedd a'r gallu i gyflawni, ystyrir mai Opsiwn 5 yw'r opsiwn mwyaf addas.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae gosod lefel premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer 2026/27 ar gyfer eiddo nad yw'n cael ei feddiannu ac sydd heb fawr o ddodrefn am gyfnod parhaus o 12 mis o leiaf, yn rhan o gyllideb arfaethedig cyffredinol y Pwyllgor Gwaith, fydd yn cael ei gytuno gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2026 ac yn destun pleidlais gan y Cyngor llawn ym mis Mawrth 2026.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ddim yn berthnasol

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ni fydd y penderfyniad, er y caiff effaith ar gyllideb 2026/27, yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol nac yn creu unrhyw incwm ychwanegol yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26. O ganlyniad, ni fydd y penderfyniad yn cael effaith ar y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gyfer 2025/26.

| DD – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys? | Bydd y penderfyniad yn cynyddu lefel y cyllid a gynhyrchir trwy'r premiwm, a gellir ei ddefnyddio i ddarparu cymorth ariannol i drigolion lleol brynu eu cartref cyntaf a darparu cyllid fydd yn caniatáu i'r Cyngor fynd i'r afael â materion eraill sy'n cael effaith ar yr Ynys. |
| 2 | A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Mae nifer yr eiddo gwag hirdymor ar yr Ynys yn cael effaith andwyol ar y cyflenwad eiddo sydd ar gael i bobl leol eu rhentu neu eu prynu. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau statudol y Cyngor, a Gwasanaethau Tai yn arbennig. |
| 3 | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy | Bu'r Cyngor yn gweithio gyda chynghorau eraill yng Nghymru sy'n gweld cynnydd yn nifer yr eiddo gwag hirdymor a heriau ychwanegol oherwydd y galw am dai, er mwyn canfod atebion i'r broblem. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion ymgynghoriad eang a gynhaliwyd, a oedd yn agored i ddinasyddion Ynys Môn yn ogystal â pherchnogion eiddo gwag hirdymor. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Nid yw'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol ar unrhyw grwpiau sy'n cael eu gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2020. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Byddai codi'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cynyddu'r dreth gyngor flynyddol i berchnogion yr eiddo hynny. Nid yw'r grŵp hwn yn cael ei ystyried fel un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | |
| 2 | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | Bethan H Owen, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg, yn dirprwyo ar ran Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Ddim yn berthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Ddim yn berthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Ddim yn berthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad 1 – Adroddiad ar premiwm y Dreth Gyngor ar eiddo gwag hirdymor
- Atodiad 2 – Eithriadau rhag y premiwm ar eiddo gwag hirdymor

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

**1.1** Roedd Rhan 7, Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 yn diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac yn caniatáu i'r Cyngor gynyddu lefel y Dreth Gyngor ar eiddo gwag hirdymor, a gall y Cyngor bennu gwahanol gyfraddau ar gyfer gwahanol eiddo, yn ddibynnol ar y cyfnod y maent wedi bod yn eiddo gwag hirdymor. 100% oedd y premiwm uchaf y gellid ei godi yn wreiddiol ond, o 1 Ebrill 2023, penderfynodd Llywodraeth Cymru (LlC) godi'r ffigwr i 300%.

**1.2** Ym mis Mai 2025, roedd 805 o eiddo oedd wedi'u dynodi'n eiddo gwag hirdymor wedi eu cofnodi ar y system Dreth Gyngor. Mae'r eiddo wedi'u lleoli ar hyd a lled yr Ynys, ac mae tua 25% o'r holl eiddo gwag hirdymor yng Nghaergybi a rhwng 5% a 10% ym mhob un o'r canlynol - Amlwch, Biwmares, Llanfairpwll, Llangefni a Phorthaethwy. Mae'r gweddill mewn gwahanol bentrefi ar Ynys Môn.

**1.3** Mae'r eiddo yn y bandiau canlynol, fel y dangosir yn Nhabl 1 isod:-

**Tabl 1**
**Eiddo Gwag Hirdymor yn ôl Band y Dreth Gyngor ym mis Mai 2025**

| Band | Nifer Eiddo | % Eiddo |
|---|---|---|
| A | 139 | 17.3% |
| B | 152 | 18.9% |
| C | 145 | 18.0% |
| D | 171 | 21.2% |
| E | 109 | 13.6% |
| F | 59 | 7.3% |
| G | 22 | 2.7% |
| H | 5 | 0.6% |
| I | 3 | 0.4% |
| **Cyfanswm** | **805** | **100.0%** |

**1.4** Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn codi premiwm o 100% ar bob eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis. Mae rhai eiddo wedi'u heithrio rhag talu'r premiwm, fel a ganlyn:-

- Anheddau sy'n cael eu marchnata'n weithredol i'w gwerthu neu eu gosod - caniateir eithriad rhag y premiwm o 12 mis;
- Anecs sy'n ffurfio rhan o'r brif annedd, neu sy'n cael eu trin fel rhan o'r brif annedd;
- Anheddau a fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na baent yn preswylio yn llety lluoedd arfog;
- Anheddau y mae gwaith atgyweirio / strwythurol sylweddol yn cael ei wneud arno, cyn belled â bod y gwaith yn mynd rhagddo a lle mae'r eithriad dreth gyngor ar gyfer eiddo sydd angen gwaith atgyweirio mawr, neu sy'n cael ei wneud, er mwyn ei wneud yn addas i fyw ynddo wedi'i ddefnyddio'n llwyr, efallai y bydd modd gwneud cais am ryddhad dewisol o'r premiwm, lle bodlonir rhai amodau. Gellir ymestyn y cyfnod am 12 mis pellach os yw'r trethdalwr yn brynwr tro cyntaf sydd â chysylltiad lleol (yn unol â'r diffiniad yn y Polisi Rhyddhad Dewisol ar gyfer y Dreth Gyngor).

**1.5** O'r 805 eiddo, ym mis Mai 2025, roedd 589 eiddo yn talu'r premiwm, roedd 170 wedi bod yn wag am lai na blwyddyn ac nid fydd rhaid iddynt dalu'r premiwm hyd nes bydd y flwyddyn wedi dod i ben, roedd 44 eiddo wedi'u heithrio o'r premiwm (gwaith strwythurol, eiddo'n cael ei farchnata i'w werthu neu ei osod) ac roedd 2 wedi'u heithrio'n barhaol (rhandai).

**1.6** Gall y niferoedd newid yn ystod y flwyddyn wrth i drethdalwyr werthu neu osod eu heiddo ac wrth i eiddo newydd ddod yn wag yn ystod y flwyddyn.

**1.7** Yn seiliedig ar nifer yr eiddo gwag hirdymor ym mis Mai 2025, byddai'r premiwm wedi cynhyrchu £1.18m o incwm ychwanegol i'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'n debyg y byddai'r ffigwr gwirioneddol yn is gan y byddai rhai trethdalwyr yn gwerthu neu osod eu heiddo cyn i'r eithriad o'r premiwm o flwyddyn ddod i ben. Mewn cymhariaeth, cynhyrchodd y premiwm ar eiddo gwag hirdymor incwm o £906k yn 2024/25.

**1.8** Nid yw Deddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi sut y dylai'r Cyngor ddefnyddio'r incwm ychwanegol a gynhyrchir gan y premiwm, ond mae canllawiau a gyhoeddwyd gan LIC yn datgan:-

- "Bwriedir i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol godi premiwm fod yn adnodd i helpu awdurdodau lleol i:-
  - Sicrhau bod eiddo gwag hirdymor yn cael eu defnyddio unwaith eto er mwyn darparu cartrefi diogel a fforddiadwy; a
  - Helpu awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwneud cymunedau lleol yn fwy cynaliadwy."

**1.9** Nid yw'r premiwm yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau penodol, ond caiff ei ddefnyddio fel rhan o gyllid cyffredinol y Cyngor i ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'r gyllideb yn cynnwys prosiectau penodol na fyddai'n cael eu cyllido oni bai bod y premiwm yn cael ei godi. Mae hyn yn cynnwys £1m yn ystod 2025/26 i ddarparu grantiau a benthyciadau i brynwyr tro cyntaf.

## 2. CANLYNIADAU'R BROSES YMGYNGHORI

**2.1** Cytunodd y Pwyllgor Gwaith i gynnal ymgynghoriad llawn ar nifer o opsiynau mewn perthynas â'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor, er mwyn rhoi mwy o gymhelliant i drethdalwyr ddod ag eiddo'n ôl i ddefnydd trwy gynyddu'r gosb ariannol am gadw eiddo'n wag a heb ei feddiannu am gyfnod hir.

**2.2** Yr opsiynau oedd yn cael eu hystyried oedd:-

- **Opsiwn 1 - Dim newid**
  Cadw'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor ar ei lefel bresennol, sef 100%.
- **Opsiwn 2 - Cynyddu'r premiwm i 150% ar gyfer bob eiddo gwag hirdymor o Ebrill 2026**

  Byddai'r premiwm yn cynyddu i 150% ar gyfer pob eiddo sydd wedi bod yn wag am dros 12 mis ac sydd ddim yn gymwys i eithriad rhag y premiwm.
- **Opsiwn 3 - Pennu lefel y premiwm yn seiliedig ar y cyfnod y mae'r eiddo wedi bod yn wag o 1 Ebrill 2026**

  Gostwng y premiwm i 0% ar gyfer pob eiddo o Ebrill 2026 ac yna cynyddu'r premiwm yn seiliedig ar y cyfnod y mae'r eiddo wedi bod yn wag o Ebrill 2026. Byddai'r premiwm yn cael ei bennu fel a ganlyn:-

| Nifer o flynyddoedd yn wag o Ebrill 2026 | Premiwm a godir |
|---|---|
| Llai na blwyddyn | 0% |
| Rhwng 1 a 2 flynedd | 25% |
| Rhwng 2 a 3 blynedd | 50% |
| Rhwng 3 a 4 blynedd | 75% |
| Rhwng 4 a 5 mlynedd | 100% |
| Rhwng 5 a 6 mlynedd | 125% |
| Rhwng 6 a 7 mlynedd | 150% |
| Rhwng 7 a 8 mlynedd | 175% |
| Rhwng 8 a 9 mlynedd | 200% |
| Rhwng 9 a 10 mlynedd | 250% |
| Dros 10 mlynedd | 300% |

- **Opsiwn 4 - Pennu lefel y premiwm yn seiliedig ar y cyfnod y mae'r eiddo wedi bod yn wag o'r dyddiad y daeth yn wag**

  Byddai lefel gychwynnol y premiwm yn seiliedig ar y cyfnod y mae'r eiddo wedi bod yn wag, e.e. os ydi'r eiddo wedi bod yn wag ers 1 Ebrill 2021, byddai'r premiwm o 1 Ebrill 2026 yn 125% (yn seiliedig ar y premiymau sydd wedi'u nodi yn Opsiwn 3).

- **Opsiwn 5 - Pennu lefel y premiwm yn seiliedig ar y cyfnod y mae'r eiddo wedi bod yn wag o'r dyddiad y daeth yn wag, ond gan ddechrau â phremiwm o 100%**

  Byddai lefel gychwynnol y premiwm yn seiliedig ar y cyfnod y mae'r eiddo wedi bod yn wag. Byddai'r premiwm yn cael ei bennu fel a ganlyn:-


| Nifer o flynyddoedd yn wag o Ebrill 2026 | Premiwm a godir |
|---|---|
| Llai na 5 mlynedd | 100% |
| Rhwng 5 a 6 mlynedd | 125% |
| Rhwng 6 a 7 mlynedd | 150% |
| Rhwng 7 a 8 mlynedd | 175% |
| Rhwng 8 a 9 mlynedd | 200% |
| Rhwng 9 a 10 mlynedd | 250% |
| Dros 10 mlynedd | 300% |

**2.3** Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 29 Medi 2025 a daeth i ben ar 7 Tachwedd 2025. Derbyniwyd cyfanswm o 449 o ymatebion i'r ymgynghoriad, 136 wedi'u cwblhau'n rhannol a 313 wedi'u cwblhau'n llawn.


**2.4** Gofynnwyd i bob ymatebydd ddarparu eu côd post. O'r 313 oedd wedi darparu'r wybodaeth hon, roedd 288 (92.01%) yn byw ar Ynys Môn ac roedd prif gartref 25 (7.99%) tu allan i Ynys Môn.

**2.5** Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent berchen ar eiddo gwag hirdymor ar Ynys Môn. Roedd 55 (17.89%) yn berchen ar eiddo gwag hirdymor ar Ynys Môn ac nid oedd 257 (82.11%) yn berchen ar eiddo gwag hirdymor ar yr Ynys. Mae'r ffigwr yn awgrymu bod tua 7% o'r rhai sydd berchen eiddo gwag hirdymor ar hyn o bryd wedi ymateb i'r ymgynghoriad.

**2.6** Gofynnwyd i ymatebwyr ddisgrifio eu hamgylchiadau orau, ac ymatebodd 57 fel a ganlyn:-





**2.7** Gofynnodd yr ymgynghoriad i'r ymatebwyr pa effaith mae'r premiwm presennol yn ei gael ar nifer yr eiddo gwag hirdymor ar Ynys Môn yn eu barn nhw (313 wedi ymateb):-




**2.8** Mae'r ffigyrau yn y tabl uchod yn awgrymu fod dros hanner yr ymatebwyr o'r farn bod y premiwm naill ai'n annog neu'n gorfodi perchnogion eiddo gwag hirdymor i werthu neu osod eu heiddo.


**2.9** Gofynnodd yr ymgynghoriad wedyn pa opsiwn fydden nhw'n ei gefnogi er mwyn newid y premiwm (313 wedi ymateb):-




**2.10** Mae'r ffigyrau yn y tabl uchod yn awgrymu fod y mwyafrif helaeth yn cytuno y dylid codi premiwm sydd o leiaf ar yr un lefel â'r premiwm presennol, sef 100%, ac mae tua 48% o'r ymatebwyr yn cefnogi opsiynau 3, 4 a 5 sydd yn cynnig dull graddol o gynyddu'r premiwm.

**2.11** Pan ofynnwyd iddynt i ba ganran y bydden nhw'n gostwng y premiwm, roedd 91 wedi awgrymu cyfraddau amrywiol, ond roedd tua 27% yn awgrymu premiwm o 50%, a 46% yn awgrymu premiwm o 0%. Roedd sawl sylw yn awgrymu na ddylid codi premiwm gan nad yw eiddo gwag hirdymor yn defnyddio gwasanaethau lleol.


**2.12** Yna, gofynnodd yr ymgynghoriad beth fydden nhw'n ei wneud gyda'u heiddo gwag hirdymor pe byddai'r premiwm eiddo gwag hirdymor yn fwy na'r lefel presennol o 100% (55 wedi ymateb):-




**2.13** Mae'r tabl uchod yn awgrymu y byddai cynyddu'r premiwm yn annog / gorfodi perchnogion eiddo gwag hirdymor i werthu / gosod eu heiddo.


**2.14** Pan ofynnwyd iddynt pryd fydden nhw'n ystyried gwerthu neu osod eu heiddo pe byddai'r premiwm yn codi, derbyniwyd 28 ymateb a dywedodd 22 y byddent yn gwerthu neu'n gosod eu heiddo pe byddai'r premiwm yn codi i 125%, byddai 3 yn gwerthu neu'n gosod pe byddai'r premiwm yn codi i 150% a byddai 2 yn gwerthu neu'n gosod pe byddai'r premiwm yn codi i 200%.

**2.15** Rhoddwyd cyfle hefyd i ymatebwyr ddewis y datganiad orau oedd yn disgrifio eu barn ynglŷn â'r defnydd a wneir o'r premiwm (313 wedi ymateb):-



**2.16** Mae'r tabl uchod yn awgrymu y byddai'r mwyafrif yn dymuno i'r incwm ychwanegol gael ei ddefnyddio i ostwng y Dreth Gyngor safonol i drethdalwyr.

**2.17** Roedd y cwestiwn olaf yn gofyn pa effaith mae'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn ei gael ar y gymuned y maen nhw'n byw ynddi (289 wedi ymateb):-




**2.18** Mae'r tabl uchod yn awgrymu fod dros 50% yn credu fod codi premiwm ar dai gwag hirdymor naill ai'n cael effaith gadarnhaol neu niwtral ar eu cymuned leol, ac roedd 41.18% yn credu fod y premiwm yn cael effaith negyddol.

## CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU

| PWYNT CYFFREDINOL | NIFER YMATEBION |
|---|---|
| **Effaith y premiwm presennol o 100% ar nifer yr eiddo gwag hirdymor ar Ynys Môn** | |
| Ychydig neu dim effaith | **146** |
| Mae'r premiwm presennol yn annog perchnogion i werthu neu osod eu heiddo | **62** |
| Mae'r premiwm presennol yn gosb ariannol sy'n gorfodi perchnogion eiddo gwag hirdymor i werthu neu osod eu heiddo | **105** |
| **Ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn defnyddio £1m o'r incwm a gynhyrchir drwy'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor a'r premiwm ar ail gartrefi i ddarparu grantiau a benthyciadau i brynwyr tro cyntaf i'w helpu i brynu cartref neu ei adnewyddu. Barn ynglŷn â sut i wneud y defnydd gorau o'r premiwm** | |
| Dylid defnyddio'r holl incwm a gynhyrchir i helpu pobl leol brynu eu heiddo cyntaf | **118** |
| Dylid defnyddio mwy na'r lefel bresennol | **43** |
| Mae'r lefel bresennol yn ddigonol | **73** |
| Dylid defnyddio llai o'r incwm i helpu pobl leol brynu eu heiddo cyntaf | **79** |
| **Sut ddylai Cyngor Sir Ynys Môn ddefnyddio unrhyw incwm ychwanegol pe byddai unrhyw newid i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn cynhyrchu mwy o incwm i'r Cyngor** | |
| Dylid defnyddio'r holl incwm a gynhyrchir i helpu pobl leol brynu eu heiddo cyntaf | **81** |
| Dylid defnyddio'r incwm ychwanegol i gefnogi gwasanaethau arall sy'n cael eu heffeithio gan y diffyg tai digonol ar Ynys Môn, megis atal digartrefedd | **65** |
| Dylid defnyddio'r incwm ychwanegol a gynhyrchir i gyllido gwasanaethau'r Cyngor yn gyffredinol | **44** |
| Dylid defnyddio'r incwm ychwanegol i leihau'r Dreth Gyngor safonol i drethdalwyr | **123** |
| **Effaith codi'r premiwm eiddo gwag hirdymor ar y gymuned leol** | |
| Cadarnhaol | **103** |
| Niwtral | **48** |
| Negyddol | **119** |
| Ddim yn gwybod | **19** |

**3 EFFAITH ARIANNOL Y GWAHANOL OPSIYNAU MEWN PERTHYNAS Â'R PREMIWM AR EIDDO GWAG HIRDYMOR**

**3.1** Er mwyn deall effaith ariannol cynyddu'r premiwm ar y Cyngor, mae'n bwysig deall nad yw incwm y premiwm yn effeithio ar swm y Cyllid Allanol Cyfun (CAC) a dderbynnir gan LIC.

**3.2** Mae unrhyw incwm a gynhyrchir gan y premiwm yn gyllid ychwanegol i'r Cyngor.

**3.3** Mae'r tabl isod yn dangos y gwahaniaeth yn yr incwm fyddai'n cael ei gynhyrchu gan wahanol opsiynau ar gyfer y premiwm fesul blwyddyn:-

| INCWM A GYNHYRCHIR GAN WAHANOL OPSIYNAU AR GYFER Y PREMIWM FESUL BLWYDDYN | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **Blwyddyn** | **Opsiwn 1** | **Opsiwn 2** | **Opsiwn 3** | **Opsiwn 4** | **Opsiwn 5** |
| 0 | £1,183,341 | £1,775,012 | £0 | £986,086 | £1,584,022 |
| 1 | £1,335,569 | £2,003,354 | £333,324 | £1,309,506 | £1,656,951 |
| 2 | £1,335,569 | £2,003,354 | £666,647 | £1,632,642 | £1,765,611 |
| 3 | £1,335,569 | £2,003,354 | £999,971 | £1,945,162 | £1,950,612 |
| 4 | £1,335,569 | £2,003,354 | £1,333,295 | £2,249,959 | £2,249,959 |
| 5 | £1,335,569 | £2,003,354 | £1,666,618 | £2,559,541 | £2,559,541 |
| 6 | £1,335,569 | £2,003,354 | £1,999,942 | £2,893,386 | £2,893,386 |
| 7 | £1,335,569 | £2,003,354 | £2,333,266 | £3,293,668 | £3,293,668 |
| 8 | £1,335,569 | £2,003,354 | £2,666,589 | £3,733,945 | £3,733,945 |
| 9 | £1,335,569 | £2,003,354 | £3,333,237 | £3,988,985 | £3,988,985 |
| 10 | £1,335,569 | £2,003,354 | £3,999,884 | £3,999,884 | £3,999,884 |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | **£14,539,034** | **£21,808,552** | **£19,332,773** | **£28,592,765** | **£29,676,564** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm heb gynnwys Bl 0** | **£13,355,693** | **£20,033,540** | **£19,332,773** | **£27,606,678** | **£28,092,542** |

**3.4** Mae’r tabl canlynol yn dangos y gwahaniaeth yn yr incwm a gynhyrchir o gymharu ag Opsiwn 1, sef dim newid i’r premiwm presennol:-

| Gwahaniaeth o gymharu ag Opsiwn 1, Dim Newid | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Blwyddyn** | **Opsiwn 2** | **Opsiwn 3** | **Opsiwn 4** | **Opsiwn 5** |
| 0 | £591,671 | -£1,183,341 | -£197,255 | £400,681 |
| 1 | £667,785 | -£1,002,246 | -£26,063 | £321,382 |
| 2 | £667,785 | -£668,922 | £297,072 | £430,042 |
| 3 | £667,785 | -£335,598 | £609,593 | £615,042 |
| 4 | £667,785 | -£2,275 | £914,389 | £914,389 |
| 5 | £667,785 | £331,049 | £1,223,972 | £1,223,972 |
| 6 | £667,785 | £664,373 | £1,557,817 | £1,557,817 |
| 7 | £667,785 | £997,696 | £1,958,099 | £1,958,099 |
| 8 | £667,785 | £1,331,020 | £2,398,376 | £2,398,376 |
| 9 | £667,785 | £1,997,667 | £2,653,416 | £2,653,416 |
| 10 | £667,785 | £2,664,315 | £2,664,315 | £2,664,315 |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **£7,269,517** | **£4,793,739** | **£14,053,730** | **£15,137,530** |

**3.5** Fel y gwelir o’r tabl uchod, byddai’r incwm yn disgyn yn y lle cyntaf pe byddai opsiwn 3 neu 4 yn cael eu dewis.

**3.6** Byddai opsiwn 5 yn cynhyrchu tua £400k o incwm ychwanegol ym mlwyddyn 1. Gyda phob opsiwn, mae’n bosib y gallai cynyddu’r premiwm wneud i berchnogion werthu neu osod yr eiddo, sef prif bwrpas y premiwm, a gallai lefelau incwm fod yn is nag y nodir yn yr adroddiad. Mae risg hefyd y gallai perchnogion geisio osgoi’r premiwm uwch trwy ddodrefnu’r eiddo a’i ddynodi’n ail gartref, gan fod y premiwm ar ail gartrefi’n aros ar 100%, neu gallent stripio tu mewn yr eiddo a cheisio cael ei dynnu oddi ar y rhestr Dreth Gyngor. Mae’r risgiau hyn yn berthnasol i bob opsiwn, ond maent yn cael eu lliniaru i ryw raddau gan mai dim ond 80% o’r eiddo sy’n cael eu cynnwys yn sylfaen y dreth.

## 4 YSTYRIED SUT I DDEFNYDDIO'R INCWM YCHWANEGOL

**4.1** Gan dybio fod yr opsiwn a ddewiswyd yn cynhyrchu tua £400k yn y lle cyntaf, byddai'n bosib defnyddio'r incwm ychwanegol i gefnogi meysydd blaenoriaeth sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol y Cyngor, gan gynnwys, ymysg pethau eraill, y canlynol:-

- Mynd i'r afael â chyflenwad ac argaeledd tai;
- Darparu capasiti ychwanegol yn y Gwasanaethau Tai er mwyn cynorthwyo prynwyr tro cyntaf i brynu neu adnewyddu tŷ ar Ynys Môn;
- Cynorthwyo gyda phwysau ar wasanaethau yn gysylltiedig â newidiadau arfaethedig yn yr economi leol;
- Cyfrannu at gynlluniau yn seiliedig ar leoedd neu gynaliadwyedd cymunedol ehangach.

**ATODIAD 2**

## Eithriadau rhag y premiwm ar eiddo gwag hirdymor

- **Dosbarth 1**: anheddau sy'n cael eu marchnata i'w gwerthu – caniateir eithriad rhag y premiwm o 12 mis
- **Dosbarth 2:** anheddau sy'n cael eu marchnata i'w gosod – caniateir eithriad rhag y premiwm o 12 mis
- **Dosbarth 3**: anecs sy'n rhan o, neu sy'n cael ei drin fel rhan o'r prif eiddo
- **Dosbarth 4:** anheddau a fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na baent yn preswylio yn llety lluoedd arfog

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **27 Ionawr 2026** |
| **Pwnc:** | **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Dibreswyl yn y Gymuned - Ffioedd a Thaliadau 2026/27** |
| **Aelod Portffolio:** | **Y Cynghorydd Neville Evans** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Arwel Wyn Owen** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Carwyn Edwards, Rheolwr Cyllid**<br>01248 752699<br>CarwynEdwards@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | **Pob Aelod** |

## A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**Argymhelliad**

Codi'r uchafswm a ganiateir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal cartref a chynyddu'r swm a godir am wasanaethau eraill fel yr amlinellir yn y crynodeb isod. Mae'r argymhellion wedi'u crynhoi ar ddiwedd yr adran hon (A1 – A9).

**1. Cefndir**

Mae'n arferol adolygu'r taliadau mewn perthynas â gwasanaethau gofal cartref bob blwyddyn i gyd-fynd ag adolygiad y Llywodraeth Ganolog o lefelau budd-daliadau a phensiynau.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r ffioedd a thaliadau a godir am ofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned yn 2026/27, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**2. Gwasanaethau Gofal Cartref**

**Taliadau Gofal Cartref 2026/27**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau yn eu setliad eu bod yn cadw'r cap gofal ar £100.00 yr wythnos. Byddwn yn codi tâl hyd at yr uchafswm a ganiateir gan Lywodraeth Cymru.

**3. Taliadau Teleofal**

Mae gwasanaethau Teleofal yn cefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn y cartref drwy ddarparu cymorth ac ymateb 24 awr o'r dydd, 7 diwrnod yr wythnos drwy wasanaeth monitro o bell trwy linell ffôn. Mae modd gosod synwyryddion ychwanegol i helpu i adnabod risgiau amlwg, e.e. codymau, gwres, dŵr ayb.

Rhaid ystyried y ffactorau canlynol wrth bennu tâl teg am y gwasanaeth Teleofal:-

- Cyfraniad yr Awdurdod Lleol i'r Gwasanaeth Monitro Galw Gofal Rhanbarthol;
- Taliadau cynnal a chadw;
- Costau offer Teleofal;
- Costau cyllid a gweinyddu;
- Costau gosod;
- Costau ailgylchu offer;
- Costau archwiliadau gweledol Iechyd a Diogelwch ddwywaith y flwyddyn;
- Effaith ar fusnes cyfredol;
- Trawsnewid a moderneiddio gan ddefnyddio technoleg.

Rydym yn cynnig cynnydd o 3.8% yn y taliadau Teleofal, wedi'i dalgrynnu i fynu i'r £0.05 agosaf.

**Tabl A: Taliadau Teleofal Arfaethedig ar gyfer 2026/27**

| | |
|---|---|
| **Haen 1**<br>Offer Digidol, gwasanaeth a chynnal a chadw<br>(uned, larwm gwddf a larwm mwg) | Bydd pawb yn talu £81.25 y chwarter.<br>(£6.25 yr wythnos) |
| **Haen 2**<br>Offer Digidol, gwasanaeth, monitro a chynnal a chadw<br>(Offer heblaw uned, larwm gwddf a larwm mwg) | Bydd pawb yn talu £159.25 y chwarter.<br>(£12.25 yr wythnos) |

**Tabl B – Taliadau Teleofal Blynyddol ar gyfer 2026/27**

| | 2025/26 | Costau Arfaethedig 2026/27 |
|---|---|---|
| Gwasanaethau a Chynnal a Chadw | £142.50 | £147.95 |
| Gwasanaethau yn unig | £91.50 | £95.00 |
| Costau Gosod Untro | £57.00 | £59.20 |

## 4. Taliadau Uniongyrchol

Mae Taliadau Uniongyrchol yn galluogi unigolion i brynu drostynt eu hunain y gwasanaethau y byddai'r Awdurdod Lleol wedi eu darparu ar eu cyfer fel arall. Mae Taliadau Uniongyrchol yn cefnogi byw'n annibynnol drwy alluogi unigolion i wneud eu penderfyniadau eu hunain a bod â rheolaeth dros eu bywydau eu hunain. Yng Nghymru, mae'r Cynllun wedi cael ei ymestyn yn raddol i gynnwys:-

- Pobl Hŷn;
- Gofalwyr;
- Rhieni Plant ag Anableddau;
- Oedolion ag Anableddau.

Pennwyd cyfradd Taliadau Uniongyrchol o £16.80 yr awr ar gyfer 2025/26. Gan fod y Cyflog Byw Gwirioneddol wedi cynyddu, rydym yn cynnig codi'r ffi i £17.85 yr awr yn 2026/27.

**Micro Ofalwyr**

Er mwyn cael eu hystyried, bydd rhaid i ymgeiswyr fodloni'r safonau a osodwyd gan yr awdurdod lleol a chydymffurfio â gofynion cofrestru AGC. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, caniateir i ficro ofalwyr ofalu am hyd at 3 unigolyn a byddant yn gweithredu fel gweithwyr hunangyflogedig. I gydnabod y gofynion ychwanegol, mae'r raddfa sy'n cael ei hargymell fymryn yn uwch na'r raddfa ar gyfer Taliadau Uniongyrchol ond yn is na'r gost fesul uned a godir gan ddarparwyr annibynnol ar Ynys Môn. Y bwriad yw ceisio denu darpariaeth newydd o fewn y sector a chynyddu'r opsiynau sydd ar gael yn y gymuned. Rydym yn cynnig cyfradd o £20.00 yr awr ar gyfer Micro Ofalwyr.

**Moderneiddio'r Cynllun Bathodyn Glas yng Nghymru**

Argymhellir codi tâl o £10 am bob bathodyn mewn perthynas â bathodynnau sefydliadol a bathodynnau newydd (yn lle rhai a gollwyd neu a gafodd eu dwyn) yn 2026/27.

**Prynu Gwasanaethau Gofal Dydd mewn Cartrefi Gofal Preswyl Annibynnol**

Y taliad am brynu gwasanaethau dydd yn 2025/26 oedd £45.10 y dydd. Rydym yn argymell cynyddu'r ffi ar gyfer 2026/27 i £46.85 y dydd. Bydd y cynnydd hwn o gymorth i sicrhau cynaliadwyedd a pharhad gwasanaethau gofal dydd a brynir gan gartrefi gofal preswyl annibynnol, ac er mwyn cwrdd ag anghenion unigol y defnyddwyr gwasanaeth.

**Ffioedd Gofal Cartref**

Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth gofal cymdeithasol oedolion yn comisiynu gofal cartref gan y sectorau annibynnol yn dilyn ymarfer tendro yn 2023. Mae amodau'r contract yn pennu bod rhaid i ni ddarparu ar gyfer cynnydd statudol yn unol â deddfwriaeth, sydd gyfystyr â chynnydd o £1.38 yr awr o ganlyniad i gynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol yn 2026/27.

**Prydau mewn Gwasanaethau Dydd**

Ar gyfer 2026/27, rydym yn argymell cynnydd o 3.8% yn y ffioedd (wedi'i dalgrynnu i'r £0.05 agosaf).

**<u>Tabl C - Costau Prydau mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer 2026/27</u>**

| | 2025/26 | Costau Arfaethedig 2026/27 |
|---|---|---|
| Prydau mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer oedolion (ac eithrio pobl ag anableddau dysgu) | £7.80 | £8.10 |
| Byrbryd ganol dydd mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu | £3.30 | £3.45 |
| Lluniaeth arall (te / coffi / teisen) mewn Gwasanaethau Dydd | £1.85 | £1.95 |

**Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r canlynol:-

**A1** Codi'r uchafswm a ganiateir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal cartref.

**A2** Y taliadau ar gyfer gwasanaethau Teleofal, fel yr amlinellir yn Nhabl A:-
Haen 1 – bydd pawb yn talu **£81.25** y chwarter;
Haen 2 – bydd pawb yn talu **£159.25** y chwarter.

**A3** Y Taliadau Teleofal Blynyddol, fel yr amlinellir yn Nhabl B:-
Gwasanaethau a Chynnal a Chadw **£147.95;**
Gwasanaethau yn unig **£95.00;**
Costau gosod untro **£59.20.**

**A4** Cyfradd o **£17.85 yr awr** ar gyfer Taliadau Uniongyrchol.

**A5** Gweithredu tâl o **£20.00 yr awr** ar gyfer Micro Ofalwyr.

**A6** Cadw'r taliad o **£10.00** ar gyfer gweinyddu ceisiadau am Fathodynnau Glas a darparu bathodynnau newydd fel yr amlinellwyd.

**A7** Cynnydd o 3.8%, i **£46.85 y dydd**, yn y ffi ar gyfer prynu gwasanaethau gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol (wedi'i dalgrynnu i fynu i'r £0.05 agosaf).

**A8** Cynnydd o **£1.38 yr awr** yn y ffioedd Gofal Cartref, i gyd-fynd â'r cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol.

**A9** Taliadau am Brydau mewn Gwasanaethau Dydd fel yr amlinellir yn Nhabl C:-
Prydau mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer oedolion (ac eithrio pobl ag anableddau dysgu) - **£8.10;**
Byrbryd ganol dydd mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu - **£3.45;**
Lluniaeth arall (te / coffi / teisen) mewn Gwasanaethau Dydd - **£1.95.**

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae'r opsiynau a nodir yn gyson â dull cyffredinol y Cyngor o weithredu mewn perthynas â ffioedd a thaliadau mewn blynyddoedd a fu.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae penderfyniadau ar ffioedd a thaliadau yn creu oblygiadau ariannol sy'n effeithio gyllideb yr Awdurdod Lleol o ran incwm a dderbynnir a fforddiadwyedd taliadau a wneir yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys? | Ddim yn berthnasol |
| **2** | A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Na |
| **3** | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy | Rydym wedi ymgynghori ag Awdurdodau Lleol eraill yn y rhanbarth fel rhan o'r broses pennu ffioedd. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Ddim yn berthnasol |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Bydd budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh)sy'n cynyddu'n unol â chwyddiant yn gweld cynnydd o 3.8% ym mis Ebrill 2026, a bydd cynnydd o 4.8% yn y pensiwn safonol a phensiwn newydd y wladwriaeth o Ebrill 2026. Mae'r cynnydd arfaethedig yn gyfartal â'r cynnydd ar gyfer chwyddiant ym mudd-daliadau gwladol yr AGPh ac mae'n is na'r cynnydd ar gyfer chwyddiant yn y Pensiwn gwladol. |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Fel uchod, mae'r cynnydd oherwydd chwyddiant a argymhellir yn y papur hwn ar gyfer gwasanaethau tebyg wrth debyg yn unol â'r cynnydd o 3.8% ar gyfer chwyddiant ym mudd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r cynnydd o 4.8% yn y Pensiwn gwladol. |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim effaith ar y Gymraeg. |
| **E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth** (TA) (gorfodol) | |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)** | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Ddim yn berthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Ddim yn berthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Ddim yn berthnasol |
| **7** | **Sgriwtini** | Ddim yn berthnasol |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Ddim yn berthnasol |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Ddim yn berthnasol |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Dim | | |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| Dim | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **27 Ionawr 2026** |
| **Pwnc:** | **Cartrefi'r Awdurdod Lleol i Bobl Hŷn - Pennu'r Ffi Safonol 2026/27** |
| **Aelod Portffolio:** | **Y Cynghorydd Neville Evans** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Arwel Wyn Owen, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Carwyn Edwards, Rheolwr Cyllid**<br>01248 752699<br>CarwynEdwards@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | **Pob Aelod** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

Mae angen i'r Awdurdod Lleol bennu lefel ei Ffi Safonol ar gyfer cartrefi gofal yr awdurdod lleol ar gyfer y flwyddyn Ebrill 2026 - Mawrth 2027.

Yn 2025/26, cyfunwyd costau holl gartrefi preswyl y Cyngor (Brwynog, Haulfre a Phlas Mona) er mwyn cyfrifo'r ffi safonol gyfartalog ar gyfer gofal preswyl safonol, tra bod costau darpariaeth preswyl y Cyngor ar gyfer Dementia (Garreglwyd a Phlas Crigyll) wedi cael eu cyfuno er mwyn cyfrifo ffi safonol gyfartalog ar gyfer gofal preswyl Dementia.

Yn 2025/26, cyfrifwyd Ffi Safonol o £983.86 yr wythnos ar gyfer gofal Preswyl ac, yn 2025/26 hefyd, cyfrifwyd Ffi Safonol o £1,171.52 yr wythnos ar gyfer gofal Preswyl Dementia. Fodd bynnag, gan mai 2025/26 oedd y flwyddyn gyntaf i ni osod ffi ar gyfer cartrefi preswyl Dementia, barnwyd bod y gwahaniaeth rhwng y ffi safonol ar gyfer cartrefi preswyl yn 2024/25, a'r ffi safonol ar gyfer cartrefi preswyl Dementia yn 2025/26, yn ormod o gynnydd i'w weithredu yn y flwyddyn gyntaf, felly, penderfynwyd codi'r ffi'n raddol dros gyfnod o 3 blynedd. Y ffi safonol ar gyfer Gofal Preswyl Dementia sefydlwyd ar gyfer 2025/26 oedd £1,046.41.

**<u>Ffioedd Cartrefi Gofal Preswyl</u>**

Mae'r tabl canlynol yn amcangyfrif cost fesul wythnos breswylio ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2027, yn seiliedig ar ragolygon o lefelau defnydd a chostau rhedeg yn 2025/26 ynghyd â chynnydd ar gyfer chwyddiant:-

| | |
|---|---|
| Nifer y Gwelyau Preswyl sydd ar gael | 77 |
| Amcangyfrif o'r Cyfraddau Defnydd | 92.00% |
| Amcangyfrif o Nifer yr Wythnosau Preswylio | 3,693.80 |

| | Ffi Safonol 2025/26<br><br>£ | Amcangyfrif o Gostau Rhedeg 2026/27<br>£ | Ffi Safonol 2026/27<br><br>£ |
|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o Gostau Rhedeg ar gyfer 2026/27, yn seiliedig ar gostau rhedeg a ragwelir 2025/26 + chwyddiant | 879.49 | 3,333,121 | 902.35 |
| Ychwanegu - Dibrisiant | 60.88 | 290,117 | 78.54 |
| - Gwasanaethau Cymorth Cefnogaeth | 43.49 | 168,556 | 45.63 |
| **CYFANSWM** | **983.86** | **3,791,794** | **1,026.52** |
| **Cynnydd o gymharu â'r ffi safonol yn 2025/26** | 42.66 | | 4.34% |

Yn seiliedig ar y tabl uchod, yr amcangyfrif o’r gost fesul wythnos breswylio am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2027 yw £1,026.52.

Mae'r gost a amcangyfrifir fesul wythnos breswylio ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2027 yn uwch o gymharu â'r gost a amcangyfrifwyd ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026. Cynnydd mewn chwyddiant a newid mewn cyfraddau defnydd sydd i gyfrif am hyn.

**<u>Ffioedd Cartrefi Gofal Preswyl Dementia</u>**

Mae'r tabl canlynol yn cyfrifo amcangyfrif o’r gost fesul wythnos breswylio ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2027, yn seiliedig ar ragolygon o lefelau defnydd a ragwelir a chostau rhedeg yn 2025/26 ynghyd â chynnydd ar gyfer chwyddiant:-

| | |
|---|---|
| Nifer y Gwelyau Dementia sydd ar gael | 53 |
| Amcangyfrif o’r Cyfraddau Defnydd | 92.00% |
| Amcangyfrif o Nifer yr Wythnosau Preswylio | 2,542.49 |

| | Ffi Safonol 2025/26<br>£ | Amcangyfrif o Gostau Rhedeg 2026/27<br>£ | Ffi Safonol 2026/27<br>£ |
|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o Gostau Rhedeg ar gyfer 2026/27, yn seiliedig ar gostau rhedeg 2025/26 + chwyddiant | 1,054.96 | 2,760,759 | 1,085.85 |
| Ychwanegu - Dibrisiant | 71.33 | 211,475 | 83.17 |
| - Gwasanaethau Cefnogaeth | 45.23 | 112,371 | 44.20 |
| **CYFANSWM** | **1,171.52** | **3,084,605** | **1,213.22** |
| **Cynnydd o'i gymharu â'r ffi safonol yn 2025/26, yn seiliedig ar gost lawn y gofal** | **41.70** | | **3.56%** |

Yn seiliedig ar y tabl uchod, yr amcangyfrif o'r gost fesul wythnos breswylio am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2027 yw £1,213.22. Mae hyn yn gynnydd o £41.70 yr wythnos o gymharu â'r gyfradd breswyl o £1,171.52 ar gyfer 2025/26.

Fel y nodwyd uchod, yn 2025/26 cytunwyd bod y cynnydd o ganlyniad i godi am gost wirioneddol gofal Preswyl Dementia yn cael ei gyflwyno'n raddol, dros gyfnod o 3 blynedd. Felly, yn unol â'r penderfyniad hwn, rydym yn bwriadu cynyddu'r ffi Dementia i £1,150.99 yn 2026/27, gyda chynnydd pellach yn 2027/28 fel bod y ffi yn cyfateb i gost wirioneddol y gofal erbyn 1 Ebrill 2027.

| | Ffi Safonol 2025/26<br>£ | Ffi Safonol 2026/27<br>£ | % Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Ffi Safonol Dementia (Cost Lawn) | 1,171.52 | 1,213.22 | 3.56 |
| Ffi Safonol Gofal Preswyl (Cost Lawn) | 983.86 | 1,026.52 | 4.34 |
| Y gwahaniaeth rhwng y Ffi Safonol Dementia a'r Ffi Safonol Gofal Preswyl | 187.66 | 186.70 | |
| 2/3 o'r gwahaniaeth rhwng y Ffi Safonol Dementia a'r Ffi Safonol Gofal Preswyl 2026/27 | 62.55 | 124.47 | |
| **Cyfradd Dementia Arfaethedig ar gyfer 2026/27** | **1,046.41** | **1,150.99** | **9.99** |

**<u>Argymhelliad</u>**

A1 - Argymhellir codi am gost lawn y gwasanaeth, sef **£1,026.52** yr wythnos, yn 2026/27 ar gyfer Gofal Preswyl.

A2 – Penderfynwd yn 2025/26 byddai cost lawn y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno dros gyfnod o 3 blynedd, felly argymhellir fod cost lawn y gwasanaeth yn cael ei ostwng i **£1,150.99** yr wythnos yn 2026/27 ar gyfer Gofal Preswyl Dementia.

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Wrth osod y ffi safonol dilynir dull a bennir lle na chaniateir ystyried opsiynau. Mae'n bosibl i'r Pwyllgor Gwaith bennu ffi sy'n wahanol i'r Ffi Safonol. Mae codi llai na'r ffi safonol yn golygu y byddai'r Cyngor yn sybsideiddio cost gofal cleientiaid y nodwyd bod ganddynt y modd ariannol i dalu am gost lawn eu gofal. O ganlyniad, mae'r opsiwn wedi'i ddiystyru. |
| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| Yn unol ag Adran 22 Deddf Cymorth Gwladol 1948, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol bennu'r Ffi Safonol ar gyfer eu cartrefi. |
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| Mae'r penderfyniad hwn yn gyson â Pholisi Cenedlaethol, fel yr amlinellir yn adran C uchod. |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Ydi |

| **DD – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys? | Bydd pennu'r ffi ond yn effeithio ar nifer fach o gleientiaid sy'n talu am gost lawn eu gofal. Ni fydd y penderfyniad hwn yn cael fawr o effaith ar anghenion hirdymor yr Ynys. |
| **2** | A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Mae'r penderfyniad yn dileu'r cymhorthdal y mae'r Cyngor yn ei ddarparu i'r cleientiaid hynny y nodwyd bod ganddynt y modd i dalu cost lawn eu gofal. |
| **3** | A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy | Ddim yn berthnasol |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Ddim yn berthnasol |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Ddim yn berthnasol |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Byddai'r penderfyniad yn effeithio ar y cleientiaid sydd wedi cael eu hasesu fel rhai sydd â'r modd i dalu cost lawn eu gofal. Nid yw'r grŵp hwn yn un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Dim effaith ar y Gymraeg. |

| **E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151** (gorfodol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)** | |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Ddim yn berthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Ddim yn berthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Ddim yn berthnasol |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | Ddim yn berthnasol |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Ddim yn berthnasol |

**F - Atodiadau:**

Dim

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Dim

This page is intentionally left blank

F2. 2025/07

Cyngor Sir Ynys Môn

| | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 27ain Ionawr, 2026 |
| Pwnc: | Cynllun Tuag at Sero Net (2026-2031) |
| Aelod(au) Portffolio: | Cynghorydd Ieuan Williams |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Rhys H Hughes - Dirprwy Brif Weithredwr |
| Awdur yr Adroddiad: | Rhys Williams – Rheolwr Newid Hinsawdd |
| Aelodau Lleol: | Yr Holl Aelodau Etholedig |

## A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**A1** Mabwysiadu'r Cynllun Tuag at Sero Net (2026-2031) newydd.

**Rhesymau**
Mae'r Cynllun Strategol Tuag at Sero Net 2026-2031 yn adeiladu ar gynnydd o'r Cynllun Strategol gyntaf. Mae llwyddiannau'r Cyngor hyd at heddiw yn dangos ein gallu i fod yn arloesol yn ein dynesiad i'r maes sero net tra hefyd yn wynebu heriau cymhleth.

Mae'r Cynllun Strategol Tuag at Sero Net yn parhau i weithio tuag at nod y Cyngor i ddod yn sefydliad sero net sy'n gam hollbwysig o'r amcan strategol Newid Hinsawdd o fewn Cynllun y Cyngor

Pump prif maes blaenoriaeth y cynllun strategol yw:
- **Asedau ac Allyriadau Tai: –** Lleihau allyriadau o adeiladau'r cyngor a thai cymdeithasol. Sicrhau bod yr holl eiddo newydd a phresennol yn wydn yn gwrthsefyll yr hinsawdd.
- **Allyriadau Trafnidiaeth y Cyngor: –** Sicrhau bod cerbydau fflyd y cyngor yn rhai trydan, datblygu isadeiledd gwefru EV a chefnogi arferion trafnidiaeth gynaliadwy.
- **Allyriadau'r Gadwyn Gyflenwi:** Gwella dealltwriaeth am allyriadau'r gadwyn gyflenwi drwy gaffael, a gofyn i gyflenwyr ddangos ymrwymiad i leihau eu defnydd o garbon.
- **Defnydd Tir, Adferiad Natur a Bioamrywiaeth:** Mabwysiadu dull Cyngor cyfan at ymneilltuad carbon o dir, monitro'r gwaith o ddal carbon a rheoli tir er mwyn cefnogi adferiad natur a bioamrywiaeth.
- **Datblygiad Sefydliadol:** Integreiddio addasiadau sero net a hinsawdd ar draws prosesau'r cyngor, defnyddio data allyriadau i arwain penderfyniadau, gwella ymwybyddiaeth, sgiliau a gwybodaeth.
- **Prosiectau Strategol a Gwydnwch yr Hinsawdd:** Ymgorffori ystyriaethau hinsawdd, sero net a bioamrywiaeth mewn prosiectau strategol, asesu risgiau hinsawdd hirdymor a sicrhau bod gwasanaethau'r cyngor yn addasu ac yn parhau'n wydn mewn adeg lle mae'r hinsawdd yn parhau i newid.

Mae'r Cynllun Strategol Tuag at Sero net arfaethedig yn cydnabod nad yw'r targed 'sero net erbyn 2030' yn bosibl mwyach oherwydd graddfa'r gwaith datgarboneiddio sydd ei angen, yr adnoddau sydd ar gael a'r amser sy'n weddill.
Mae targedau newydd a rhai wedi'u diwygio wedi'u hadnabod sy'n heriol, realistig ac yn cyfrannu at nod cyffredinol y Cyngor i fod yn sefydliad sero net.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is available in English

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

| |
|---|
| Amherthnasol |

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

| |
|---|
| I gymeradwyo'r cynllun strategol. |

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

| |
|---|
| Mae'r Cynllun Strategol Tuag at Net Sero 2026-2031 yn cefnogi Cynllun y Cyngor a'i amcanion strategol.<br>Mae'r Cynllun Strategol arfaethedig yn adnabod sut fydd y Cyngor yn lleihau ei allyriadau carbon er mwyn dod yn sefydliad sero net. |

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

| |
|---|
| Mae'r cynllun strategol hwn yn defnyddio arian ac adnoddau sydd eisoes ar gael yn effeithlon ac yn hyrwyddo cynaliadwyedd ariannol er mwyn cyflawni ei feysydd blaenoriaeth allweddol.<br>Bydd rhaid ariannu nifer o'r camau sydd wedi'u hadnabod o fewn y Cynllun Strategol drwy ffynonellau allanol a chyllid cyfatebol (o gyllidebau presennol) a ddarperir gan y Cyngor, lle bo hynny'n ofynnol. |

Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?

| |
|---|
| Bydd y Cynllun Strategol Tuag at Sero Net yn lleihau allyriadau carbon ac yn adnabod y camau addasu hinsawdd sydd eu hangen i sicrhau bod y Cyngor yn gallu ymateb i effeithiau hirdymor newid hinsawdd. |

2. A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar y Cyngor yn y dyfodol? Os felly, sut?

| |
|---|
| **Atal costau yn y dyfodol:**<br>- Bydd buddsoddi mewn gwella perfformiad ynni asedau'r cyngor yn arwain at leihau costau rhedeg.<br>- Bydd buddsoddi ym mherfformiad ynni tai y Cyngor yn lleihau costau byw i denantiaid yn ogystal â thlodi tanwydd.<br>- Bydd sicrhau bod fflyd y Cyngor yn cynnwys cerbydau trydan yn lleihau costau rhedeg a chynnal a chadw yn y tymor hir.<br>- Bydd bod yn wydn mewn cyfnod lle mae'r hinsawdd yn parhau i newid yn cefnogi parhad gwasanaethau ac yn lleihau costau addasu yn y dyfodol. |

3. A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, gyda phwy?

| |
|---|
| Amherthnasol |

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut.

| |
|---|
| Amherthnasol |

5. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

| |
|---|
| Ni ragwelir y caiff unrhyw effaith. |

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

| |
|---|
| Mae'r Cynllun Strategol Tuag at Sero Net yn cynnwys camau i wella safon tai y Cyngor mewn ymateb i Safonau Ansawdd Tai Cymru. Bydd gwella'r stoc tai yn cael effaith gadarnhaol ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. |

7. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

| |
|---|
| Ni ragwelir unrhyw effeithiau. |

## E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori a beth oedd eu sylwadau?

| | |
|---|---|
| 1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol) | Cafodd y cynllun strategol ei ystyried gan y Prif Weithredwr a'r Tîm Arweinyddiaeth cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith. Mae sylwadau'r Tîm Arweinyddiaeth wedi'u hymgorffori yn y cynllun strategol. |
| 2. Swyddog Cyllid / 151 | Mae'r Swyddog A151 yn aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth, ac mae ei sylwadau wedi'u hystyried ynghyd â sylwadau'r Tîm Arweinyddiaeth. |
| 3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth, ac mae ei sylwadau wedi'u hystyried ynghyd â sylwadau'r Tîm Arweinyddiaeth. |
| 4. AD | Ymgynghorwyd â Phenaethiaid Gwasanaeth fel rhan o'r Tîm Rheoli. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hystyried. |
| 5. Eiddo | |
| 6. TG | |
| 7. Caffael | |
| 8. Sgriwtini | Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 21/1/26. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn. |
| 9. Aelodau Lleol | |

## F - Atodiadau

| |
|---|
| Cynllun Tuag at Sero Net 2026 - 2031 Drafft |

## Ff - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach)

| |
|---|
| **Cynllun Strategol Tuag at Sero Net 22-25 - Adroddiad Terfynol**<br>Awduron - Rhys A Williams (Rheolwr Newid Hinsawdd) |

Ynys Môn
THE ISLE OF
Anglesey



# Cynllun Strategol Tuag at Sero Net 2026 - 2031

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg /

This document is also available in English.

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.llyw.cymru

# Rhagair





Y Cynghorydd Ieuan Williams
Aelod Portffolio - Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd



Rhys Howard Hughes
Dirprwy Prif Weithredwr

Mae newid hinsawdd yn effeithio ar bob un ohonom, a bydd yr hyn rydyn ni'n ei wneud nawr yn diffinio ein bywydau am genedlaethau i ddod. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ddatgan argyfwng hinsawdd, gan ymrwymo i ddod yn sefydliad carbon sero net.

Mae Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 yn cydnabod Newid Hinsawdd fel amcan strategol - "ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030".

Mae gweithio i gyflawni'r ymrwymiad hwn yn her y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hi yn y Cynllun Strategol Tuag at Sero Net flaenorol. Mae'r Cyngor wedi rhoi prosiectau ar waith er mwyn lleihau ei allyriadau, datblygu ei wybodaeth, arbenigedd a chapasiti er mwyn lleihau allyriadau carbon a mesur cynnydd tuag at sero net.

Drwy adeiladu Ysgol y Graig fel ein hadeilad carbon sero net cyntaf a phorth parcio solar newydd ger ein pencadlys, rydym wedi dangos arweinyddiaeth ymarferol wrth leihau allyriadau drwy ddefnyddio cyllid allanol i wneud y mwyaf o'r effaith.

Er ein bod mewn sefyllfa well, ac er gwaethaf ein hymdrechion, rydym yn deall nad yw'r uchelgais i fod yn sero net erbyn 2030 yn gyraeddadwy o ystyried yr adnoddau sydd ar gael a'r amser sy'n weddill.

Ni fydd hyn yn atal y Cyngor rhag parhau i gymryd camau i leihau ei allyriadau carbon. Gan adeiladu ar y Cynllun Strategol blaenorol, mae Cynllun Strategol Tuag at Sero Net yma'n adnabod prif feysydd blaenoriaeth y Cyngor a'r camau gofynnol i wneud cynnydd pellach at ddod yn sefydliad carbon sero net. Byddwn yn parhau i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill ar draws y sector i gyflawni'r cynllun hwn.

# Pam bod angen Cynllun Strategol Tuag at Sero Net?

Mae newid hinsawdd yn her fyd-eang yn yr oes sydd ohoni, ac mae'n peri goblygiadau eang ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae ei effaith i'w weld yn lleol yn Ynys Môn, gan effeithio ar ein preswylwyr, ein cymunedau a'n hymwelwyr. Oherwydd hyn, mae angen gweithredoedd pendant er mwyn lleihau allyriadau a'r gallu i addasu i hinsawdd sy'n parhau i newid.

Mae Cynllun y Cyngor yn adnabod newid hinsawdd fel Amcan Strategol, gydag ymrwymiad i leihau ein hallyriadau carbon ac ymateb i'r argyfwng ehangach.



Fel awdurdod lleol, rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb i fod yn flaenllaw, a thrwy'r Cynllun Strategol hwn, byddwn yn adeiladu Cyngor sy'n fwy cynaliadwy sy'n cefnogi ein cymunedau i fod yn lleoedd iach a llewyrchus, lle gall pobl ffynnu.

**Mae Cynllun Strategol Tuag at Sero Net 2026–2031 yn amlinellu agwedd y Cyngor at leihau ei cyfanswm allyriadau carbon, a sut fydd yn dod yn sefydliad sero net.**

Mae'n rhaid i'r Cyngor leihau ei allyriadau ar draws ei wasanaethau os am fod yn sero net. Cyflawnir hyn drwy fuddsoddi yn ei adeiladau, datgarboneiddio trafnidiaeth a gweithio gyda phartneriaid i leihau allyriadau'r gadwyn gyflenwi. Bydd yr allyriadau sy'n weddill yn cael eu cydbwyso drwy gyfrannu at niwtraleiddio carbon drwy reoli tir.

Mae'n rhaid manteisio ar y cyfleoedd hyn lle bynnag y bo'n bosibl a gweithio gyda phartneriaid allanol megis:

- Llywodraeth Cymru, CLILC a phartneriaid y sector cyhoeddus ar brosiectau hinsawdd a sero net;
- Sefydliadau'r sector preifat ar brosiectau penodol e.e. Porthladd Rhydd Ynys Môn;
- Ysgolion a grwpiau cymunedol er mwyn gweithredu ymhellach ar newid hinsawdd.

# Uchafbwyntiau Cynllun Strategol Tuag at Sero Net

**£18.5M**
fuddsoddiad i ddatgarboneiddio asedau'r Cyngor

**20%**
gostyngiad mewn allyriadau adeiladau ers 2019/20

**86**
Tai Cyngor carbon isel newydd

**93**
Diweddaru cartrefi'r Cyngor

Tudalen 115



Estyniad Ysgol y Graig - ein hysgol carbon sero net cyntaf




Pyrth ceir solar newydd ym Mhencadlys Llangefni

**7**
gorsaf gwefru newydd ar gyfer ceir

**16%**
o'n fflyd yn gerbydau trydan

$CO_2$

Gwelliannau wrth fonitro allyriadau carbon




Oddeutu 14,000 o goed wedi'u plannu

# Cynnydd y Cynllun Strategol Tuag at Sero Net hyd yma

Mae adroddiad diwedd cyfnod Cynllun Strategol Tuag at Sero Net 2022 - 2025 yn cyflwyno nifer o gasgliadau a blaenoriaethau sydd wedi'u hystyried yn y Cynllun Strategol newydd:-



- Ni fydd y Cyngor yn cyflawni ei uchelgais sero net erbyn 2030. Mae hyn oherwydd diffyg adnoddau, capasiti a graddfa'r gwaith datgarboneiddio a niwtraleiddio carbon sydd ei angen; deallir fod y canfyddiad hwn yn cyd-fynd â disgwyliadau y rhan fwyaf, os nad pob Awdurdod Lleol yng Nghymru;
- Mi fydd angen buddsoddiad pellach i ddatblygu systemau casglu data, er mwyn gallu paratoi adroddiadau cywir a gwneud penderfyniadau gwybodus;
- Mae angen targedu ymdrechion datgarboneiddio yn y meysydd hynny lle byddant yn gwneud yr effaith fwyaf e.e. asedau, trafnidiaeth a chaffael;
- Bydd angen ymateb Cyngor cyfan i weithio i gyrraedd carbon sero net;
- Mae'n rhaid parhau i ymgorffori sero net a newid hinsawdd mewn prosesau llywodraethu a busnes.
- Gwelir nad yw cyfanswm allyriadau carbon y Cyngor wedi gostwng yn ôl y disgwyl yn ystod y blynyddoedd diwethaf (gweler Atodiad 1). Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd mewn gwariant o fewn y gadwyn gyflenwi, gwelliannau yn ansawdd a newidiadau i'r data a gasglwyd. O ganlyniad, nid yw'r ffigurau blynyddol yn gwbl gymharol o flwyddyn i flwyddyn

# Amcanion Strategol Cynllun y Cyngor

Cynllun y Cyngor 2023-2028 yw'r brif ddogfen ar gyfer gwneud penderfyniadau ar bob lefel; darparu fframwaith er mwyn cynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Wrth wraidd y cynllun, mae ein dyhead i weithio gyda phreswylwyr, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn, i gynnig y gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ein chwe prif amcan yn adlewyrchu'r meysydd hynny y dylai'r Cyngor fod yn canolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**

'Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu'.



## Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu, magu hyder a defnyddio'r iaith.

## Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir

## Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

## Tai

Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle yn 'gartref'.

## Yr Economi

Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys

## Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at bod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)

# Cynllun y Cyngor - Gwerthoedd

Mae Cynllun y Cyngor yn cael ei gefnogi gan werthoedd craidd y sefydliad, sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain gweledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.



## Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.

## Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn.

## Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

## Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r ynys.


Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)

# Y Cylch Strategol

Mae'r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd mewn lle er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau ac amcanion.

Mae hwn yn gynllun allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac sy'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion strategol a'r weledigaeth.





# Meysydd blaenoriaeth allweddol

- Allyriadau Asedau a Thai
- Allyriadau Trafnidiaeth y Cyngor
- Allyriadau'r Gadwyn Gyflenwi
- Defnydd Tir, Adferiad Natur a Bioamrywiaeth
- Datblygu'r Sefydliad
- Prosiectau Strategol a Gwydnwch i Newid Hinsawdd



*Gall gyfyngiadau ariannol effeithio ar allu'r Cyngor i lwyddo yn y meysydd blaenoriaeth hyn*






# Allyriadau Asedau a Thai

## Pam bod hyn y bwysig?

**Gwnaeth asedau'r Cyngor, yn cynnwys swyddfeydd, ysgolion, canolfannau hamdden a chartrefi gofal gynhyrchu 5,504 tunnell o allyriadau carbon ($tCO_2e$) yn 2024/25 - oddeutu 11% o'n hôl-troed cyfan.**

Mae lleihau allyriadau o'r defnydd gwres, goleuadau a'r ynni yn yr adeiladau rydyn ni'n eu defnyddio ac yn berchen arnynt yn hollbwysig at gyflawni sero net.

Fel landlord unedau busnes, tai cymdeithasol, a daliadau amaethyddol, bydd gwella effeithlonrwydd ynni yn torri carbon yn ogystal â lleihau costau, mynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella ansawdd a gwydnwch ein hasedau.

## Beth ydyn ni am ei wneud?

Lleihau allyriadau carbon o'r adeiladau rydyn ni'n eu defnyddio.

Buddsoddi mewn mesurau effeithlonrwydd ynni er mwyn lleihau costau rhedeg.

Sicrhau bod ein hadeiladau, hen a newydd, a'n cartrefi yn gwrthsefyll hinsawdd sy'n parhau i newid.

Lleihau gwastraff drwy gynyddu'r hyn sy'n cael ei ailgylchu yn ein hadeiladau.

Datgarboneiddio stoc tai cymdeithasol y Cyngor.

## Sut ydyn ni am wneud hyn?

Buddsoddi yn ein hasedau i leihau allyriadau carbon drwy welliannau wedi'u hariannu drwy grant a chyllidebau chynnal a chadw cyfalaf.

Gweithredu safonau effeithlonrwydd ynni a gwydnwch hinsawdd ar gyfer yr holl waith adnewyddu ac unrhyw adeilad newydd.

Adnabod a gweithredu mesurau i gyrraedd y cyfradd ailgylchu o 70% ar draws adeiladau'r Cyngor.

Sicrhau bod holl gartrefi'r Cyngor yn cyrraedd sgôr EPC C (Sgôr o 75) erbyn 31 Mawrth 2031, lle bo'n ymarferol.

45 tŷ cyngor newydd bob blwyddyn i gyrraedd sgôr EPC A yn ogystal â safonau allyriadau isel ar gyfer hen dai Cyngor sy'n cael eu prynu.

# Allyriadau Trafnidiaeth y Cyngor

## Pam bod hyn y bwysig?

**Gwnaeth allyriadau o ddefnydd trafnidiaeth gynhyrchu 6239 t$CO_2$e yn 2024/25, oddeutu 12% o gyfanswm ein allyriadau.**

Mae allyriadau trafnidiaeth yn cynnwys defnyddio cerbydau fflyd, teithio busnes, cymudo a gweithio gartref.

Mae defnyddio trafnidiaeth yn hollbwysig ar gyfer darparu gwasanaethau ledled Ynys Môn, ac mae'n rhan o allyriadau gweithredol uniongyrchol y Cyngor.

Yn yr un modd, mae allyriadau anuniongyrchol y Cyngor yn cynnwys teithio busnes staff mewn cerbydau personol a chymudo i'r gwaith.



## Beth ydyn ni am ei wneud?

Parhau i drawsnewid fflyd y Cyngor yn gerbydau trydan.

Datblygu isadeiledd gwefru cerbydau trydan y Cyngor.

Datblygu a gweithredu mentrau i annog agweddau cadarnhaol tuag at drafnidiaeth gynaliadwy ar draws y Cyngor.

## Sut ydyn ni am wneud hyn?

Cynyddu nifer y cerbydau trydan yn fflyd y Cyngor.

Datblygu a diweddaru isadeiledd gwefru cerbydau trydan er mwyn cefnogi'r gwaith o drawsnewid y fflyd.

Anelu i leihau allyriadau carbon y fflyd i 360 t$CO_2$e bob blwyddyn erbyn 2031.

Cynyddu'r defnydd o gerbydau trydan y fflyd er mwyn lleihau allyriadau teithio busnes.

Gwella ymwybyddiaeth or effaith amgylcheddol o gweithio adref a cymudo i'r gwaith

Cefnogi'r gweithlu i leihau eu hallyriadau cymudo.

# Allyriadau’r Gadwyn Gyflenwi

## Pam bod hyn y bwysig?

**Roedd caffael nwyddau a gwasanaethau gan ein cadwyn gyflenwi yn cynrychioli 77% o’n hallyriadau ar gyfer 2024/25.**

Ar hyn o bryd mae allyriadau o gadwyn gyflenwi'r Cyngor yn cael eu cyfrifo yn seiliedig ar wariant – wrth i ni wario mwy, mae'r allyriadau'n cynyddu.

Mae bob penderfyniad i brynu yn cynnwys cost carbon, gan ei gwneud hi'n hanfodol ymgorffori meini prawf lleihau carbon ym mhob caffael.

## Beth ydyn ni am ei wneud?

Defnyddio prosesau caffael i wella dealltwriaeth y Cyngor o ddata allyriadau ei gadwyn gyflenwi.

Sicrhau bod cyflenwyr yn dangos eu hymrwymiad i leihau carbon drwy brosesau tendro, monitro ac adrodd.

Defnyddiwch ddata allyriadau’r gadwyn gyflenwi i wneud penderfyniadau carbon isel gwybodus.

## Sut ydyn ni am wneud hyn?

Integreiddio gwerth cymdeithasol, allyriadau carbon, a nodau bioamrywiaeth ym mhob caffaeliad.

Blaenoriaethu contractau gwerth uchel a charbon uchel i leihau allyriadau’r gadwyn gyflenwi e.e. casglu gwastraff, prydau bwyd ysgol, contractwyr priffyrdd a phrosiectau cyfalaf mawr.

Darparu hyfforddiant i staff a chyflenwyr i ffrydio gwerth cymdeithasol a gofynion amgylcheddol.

Defnyddiwch ddata allyriadau cadarn i fonitro a gwneud penderfyniadau gwybodus.

# Defnydd Tir, Adferiad Natur a Bioamrywiaeth

## Pam bod hyn y bwysig?

Mae'r Cyngor yn rheoli portffolio amrywiol o dir, gan gynnwys daliadau amaethyddol, safleoedd gwastraff, caeau ysgolion ac ardaloedd pori.

Mae gwella defnydd tir ac adfer natur yn hanfodol i gyflawni sero net gan ei fod yn ein galluogi i wrthbwyso allyriadau na ellir eu dileu'n llwyr.

Drwy reoli tir yn well, rydym yn lleihau ein hôl-troed allyriadau ond hefyd yn cyflawni manteision ehangach megis gwella bioamrywiaeth, gwydnwch hinsawdd, atal llifogydd ac iechyd pridd.

Mae'r camau gweithredu hyn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ac yn dangos arweinyddiaeth wrth fynd i'r afael â newid hinsawdd wrth gefnogi llesiant cymunedol a chynaliadwyedd hirdymor.

## Beth ydyn ni am ei wneud?

Datblygu dull Cyngor cyfan o ddal carbon tir ar draws holl asedau a thir y Cyngor, gan gynnwys monitro'r carbon a ddaliwyd dros amser.

Cefnogi camau gweithredu allweddol a nodwyd yng Nghynllun y Cyngor i reoli ein tir yn effeithiol i gefnogi adferiad natur a bioamrywiaeth, a chloi carbon lle bo modd gwneud hynny.

## Sut ydyn ni am wneud hyn?

Gwaelodlin fanwl o'r holl asedau, tir a mathau a sefydlu proses fonitro i fonitro'r carbon a ddaliwyd o fewn 2 flynedd.

Mesur y carbon a gasglwyd drwy weithgareddau'r Cyngor.

Manteisio ar gyfleoedd i wella'r gwaith o ddal carbon drwy brosiectau bioamrywiaeth, adfer natur a rheoli tir e.e. plannu coed.

Cefnogi ysgolion i blaenoriaethu cyflawni achrediad cynaladwyedd cydnabyddedig erbyn 2031.

# Datblygu’r Sefydliad

## Pam bod hyn y bwysig?

Mae datblygiad sefydliadol yn allweddol i gyrraedd sero net drwy alluogi newid systematig mewn diwylliant ar draws y Cyngor.

Drwy fuddsoddi mewn sgiliau, hyfforddiant ac arweinyddiaeth, gallwn feithrin y gallu i newid ymddygiad.

Bydd fframweithiau llywodraethu ac atebolrwydd cryf yn helpu i olrhain cynnydd y Cynllun Strategol yma.

## Beth ydyn ni am ei wneud?

Integreiddio carbon sero net ac addasu i'r hinsawdd ym mhrosesau busnes y Cyngor.

Defnyddio data allyriadau i wneud penderfyniadau gwybodus.

Datblygu ymwybyddiaeth, sgiliau a gwybodaeth am yr hinsawdd ar draws y Cyngor.

## Sut ydyn ni am wneud hyn?

Integreiddio sero net ac addasu i'r hinsawdd i brosesau busnes a sicrhau eu bod yn cael eu trin fel blaenoriaethau wrth wneud penderfyniadau.

Gwella’r gwaith o gasglu a dadansoddi data allyriadau.

Sefydlu llinell sylfaen allyriadau carbon ar gyfer stoc tai'r Cyngor a gwella data'r gadwyn gyflenwi.

Ymgorffori cynaliadwyedd mewn rhaglenni hyfforddi, datblygiad proffesiynol ac arweinyddiaeth.

Cynnwys ymrwymiadau newid hinsawdd mewn disgrifiadau swyddi ar gyfer swyddi newydd a swyddi a hysbysebir.

Targedu cyfathrebiadau i ymgorffori gweithredu ar yr hinsawdd ar draws Gwasanaethau'r cyngor gan gynnwys ymgyrch newid ymddygiad i leihau'r defnydd o ynni ar safleoedd y Cyngor.

# Prosiectau Strategol a Gwydnwch yr Hinsawdd

## Pam bod hyn y bwysig?

Mae gan y Cyngor ystod o brosiectau strategol a chyfalaf sy'n cynnwys datblygu adeiladau ysgol newydd, cyfleusterau gofal, datblygu economaidd ac adfywio.

Mae'n hanfodol bod pob prosiect yn ystyried newid hinsawdd yn weithredol, yn cefnogi ein targed sero net ac yn gwella bioamrywiaeth.

Rhaid i'r Cyngor hefyd wella ei ddealltwriaeth o effeithiau disgwyliedig newid hinsawdd er mwyn sicrhau bod ei wasanaethau'n parhau i fod yn wydn, yn rheoli risgiau sy'n dod i'r amlwg yn effeithiol ac yn addasu i hinsawdd sy'n newid.



## Beth ydyn ni am ei wneud?

Sicrhau bod prosiectau strategol yn cynnwys ystyriaethau hinsawdd, carbon sero net a bioamrywiaeth o'r cychwyn cyntaf.

Cael gwell dealltwriaeth o'r risgiau hinsawdd hirdymor sy'n wynebu'r Cyngor.
Nodi sut mae'n rhaid iddo addasu i effeithiau hinsawdd sy'n newid a sicrhau bod Gwasanaethau'r Cyngor yn wydn.

## Sut ydyn ni am wneud hyn?

Integreiddio ystyriaethau carbon a bioamrywiaeth ym mhob prosiect strategol.

Gweithredu mesurau i leihau allyriadau carbon a gwella bioamrywiaeth o fewn prosiectau'r Cyngor.

Gwerthuso risgiau hinsawdd hirdymor sy'n wynebu'r Cyngor.

Gwerthuso parodrwydd y Cyngor i ymateb i argyfyngau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

Rhoi camau addasu ar waith i sicrhau bod Gwasanaethau’r Cyngor yn wydn.

# Goblygiadau Ariannol

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol ar draws ei bortffolio asedau i leihau allyriadau carbon uniongyrchol. Bydd y buddsoddiad cyfalaf hwn yn barhaus a bydd angen iddo weithio ochr yn ochr â buddsoddiadau refeniw parhaus y Cyngor ar draws y meysydd blaenoriaeth allweddol a nodwyd yn y Cynllun Strategol hwn.

Ni all y Cyngor ariannu hyn yn llawn ar ei ben ei hun, bydd cefnogaeth allanol gan lywodraethau Cymru a'r DU a chyrff eraill yn hanfodol.

Efallai y bydd angen cyllid cyfatebol a rhaid manteisio'n llawn ar bob ffynhonnell ariannu sydd ar gael lle bo modd.

Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried defnyddio ei gronfeydd wrth gefn ei hun, cyfraniadau o gyllidebau refeniw a defnyddio benthyca darbodus, os yw'n bodloni gofynion y Cod Ymarfer, i wneud y mwyaf o gyllid grant neu fel cyllid sylfaenol lle bo angen a lle mae'r cyllid ar gael.

# Llywodraethu: Monitro a Gwerthuso

Byddwn yn adeiladu ar drefniadau llywodraethu o'r Cynllun Strategol Tuag at Sero Net flaenorol. Bydd trefniadau'n sicrhau eglurder, atebolrwydd, cydlyniad a'r cyfle i fonitro cynnydd yn effeithiol.

Bydd cynllun gweithredu blynyddol yn cael ei sefydlu, a bydd cynnydd yn cael ei adolygu bob chwarter drwy'r Grŵp Llywio Sero Net. Bydd y Grŵp Llywio yn adrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth lle bo angen.

Bydd adroddiad cynnydd blynyddol yn cael ei gynhyrchu gan gynnwys adolygiad o'r cynllun strategol ac rydym yn asesu ein cynnydd, targedau, risgiau sy'n dod i'r amlwg a chyfleoedd yn rheolaidd i sicrhau bod ein camau gweithredu yn adlewyrchu meysydd blaenoriaeth allweddol y Cynlluniau Strategol.

Bydd camau gweithredu allweddol a nodwyd o fewn amcan strategol Newid Hinsawdd Cynllun y Cyngor yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Rhaglen Gwella a Moderneiddio.

Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro allyriadau carbon wrth gyflawni ei adroddiadau blynyddol i Lywodraeth Cymru; gan sicrhau tryloywder, atebolrwydd, a phenderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata sy'n cefnogi ein targedau hinsawdd.

# Atodiad 1 – Targedau Sero Net y Cyngor

Mae gwersi a ddysgwyd o'r Cynllun Tuag at Sero Net 2022-2025 yn dod i'r casgliad nad yw sero net erbyn 2030 yn darged ymarferol.  O ganlyniad, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y targed i gyflawni carbon sero net yn fwy realistig a chyraeddadwy.

Bydd y Cyngor yn cynnal y targed cyffredinol o ddod yn garbon sero net erbyn 2050 yn unol a brif targed Cymru gosodwyd gan Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Targedau Maes Blaenoriaeth Allweddol i'w cyflawni erbyn 2031 yw:-

**Asedau a Thai**

- Gostyngiad o 22% mewn allyriadau o ddefnyddio ein hadeiladau erbyn 2031.
- Sylfaen allyriadau tai wedi'i sefydlu gyda gostyngiad o 10% mewn allyriadau cyffredinol (o adnewyddu tai a gosodiadau solar).
- Cyfradd ailgylchu o 70% ar draws adeiladau a reolir gan y Cyngor.



**Allyriadau Trafnidiaeth y Cyngor**

- Anelu i leihau allyriadau carbon y fflyd i 360 tCO2e bob blwyddyn.
- Gostyngiad o 30% mewn allyriadau o deithio busnes erbyn 2031.

**Allyriadau'r Gadwyn Gyflenwi**

- Cyflawni 50% o gyfanswm gwariant y gadwyn gyflenwi lle mae cyflenwyr wedi darparu cynlluniau lleihau carbon yn seiliedig ar dargedau blynyddol cronnus.

# Atodiad 2 – Ôl-troed Carbon y Cyngor


Mae'r Cyngor yn adrodd ar ei allyriadau carbon i Lywodraeth Cymru o fewn y fframwaith 'adrodd sero net' blynyddol.
Gan ddefnyddio'r data a gyflwynir, gall y Cyngor fonitro ei allyriadau carbon, nodi blaenoriaethau ac olrhain cynnydd wrth iddo weithredu'r Cynllun Strategol Tuag at Sero Net.

Yn seiliedig ar y data a gyflwynwyd i WG:

- Cyfanswm allyriadau carbon y Cyngor oedd 51,944 tunnell o gyfwerth â charbon deuocsid ($tCO_2e$) yn 2024/25.

- Mae hyn yn seiliedig ar allyriadau a gyfrifir dan gategorïau adeiladau, trafnidiaeth, gwastraff a'r gadwyn gyflenwi.

- Mae llawer o ffactorau wedi effeithio ar allyriadau o fewn y categorïau hyn megis newidiadau mewn gofynion data, methodoleg i gyfrifo a newid gweithgareddau o fewn categorïau yr adroddir arnynt.



# Atodiad 2 – Ôl-troed Carbon y Cyngor

Mae data a chategorïau allyriadau 2024/25 yn dangos: -


Mae **adeiladau** wedi gweld gostyngiad mewn allyriadau o drydan, gwresogi a defnydd dŵr ar draws asedau'r cyngor flwyddyn ar ôl blwyddyn.


Mae allyriadau **trafnidiaeth** wedi cynyddu oherwydd gwelliannau yn y fethodoleg adrodd ac maent wedi dod yn fwy cywir ar gyfer data 2024/25.


Mae allyriadau **gwastraff** wedi lleihau oherwydd newidiadau i ffiniau adrodd a chael gwared ar adrodd dyblyg.


Cyfrifir allyriadau'r **Gadwyn Gyflenwi** yn seiliedig ar faint mae'r Cyngor yn ei wario yn ystod y flwyddyn ariannol ac ar y math o nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu caffael. Gan fod y Cyngor wedi gwario mwy yn 2024/25, mae'r allyriadau cyfatebol hefyd wedi cynyddu.





This page is intentionally left blank